Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr o'r elusen at ddiwedd Deddf Cwmnïau 2006, yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol â'r datganiadau ariannol archwiledig am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2024. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu'r darpariaethau yn y 'Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau' wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (effeithiol 1 Ionawr 2015).

Mae Cwmni Urdd Gobaith Cymru yn elusen gofrestrdedig ac yn gwmni cyfyngedig drwy wariant. Agorwyd cangen gyntaf y mudiad yn 1972 ac yna ymgorfforwyd yr Urdd ar 8 Mawrth 1977 a chofrestrodd fel elusen ar yr un dyddiad. Sefydlwyd o dan Fomrandwm sy'n datgan amcanion a phwerau'r Cwmni a reolwyd gan Erthyglau Cymdeithasol. Os fyddai'r cwmni yn digwydd drwy'n i ben yn y dyfodol, ni fydd rhwymedigaeth yn fwy nag £0.25 yn daladwy gan yr Ymddiriedolwyr.

AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Nod ac Amcanion

Prif amcanion yr elusen yw sicrhau bod holl ieuenctid Cymru yn cael y cyfle, trwy gyfrwng y Gymraeg, i ddatblygu'n unigolion cyflawn, a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, drwy feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.

Mae'r elusen yn cyflawni ei hamcanion mewn pump prif ffordd, sef: 1) drwy gynnal profiadau canolfannau preswyl, 2) drwy gynnal eisteddfodau lleol a chenedlaethol i hyrwyddo'r celfyddydau, 3) drwy gynnal gwasanaeth darpariaeth chwaraeon, 4) drwy gynnal rhwydwaith o weithgareddau cenedlaethol a rhyngwladol i'r ieuenctid, a 5) darparu hyfforddiant yn y gweithle a phrentisiaethau. Ceir adolygiad manwl o gampau a pherfformiadau mewn adroddiad blynyddol ar wahân i'w gyflwyno yn y Cyfarfod Blynyddol (gweler www.urdd.cymru).

Mae'r elusen yn ddinolhgar am ymdrechion ei gwirfoddolwyr sy'n helpu i ddarparu'r gwasanaeth a rhodi arian drwy roi eu hamser i gynorthwyo gyda gweithgareddau'r elusen. Ar y cyfan mae'r cyfraniadau hyn yn cynnwys gwirfoddoli ar gyfer yr Eisteddfodau niferus sy'n digwydd ar lefel leol a rhanbarthol cyn cymhwyso ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol, cynorthwyo gyda nifer o glybiau chwaraeon a chymdeithasol sy'n gweithredu drwy gydol y flwyddyn, helpu gyda threfnu a stiwardio cystadlaethau rhanbarthol a cenedlaethol yn ogystal â'n Hymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr eraill sy'n eistedd ar ac yn mynychu ein byrddau a'n paneli. Er bod rhanbarthau a chylchoedd lleol yn cynnal gweithgareddau, caiff y rhai eu rhedeg yn annibynnol ar Gwmni Urdd Gobaith Cymru ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfrifon hyn.

Cyflawniadau a Pherfformiad

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth yr Urdd gyflawni y canlynol:

- Daeth dros 103,000 o wersyllwyr a thros 850 o ysgolion Cymru, gan gynnwys 61% o ysgolion cyfrwng Saesneg y wlad, i ymweld a gweryllodd yr Urdd.
- Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Faldwyn, gyda dros 100,000 o gofrestrïadau wedi'u wneud i gystadlu yn yr ŵyl.
- Mewn partneriaeth gyda Undeb Rygbi Cymru, Cymerodd dros 6,000 o chwaraewyr ran mewn twrnament cyflwynol 7 bob ochr rygbi yng Nghaerdydd yn Ebrill 2024.
- Dathlodd yr adran prentisiaethau ei phen blwydd yn 10 oed a chynhaliodd ddigwyddiad yn Llandudno ac Abertawe i nodi'r pen-blwydd. Mae'r Urdd yn cynnal prentisiaethau yn y sectorau chwaraeon, chwaraeon mewn addysg, awyr agored, gofal plant, a gwaith ieuenctid, ac ers sefydlu'r adran Mae nifer y prentisiad newydd wedi cynyddu o 25 i 180 y flwyddyn, gyda dros 80 o gyflogwyr bellach mewn partneriaeth â'r Urdd ar y gwahanol gynlluniau hyfforddi.
- Ym mis Mai lanswyd Neges Heddwch 2024, 'Gweithred yw Gobaith', a grewyd gan fyfyrwyr Coleg Caerdydd a'r Fro, Prentisiad a gwirfoddolwyr yr Urdd yn Sain Ffagan, Caerdydd. Roedd y Neges Heddwch yn rhoi teyrnged genhedlaeth o ferched Cymru a weithredodd dros heddwch a chydardoldeb gan mlynedd yn ôl, a hynny drwy gynnal ymgyrch arloesol Deiseb Heddwch Merched Cymru 1923-24, ac ym mis Rhagfyr 2024 ymwelodd cynrychiolwyr y Neges Heddwch ag Efrog Newydd a Washington i ddilyn ag olrhain Hanes y ddeiseb a chael eich grymuso trwy ddysgu mwy am y sefyllfa fyd-eang i fenywod fel arweinwyr ac ymgyrchwyr.
- Parhaodd prosiectau Rhyngwladol y mudiad i hyrwyddo cyfnewid a dealltwriaeth ddiwylliannol, a fel rhan o flwyddyn Cymru yn India, lanswyd rhaglen #FelMerch mewn partneriaeth ag elusen "Her Future Coalition". Rhoddwyd y cyfle i wirfoddolwyr 18-25 oed o Gymru i gymryd rhan mewn rhaglenni addysg a chymorth i blant a phobl ifanc yn Kolkata. Ymgysylltodd yr adran ieuenctid a Chymuned â dros 84,000 o blant a phobl ifanc trwy glybiau cinio neu glybiau cymunedol. Mae gan yr Urdd 163 o ganghennau lle cynhelir gweithgareddau'n rheolaidd ledled Cymru.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

ADRODDIAD STRATEGAETH

Adolygiad ariannol

Sefyllfa ariannol

Adroddir ar ganlyniadau'r Elusen yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar dudalen 18

Mae incwm net o bob cronfa yn dangos gweddill o £61,412 (2024 £371,787) gyda'r Elusen yn ffodus o fod wedi eiwa o'r canlynol

- Grantiau cyfalaf oddi wrth Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru o £920,492 (2024 £1,331,932) Defnyddiwyd y grantiau yma i ariannu'r gwariant cyfalaf yng ngwersylloedd Glan Llyn, Llangrannog and Phentre Ifan. Tra bod y grantiau a dderbyniwyd o fewn incwm, mae'r gwariant yma wedi'i gyfalafu a felly nid yw wedi adrodd yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol
- Rhoddion a chymynroddion £144,148 (2024 £943,718)

Er bod y gwersylloedd wedi gwasanaethu dros 103,000 o ymwelwyr dros nos, fe wnaeth chwyddiant uchel gael effaith ar gostau rhedeg y gwersylloedd ac felly nid oedd yr incwm net a gynhyrchwyd yn ôl i fyny i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig COVID

Yn flynyddol, mae cyfrifon rheoli mewnol yr Urdd yn dangos fod Gwersylloedd Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd, yn ogystal â'r Adran Gylichronau ac Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau, yn cyfrannu gwarged tuag at weithgareddau datblygu a rhanbarthol. Yn unol â pholisiau cyfrifyddol yn y cyfrifon statudol dosrannir costau cefnogi'r gweithgareddau elusennol ar sail canran yr incwm a dderbynnir gan bob adran. Yn ogystal nodir incwm grantiau ar wahân yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol

Asedau Sefydlog Tiriaethol

Dangosir newidiadau asedau sefydlog diriaethol yn nodiadau yr adroddiad ariannol. Yn ystod y flwyddyn gwariwyd £1,318,879 (2024 £2,298,762), ar amryw o asedau sefydlog, yn fwyaf nodedig datblygiad adeilad Penhelig yng ngwersyl Llangrannog, gosod tŵr Zip Wire newydd yn Llangrannog, a gwelliannau cyfleusterau ac effeithlonrwydd ynni pellach yn Llangrannog, Glan Llyn and Chaerdydd. Roedd yr elusen yn ffodus i dderbyn grant gan Lywodraeth Cymru ariannu 65% o'r gwaith ym Mhenhelig a grant gan Chwaraeon Cymru ar gyfer gosod tŵr Zip Wire yn Llangrannog.

Polisi ac amcanion buddsoddi

Rheolir pwerau buddsoddi'r Ymddiriedolwyr gan y Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu ar bolisi o fuddsoddi arian mewn cyfuniad o stoc y Llywodraeth, cyfranddaliadau rhestredig ac unedau buddsoddi arbenigol i elusennau, er mwyn cwrrd â'u gofynion i gynhyrchu incwm a thyfiant cyfalaf yn ogystal â buddsoddi'n foesebol. Yn ystod y cyfnod adrodd trosglwyddwyd buddsoddiadau o reolwr cronfeydd presennol i reolwyr cronfeydd newydd, CCLA Investment Management Limited and Sarasin & Partners LLP, yn dilyn adolygiad gan yr Ymddiriedolwyr ar agwedd yr elusen tuag at fuddsoddi n gyda mewnbwn arbenigwr sector mewn cyfnod adrodd blaenorol.

Polisi cronfeydd

Fel sydd yn ofynnol gan Comisiwn yr Elusennau, mae'r angen i'r elusen gael polisi cronfeydd er mwyn diogelu y mudiad rhag yr annisgwyl. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi sefydlu polisi lle dylai cronfeydd cyffredinol fod gwerth oddeutu 6 mis o wariant cyffredinol (tua £7.7 miliwn). Ar y lefel hwn, teimla'r Ymddiriedolwyr gall yr elusen barhau i weithredu mewn achos o ddiffyg incwm sylweddol. Byddai'n rhaid ystyried sut i newid y gweithgareddau neu gynyddu'r incwm mewn achos o'r fath.

Ar ddiwedd 31 Mawrth 2025, roedd y cronfeydd rhydd yn £5,269,315 (2024 £5,771,060). Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o gymyrrddion a fydd yn cael eu dosbarthu i'r elusen ar ôl setlo ystadau unigolion amrywiol, gan gynnwys ystâd sylweddol a gadarnhawyd gan ddyfarniad Llythyr Gweinyddiaeth ar 4 Tachwedd 2025, gyda gwerth net o tua £3.2 miliwn. Dylai'r rhoddion disgwyliedig hyn ddod â'r cronfeydd rhydd yn ôl i'r lefel targed gan yr Ymddiriedolwyr ar ôl caniatáu ar gyfer gwariant ar adnewyddu cyfleusterau yn y canolfannau preswyl. Y strategaeth hir-dymor yw parhau i gynyddu y cronfeydd rhydd yn y dyfodol trwy greu gweddill blynyddol ar weithgareddau.

Roedd yna £621,040 (2024 £537,454) mewn cronfeydd cyfyngedig. Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys cyfraniadau a grantiau o £22,040 (2024 £237,454) a £599,000 (2024 £300,000) mewn cronfeydd cyfalaf. Roedd yna £278,963 (2024 £275,813) mewn Cronfeydd Gwaddol.

Cyfanswm y cronfeydd ar ddiwedd y flwyddyn oedd £32,377,071 (2024 £32,315,659)

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

Codi Arian gan y Cyhoedd

Yn ystod y flwyddyn, bu Urdd Gobaith Cymru yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau codi arian i gefnogi ei nodau elusennol, gan gynnwys apelïadau, digwyddiadau cymunedol, codi arian ar-lein, a rhoddion gwirfoddol gan y cyhoedd. Mae codi arian yn chwarae rhan bwysig wrth alluogi'r Urdd i ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc yng Nghymru gymryd rhan mewn profiadau diwylliannol, chwaraeon, addysgol a chymdeithasol. Nid yw'r elusen yn cyflogi codwyr arian proffesiynol nac yn defnyddio cyfranogwyr masnachol.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau bod yr elusen yn cadw at God Ymarfer Codi Arian y Rheoleiddiwr Codi Arian ac fod pob gweithgaredd codi arian cyhoeddus yn ystod y flwyddyn wedi'i gynnal yn unol â'r gofynion a osodir ar gwmnïau elusennol gan Ddeddf Cwmnïau 2006 a deddfwriaeth elusennol berthnasol. Mae rheolaethau mewnol a mecanweithiau goruchwyllo ar waith i sicrhau bod codi arian yn cael ei wneud yn dryloyw, yn gyfrifol, ac mewn modd sy'n cyd-fynd â chenhadaeth yr elusen.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cynnal goruchwyliaeth reolaidd ar weithgareddau codi arian, gan dderbyn diweddariadau ar incwm a gynhyrchir, materion cydymffurfiaeth, ac unrhyw faterion sy'n codi. Mae polisiâu ar waith i sicrhau bod pob gweithgaredd codi arian yn parhau hawliau, urddas a lles cefnogwyr a'r cyhoedd, gyda sylw arbennig i unigolion sy'n agored i niwed. Mae staff a gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn codi arian yn derbyn canllawiau perthnasol i ddiogelu rhag gormod o bwysau, arferion ymyrrol, neu ymagweddau parhaus.

Mae Urdd Gobaith Cymru yn gweithredu gweithdrefn gwyno glir a hygyrch. Yn ystod y cyfnod adrodd, ni chafodd yr elusen unrhyw gwynion yn ymwneud â chodi arian (blwyddyn flaenorol dim).

Mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon bod gweithgareddau codi arian yr elusen yn ystod y flwyddyn wedi bod yn gost-effeithiol, wedi'u goruchwyllo'n briodol, ac wedi'u cynnal mewn modd sy'n gyson â gwerthoedd yr elusen fel mudiad ieuencid cenedlaethol. Nid yw'r elusen wedi cymryd rhan mewn arferion a allai gael eu hystyried yn afresymol o ymwthiol, yn barhaus, neu'n rhoi gormod o bwysau ar roddwyr posibl.

Polisiâu ac amcanion rheolaeth risg a rheolaeth ariannol

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi adolygu'r risgiau sylweddol hynny lle mae'r elusen yn agored iddynt, a sefydlu systemau i leddfu'r risgiau hynny. Paratowyd adroddiadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau'r risgiau. Lleihawyd risgiau mewnol drwy weithredu trefniadau awdurdodi trafodaeth ariannol a phrosiectau, ac er mwyn sicrhau ansawdd cyson am holl weithgareddau'r elusen. Adolygwyd y trefniadau yma yn gyfnodol i sicrhau eu bod yn dal i gwrdd â gofynion yr elusen.

Busnes Gweithredol

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi asesu priodoldeb y sail busnes gweithredol ('going concern') drwy foddelu cyllideb a rhagolygon ariannol ar gyfer y cyfnod hyd at fis 31 Mawrth 2026 ac maent yn fodlon eu bod yn parhau i fod yn briodol i ddefnyddio'r sail busnes gweithredol o barato'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025. Gweler Polisiâu Cyfrifo, Nodyn 1 i'r Datganiadau Ariannol.

Datblygiadau'r dyfodol

Cynllun Strategol presennol yr Urdd ar gyfer 2023 i 2028, 'Urdd i Bawb', sydd yn nodi gweledigaeth i sicrhau darpariaeth gynhwysol a theg sy'n croesawu amrywiaeth ac yn cryfhau'r Gymraeg. Mae gwerthoedd craidd yr Urdd fel y ganlyn:

- **CEFNOGI** - ein aelodau, defnydd o'r Gymraeg, lles plant a phobl ifanc, ein gwirfoddolwyr a staff
- **PARCHU** - iaith, amrywiaeth ag anabledd, ein gilydd, ein diwylliant a diwyllïannau eraill a'n gwahaniaethau
- **GRYMUSO** - dros Gymru a'n pobl ifanc, i wneud gwahaniaeth ac i fod yn haul tuag at eraill

Amcanion strategol Urdd i Bawb yw

- **Urdd i Bawb** – darpariaeth gyson a theg sy'n croesawu amrywiaeth
- **Ein Cynnig** – sy'n apelgar, cyfoes ac yn hyblyg
- **Ein Gwirfoddolwyr** – y llwybrau cefnogi ac uwchsgilio
- **Ein Gweithlu** – sy'n gymwys, hyblyg a chynhwysol
- **Ein Hamgylchedd** – Urdd sy'n amgylcheddol gyfrifol
- **Ein Hadeiladau** – sy'n apelgar ac addas ar gyfer anghenion y dyfodol

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion strategol, bydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr, staff a Byrddau Strategol yn adolygu blaenoriaethau a nodau'r Elusen yn rheolaidd.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

Crynodeb o Ddilysiant Ail Flwyddyn (2024–2025) yn erbyn Cynllun Strategol Urdd i Bawb

Urdd i Bawb

- Cynyddodd aelodaeth £1 i 25.5%, mynediad am ddim i'r Eisteddfod i deuluoedd incwm isel
- 350 o leodd wedi'u hariannu drwy'r Gronfa Cyfle i Bawb (+38% o gynnydd)
- Myfyrwyr ESOL wedi cyfrannu at y Neges Heddwch a Daioni
- Mentrau LGBTQ+ ehangu rhaglen Cwiar Na Nog, mannau diogel a chyfranogiad mewn digwyddiadau Pride
- Penodi Swyddog Hygyrchedd, defnydd o Makaton a BSL mewn digwyddiadau, partneriaethau gydag elusennau anabled

Ein Cynnig

- Llais pobl ifanc yn ganolog 34% o lefydd ar fyrddau i bobl 18–25 oed, fforymau ieuencid yn dylanwadu ar ddarpariaeth
- Prisiau cynhwysol a chynlluniau rhandaliadau, teithiau rhyngwladol am ddim drwy gyllid TAITH
- Mentrau llesiant pobl ifanc rhaglenni cymunedol a chwaraeon, mannau ymwybyddiaeth ofalgar yn yr Eisteddfod a'r canolfannau preswyl
- 26% o ysgolion sy'n aros yn y canolfannau o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, darpariaeth wedi ei dargedu megis Fit and Fed

Ein Gwirfoddolwyr

- 555 o wirfoddolwyr chwaraeon (73% o dan 25 oed), trefniadau newydd ar gyfer gwirfoddolwyr cymunedol a chelfyddydol
- Hyfforddiant strwythuredig ar-lein ac wyneb yn wyneb diogelu, ymwybyddiaeth anabled, BSL, cyfryngau cymdeithasol, trefnu digwyddiadau

Ein Gweithlu

- Cyflogwr Cyflog Byw Go Iawn, pecyn buddion cynhwysfawr
- Amrywiaeth gweithlu 43% o dan 25 oed, 190 o brentisiaid gyda 65% yn symud i swyddi llawn amser
- Hyfforddiant gwrth-hiliaeth, LGBTQ+, ac anabled, cyrsiau arweinyddiaeth ILM ar gael
- Arolwg lles staff wedi sgorio 77%, sy'n uwch na chyfartaledd elusennau'r DU

Ein Hamgylchedd

- Paneli solar wedi'u gosod yn Llangrannog, cynlluniau Net Sero ar gyfer Glan-Ilyn a chanolfannau eraill
- Gwelliannau ymarferol cwpanau ail ddefnydd, offer ailgylchu, llai o ddefnydd generaduron diesel yn yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Ein Heiddo

- Cynllun buddsoddi pum mlynedd wedi'i gymeradwyo ar gyfer pob canolfan breswyl
- Uwchraddiadau wedi'u cwblhau ystafelloedd ymolchi en-suite a chyfarfod yng Nghaerdydd, adnewyddu yn Llangrannog, cyfleusterau staff wedi'u gwella yn Glan-Ilyn

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLAETH

Trefn Lywodraethol

Rheolir yr elusen gan ei dogfen llywodraethu, y Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu, ac fe'i hystyrir yn Gwmni cyfyngedig, wedi ei gyfyngu trwy warrant, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cwmnïau 2006


Cyfansoddiad yr Elusen

Mae Cwmni Urdd Gobaith Cymru yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant Ymgorfforwyd yr Urdd ar 8 Mawrth 1932 Sefydlwyd o dan Femorandwm sy'n datgan amcanion a phwerau'r Cwmni a reolwyd gan Erthyglau Cymdeithasol

Cred yr Ymddiriedolwyr yw bod yr elusen yn Endid Budd Cyhoeddus a'i fod yn cwrdd â'r anghenion a osodwyd yn adran 4 o'r Ddeddf Elusennau 2011


Strwythur Sefydliadol

Yn ystod y cyfnod adrodd, rheolwyd yr Urdd o ddydd i ddydd gan Brif Weithredwr gyda chefnogaeth tri ar ddeg pennaeth adrannol, gyda 8 ohonynt yn rhan o'r Uwch Dim Rheoli Dangosir y strwythur adrannol isod



Strwythur - parhad

Mae strwythur llywodraethu yr elusen yn cynnwys chwech Bwrdd Strategol i adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar faterion arbenigol yn ymwneud ag Adnoddau Dynol, Busnes, Prentisiaethau a Chwaraeon, Eisteddfod a'r Celfyddydau, Gwersylloedd, Rhyngwladol Cynhaliwyd cyfarfodydd bob 4 mis yn ystod y cyfnod adrodd Mae'r Urdd fel mudiad yn hynod ddiolchgar i'r llu o unigolion sydd yn gwirfoddoli i gefnogi'r holl rwydwaith yma



Nodir aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at ddiben deddfwriaeth cwmnïau) a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ac ar ddyddiad yr adroddiad yma ar dudalen 13

Yn ystod y cyfnod adrodd, bu'r canlynol yn Llywyddion Anrhydeddus yr elusen

- Mr W Melville Jones
- Mr S ab Edwards
- Ms R Lewis

Dirprwyo

Mae'r Ymddiriedolwyr yn dirprwyo rheolaeth dydd i ddydd yr elusen i'r Prif Weithredwr, a'r Uwch Dim Rheoli, a oedd yn cynnwys yn ystod y cyfnod adrodd

- | | |
|---------------------|---|
| - Sian Lewis | Prif Weithredwr |
| - Gwenno Williams | Cyfarwyddwr Cyllid |
| - Lowri Jones | Cyfarwyddwr Gwersyll Llangrannog |
| - Mair Edwards | Cyfarwyddwr Gwersyll Glan-Ilyn |
| - Ceren Roberts | Cyfarwyddwr Gwersyll Caerdydd |
| - Gary Lewis | Cyfarwyddwr Chwaraeon a Phrentisiaethau |
| - Llio Maddocks | Cyfarwyddwr Eisteddfod a'r Celfyddydau |
| - Mali Thomas | Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Rhyngwladol |
| - Sian Morris Jones | Cyfarwyddwr Ieuenctid a Chymuned |

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

Recriwtio a Phenodi Ymddiriedolwyr Newydd

Mae'r Ymddiriedolwyr yn derbyn cyngor gan Gynghorwyr Cyfreithiol ac Archwilwyr yr elusen yn ôl yr angen, yn ogystal â'r Bwrdd Adnoddau Dynol sy'n cynnwys arbenigwyr ac ymarferwyr o'r diwydiant

Mae Urdd Gobaith Cymru yn recriwtio ac yn penodi Ymddiriedolwyr newydd yn unol â'i Erthyglau Cymdeithasu, sy'n nodi y bydd yr Elusen, drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, yn

- Penodi person sydd wedi cytuno i gael ei enwebu'n Ymddiriedolwr
- Ail-benodi Ymddiriedolwr presennol, trwy wahoddiad y Bwrdd Ymddiriedolwyr unwaith y bydd eu tymor tair blynedd wedi'i gwblhau

Penodir Ymddiriedolwyr newydd am gyfnod cychwynnol o 3 blynedd, gyda'r opsiwn o ymestyn eu tymor, ar ôl eu hail-ethol, am 3 blynedd arall Os yn briodol ac ar gais y Bwrdd Ymddiriedolwyr gellir cynnig 3ydd cyfnod tymor o 3 blynedd

Yn y broses hon mae'r Bwrdd yn derbyn cyngor gan amrywiaeth o rhanddeiliaid yr elusen, ac ar ôl hynny gofynnir i unigolion wneud cais am seddi gwag ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr Yn ogystal, er mwyn sicrhau tryloywder, cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, rhoddir rhybudd am alwad agored i dderbyn enwebiadau gan unigolion i'w hystyried yn Ymddiriedolwyr Yn dilyn cwblhau ffurflen enwebu, cynhelir cyfweiliadau i sicrhau bod yr ymgeiswyr fwyaf cymwys yn cael eu cyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Hyfforddiant ac Anwytho Ymddiriedolwyr Newydd

Pan benodir Ymddiriedolwyr newydd, cynigir gwybodaeth iddynt am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau ynghyd â llunio rhaglen anwytho, Mae hyn yn cynnwys cwrdd â staff, cysgodi cyfarfodydd, a chynnig arweiniad lle yn addas ar weithdrefnau a pholisïau'r Urdd Gwneir asesiad o anghenion hyfforddi a cynigir hyfforddiant penodol i Ymddiriedolwyr newydd ar eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau

Adroddiad ar Gyflogau a Thâl

Mae'r Urdd yn defnyddio system gwerthuso / graddoli swyddi cydnabyddedig ym maes Adnoddau Dynol (HR Inform) er mwyn sicrhau bod pob swydd o fewn y mudiad yn cael eu gosod ar gyfraddau cyflog addas Mae'r system hwn yn cael ei ddefnyddio pan mae swydd newydd yn cael ei greu neu hefyd yn weithredol petai unrhyw newid sylweddol yn nyletswyddau a cyfrifoldebau unigolyn, a'r gofyn yno i ail-raddoli'r swydd Mae dau asesiad annibynnol o'r swydd yn cael ei redeg drwy'r teclyn gwerthuso swyddi yn yr amgylchiadau hyn

Fel mudiad, rydym wedi ymrwymo i ac wedi ein achredu i fod yn Gyflogwr Cyflog Byw, gan sicrhau bod ein cyflogau cychwynnol (gan hegor prentisiaid) yn cyfateb â chyfradd argymhellir gan y Sefydliad Cyflog Byw

Yn flynyddol, mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn asesu cyflogau staff a chysidro cyflwyno cynnydd sy'n cyfateb a unrhyw gynnydd i gostau byw ochr yn ochr a rhagolygon ariannol y mudiad Byddwn yn ymgynghori am unrhyw gyllidebau arfaethedig gyda'r Bwrdd Adnoddau Dynol a'r Bwrdd Busnes Ym mlwyddyn ariannol 2024/25 cyflwynwyd godiad cyflog i staff ar raddfeydd is yn unig er mwyn sicrhau bod gofynion y sefydliad Cyflog Byw wedi gwrdd

Yn unol â'n hymrwymiad i sicrhau bod ein cyfraddau cyflog yn deg a chystadleuol, bob dwy flynedd byddwn yn meincnodi ein swyddi yn erbyn y farchnad allanol Mae hyn yn galluogi'r mudiad i sicrhau bod ein cyflogau'n gystadleuol, ac yn ein galluogi i ddenu a cadw ymgeiswyr o safon sy'n angenrheidiol at rediad ilwyddiannus yr elusen

Yn 2023/24 cynhaliwyd asesiad ac adolygiad llawn o feincnodi pob swydd disgrifiad ar draws y mudiad Yn unol â'n ymrwymiad felly, nid oedd gofyn i ni wneud yr ymarfer hwn am 2024/25, oni bai mewn cyd-destun unrhyw swydd newydd i'r mudiad

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Staff

Mae gan Urdd Gobaith Cymru ystod o bolisïau sy'n adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol ac sy'n anelu at sicrhau bod ei staff yn cael eu cadw a'u cymell Caiff y polisïau hyn eu hadolygu'n rheolaidd a chânt eu gwirio ar gydraddoldeb cyn eu gweithredu Mae'r elusen wedi ymrwymo i gyfle cyfartal yn ein harferion cyflogaeth Yn benodol, nod yr Urdd yw sicrhau nad oes unrhyw gyflogai posibl neu wirioneddol yn cael triniaeth fwy neu lai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, statws priodasol neu statws rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd, neu gyfeiriadedd rhywiol Adlewyrchir hyn ym mholisi cydraddoldeb ac amrywiaeth y Mudiad, sydd yn amlinellu ymrwymiad yr Urdd i sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ei holl weithgareddau, ac i sicrhau bod pob cyflogai, ymgeisydd am swydd, aelod, gwirfoddolwr, pobol ifanc, ymwelydd a chontractwr yn cael eu trin yn deg Mae'r ymrwymiad yma wedi ei selio ar gydgyssylltiad a chanfyddiad i oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Staff- parhad

Mae system Adnoddau Dynol yr elusen, CIPHR, yn lle diogel i staff rannu manylion personol mewn perthynas â data cyfle cyfartal Nid y cwblhau'r data yma yn orfodol, fodd bynnag mae annog i wneud hynny yn sicrhau bod y cymorth gorau posibl yn cael ei darparu i bob cyflogai. Bydd y data hefyd yn galluogi'r Urdd i adrodd yn fwy cywir ar amrywiaeth staff. Mae'r Urdd wedi cofrestru i fod yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd, gyda'r dystysgrif lefel 2 bellach wedi ei derbyn. Bydd yr achrediad yn cael ei ddefnyddio fel rhan o ymgyrchoedd recriwtio gyda'r nod o recriwtio a denu rhwydwaith mwy amrywiol o ymgeiswyr.

Mae cyfathrebu yn allweddol ym mhob un o weithgareddau yr elusen ac mae sicrhau bod staff yn cael eu diweddarau ac yn ymwybodol o ddatblygiadau ar draws y sefydliad yn hanfodol. Mae nifer o adnoddau yn cael ei defnyddio i sicrhau bod hyn yn effeithiol, er enghraifft diweddariadau rheolaidd drwy y rhwydwaith Tîmau a system Adnoddau Dynol yr elusen, lle gellir postio cyhoeddiadau a rhannu polisïau a dogfennau newydd. Mae hefyd yn hanfodol i staff dderbyn diweddariadau rheolaidd gan y Prif Weithredwr.

Mae'r gadwyn gyfathrebu o fewn yr Urdd yn galluogi i wybodaeth gael ei lledaenu i lawr o'r brig drwy gydol y strwythur staffio – o Gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, i'r Uwch Dim Rheoli, i Reolwyr a Staff adrannol. Mae'r Uwch Dim Rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod unrhyw newidiadau, datblygiadau a materion a wynebir gan y sefydliad a rhoddir gwybod i'r staff am unrhyw ffactorau pwysig sy'n effeithio ar yr elusen gyfan a'u hadrannau a'u rolau hwythau yn benodol.

Cafodd Fforwm Staff "Llais i Bawb", grwp cynrychiolaeth staff sydd yn cael ei dewis gan y gweithlu ei hail ddechrau yn 2023 gyda'r nod o ddatblygu a hybu ymgysylltiad staff.

Bwrdd Adnoddau Dynol

Ymhlith y byrddau strategol y mae'r Ymddiriedolwyr yn dirprwyo rhywfaint o gyfrifoldeb iddynt mae'r Bwrdd Adnoddau Dynol sy'n cynnwys arbenigwyr Adnoddau Dynol a chyfraith cyflogaeth, gan sicrhau bod cyngor yn cael ei ddarparu a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda budd eu profiad, eu cyfeiriad a'u harweiniad.

Yr Amgylchedd

Mae Cwmni Urdd Gobaith Cymru wedi ymrwymo i sicrhau gwelliannau parhaus i'w weithdrefnau a'i ddefnyddio o adnoddau, er mwyn lleihau ei ôl troed carbon. Mae'r Urdd yn cydnabod yr Argyfwng Hinsawdd a'i nod yw gosod targed i fod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2050. Datblygu cynaliadwyedd yw hanfod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a nod yr Urdd yw gwella lles amgylcheddol Cymru drwy gymhwyso a gweithredu ei pholisïau amgylcheddol.

Adroddiad Syml ar Ynni a Charbon (SECR)

Dan rheoliadau SECR mae'r Urdd yn sefydliad mawr heb ei ddyfynni ac felly mae'n ofynnol i adrodd yn flynyddol ar allyriadau nwyon tŷ gwyr yn deillio o Trydan, Nwy a Thrafnidiaeth Gwmpas 1 a 2.

Methodoleg

Y cyfnod adrodd yw'r flwyddyn ariannol ddiweddaraf 1 Ebrill 2023 hyd 31 Mawrth 2024. Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â 'Canllawiau Adrodd Amgylcheddol Cynnwys canllawiau symlach ar adrodd ar ynni a charbon' y BEIS Mawrth 2019, a methodoleg yr EMA ar gyfer Adrodd SECR. Mae'r holl allyriadau mesuredig o weithgareddau y mae gan y sefydliad reolaeth ariannol drostynt wedi'u cynnwys fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Cwmnïau (Adroddiad Cyfarwyddwyr) a Phartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Adroddiad Ynni a Charbon) 2018, oni nodir yn wahanol. Cyfrifwyd y ffigurau carbon gan ddefnyddio ffactorau trosi carbon DESNZ 2024 ar gyfer pob tanwydd, ag eithrio trydan ar sail marchnad sydd wedi ei sei lar data cyflenwyr SSE, OVO, British Gas, Total Energy, EDF and E On.

Data Ôl Troed Carbon

Cwmpas	Disgrifiad	2025	2024	2023	2022	2021	2020
Cwmpas 1	Llosgi tanwydd ar safle a chludiant	526 tCO ₂ e	505 tCO ₂ e	498 tCO ₂ e	427 tCO ₂ e	332 tCO ₂ e	587 tCO ₂ e
Cwmpas 2	Ynni a brynwyd – ar sail lleoliad	199 tCO ₂ e	195 tCO ₂ e	171 tCO ₂ e	132 tCO ₂ e	103 tCO ₂ e	207 tCO ₂ e
	Ynni a brynwyd – ar sail marchnad	133 tCO ₂ e	134 tCO ₂ e	73 tCO ₂ e	35 tCO ₂ e	93 tCO ₂ e	231 tCO ₂ e
Cymhareb dwysedd	Ar sail lleoliad	45.2 tCO ₂ e/£1m trosiant	45.8 tCO ₂ e/£1m trosiant	38.2 tCO ₂ e/£1m trosiant	53.9 tCO ₂ e/£1m trosiant	45.9 tCO ₂ e/£1m trosiant	66.5 tCO ₂ e/£1m trosiant
	Ar sail marchnad	41.7 tCO ₂ e/£1m trosiant	42.4 tCO ₂ e/£1m trosiant	33.2 tCO ₂ e/£1m trosiant	45.3 tCO ₂ e/£1m trosiant	44.9 tCO ₂ e/£1m trosiant	68.5 tCO ₂ e/£1m trosiant

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

Data Ôl Troed Carbon – parhad

Mae allyriadau a defnydd ynni'r Urdd i gyd wedi cynyddu ers y cyfnod adrodd blaenorol, er yn is na'r cyfnod cyn pandemig COVID yn 2019/20 Mae'r cynnydd yma o ganlyniad i gynyddu capasiti y gwersylloedd ar gyfer cyrsiau preswyl a chynnydd pellach mewn digwyddiadau cymunedol yn ystod y flwyddyn ariannol

Yn ystod y cyfnod, gweithredodd yr Urdd y gwelliannau effeithlonrwydd canlynol

- Uwchraddio gwrthdroydd ar system solar y ganolfan chwaraeon yng ngwersyll Llangrannog i wella effeithlonrwydd y disgwylir iddo leihau allyriadau o 2,035 kGCO₂e y flwyddyn
- Paneli solar newydd ar y to wedi'u gosod yng ngwersyll Llangrannog a disgwylir iddo leihau allyriadau 27,752 kGCO₂e y flwyddyn
- Gosod system storio batrî 40kWh ar gyfer yr ynni solar dros ben gyda'r disgwyl o leihau allyriadau 4,163 kGCO₂e y flwyddyn yng nghanolfan breswyl Llangrannog
- Gosod System Rheoli Adeiladau (BMS) ar draws y safle yn Llangrannog i reoli gwresogi, oeri ac awyru gofod yn fwy effeithlon
- Gosod Synwryddion PIR yng nghanolfan breswyl Caerdydd i leihau'r defnydd o olau
- Comisiynwyd adroddiad i nodi cyfleoedd solar yng nghanolfan breswyl Glan Llyn

ADRAN 172 - DATGANIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r Cyfarwyddwyr yn deall eu cyfrifoldebau i hyrwyddo llwyddiant y Cwmni ac maent yn ymwybodol o'u dyletswydd o dan a 172 o Ddeddf Cwmnïau 2006 i weithredu yn y ffordd y maent yn ystyried, yn ddiwyll, fyddai fwyaf tebygol o hyrwyddo llwyddiant y Cwmni er budd ei aelodau yn ei gyfanrwydd ac, wrth wneud hynny, gan roi sylw i (ymhlith materion eraill)

- Canlyniadau tebygol unrhyw benderfyniad yn y tymor hir
- Buddiannau gweithwyr y Cwmni
- Yr angen i feithrin perthynas fusnes y Cwmni â'i chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill
- Effaith gweithrediadau'r Cwmni ar y gymuned a'r amgylchedd
- Dymunoldeb y Cwmni i gynnal enw da am safonau uchel o ymddygiad busnes
- Yr angen i weithredu'n deg fel rhwng aelodau'r Cwmni, (y "materion a 172(1)")

Canlyniadau Tebygol unrhyw Benderfyniadau yn y Tymor Hir

Mae'r Bwrdd yn parhau i gofio y gall ei benderfyniadau strategol fod â goblygiadau hirdymor i'r busnes a'i rhanddeiliaid, ac asesir y goblygiadau hyn yn ofalus

Yn ystod y flwyddyn, fe roddodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sylw i'r canlynol

- Sefydlwyd y Pwyllgor Archwilio a Risg, gan benodi Cadeirydd annibynnol
- Ffurfiwyd Pwyllgor Cenedlaethol Cadeiryddion Rhanbarthol
- Cafodd y flwyddyn gyntaf o strategaeth Urdd i Bawb ei fonitro
- Diwygio'r polisi risg a'r chofrestr risg gan sefydlu trefniadau adolygu a monitro newydd
- Diweddarau a mireinio y polisi arian wrth gefn

Buddiannau Gweithwyr y Cwmni

Mae gwella ymgysylltiad gweithwyr yn rhan annatod o ddiwylliant yr Urdd Mae uwch reolwyr yn cymryd rhan weithredol mewn ymgysylltu â staff drwy gyfathrebiadau wyneb yn wyneb ac electronig wythnosol Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am ddatblygiadau busnes ac yn rhoi cyfle i godi cwestiynau ac ateb cwestiynau'n uniongyrchol

Mae'r Ymddiriedolwyr yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar faterion gweithwyr gan y Prif Weithredwr, sy'n mynychu cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Mae rôl y Bwrdd Adnoddau Dynol, sydd yn cwrdd yn chwarterol, yn cynnwys

- Cefnogi'r Prif Weithredwr a Pennaeth yr adran Adnoddau Dynol i lunio cynllun strategol i ddatblygu'r gweithlu gan gymeradwyo'r fersiwn terfynol
- Cefnogi, denu, cadw a datblygu gweithlu cynhwysol
- Rhannu arweiniad a chefnogaeth mewn meysydd cyflogaeth penodol
- Cyflwyno argymhellion i Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Urdd ar faterion Adnoddau Dynol

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod cefnogaeth a chyfraniad nifer o rhanddeiliaid mewnol allweddol yr Elusen (aelodau a gwirfoddolwyr yr Urdd) a rhanddeiliaid allanol (y cyhoedd, partneriaid cyflenwi, cyllidwyr, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, cyflenwyr, cwsmeriaid a noddwyr)

Mae'r Ymddiriedolwyr yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymgysylltu'n effeithiol â'r holl rhanddeiliaid ac maent yn ymwybodol bod llwyddiant yr Urdd yn dibynnu ar ei allu i ymgysylltu'n effeithiol, cydweithio'n adeiladol ac ystyried barn rhanddeiliaid Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried ac yn trafod gwybodaeth o bob rhan o'r sefydliad er mwyn deall effaith gweithrediadau'r Urdd a diddordebau a barn ein rhanddeiliaid allweddol Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn adolygu perfformiad ariannol a gweithredol, yn ogystal â gwybodaeth sy'n cwmpasu meysydd fel risgiau allweddol, cydymffurfiaeth gyfreithiol a rheoleiddiol

Darperir y wybodaeth hon i'r Ymddiriedolwyr drwy adroddiadau rheolaidd a ddosbarthwyd cyn pob cyfarfod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a thrwy gyflwyniadau wyneb yn wyneb gan uwch reolwyr a staff eraill pan fo'n briodol

Mae strwythur Llywodraethu'r Urdd yn allweddol i ymgysylltu â rhanddeiliaid Mae Pwyllgorau a Byrddau Rhanbarth yn eistedd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn Mae'r rhain yn cynnwys gwirfoddolwyr, aelodau a rhanddeiliaid a phartneriaid eraill yn ogystal â dirprwyiaeth o Ymddiriedolwyr a staff ac maent yn rhoi barn, adborth ac arweiniad i'r Ymddiriedolwyr gan roi cyfleoedd i Ymddiriedolwyr ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau a gwirfoddolwyr Er mwyn sicrhau ymgysylltiad effeithiol drwy fyrdau, pwyllgorau ac is-bwyllgorau, gweithredwyd y strwythur llywodraethu presennol yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd gan is-grŵp o Ymddiriedolwyr

Yn unol â'r strwythur llywodraethant, mae'r byrddau strategol canlynol yn gweithredu

- Adnoddau Dynol
- Busnes
- Chwaraeon a Phrentisiaethau
- Eisteddfod a'r Celfyddydau
- Rhyngwladol
- Gwersylloedd
- Pwyllgor Archwilio a Risg
- Pwyllgor Cenedlaethol Cadeiryddion Rhanbarthol

Mae rhanddeiliaid yn derbyn diweddariad drwy gylchlythyr rheolaidd gan y Prif Weithredwr

Hyrwyddir y Cwmni i'r holl rhanddeiliaid drwy'r cyfryngau ac ymrwymadau cyhoeddus gan Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr

Effaith Gweithrediadau'r Cwmni ar y Gymuned a'r Amgylchedd

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ymrwymo i gefnogi cymunedau ledled Cymru ond maent yn rhoi ystyriaeth arbennig i'r rhanbarthau hynny lle mae prif ganolfannau preswyl yr Urdd wedi'u lleoli, a chyfrifoldeb yr elusen fel cyflogwr lleol, cwsmer i fusnesau lleol yn ogystal â'r heffaith amgylcheddol yn yr ardaloedd hynny

Mae'r Urdd wedi ymrwymo drwy ei pholisi amgylcheddol i leihau ei heffaith amgylcheddol drwy leihau ôl troed carbon ei weithgareddau a'r adnoddau naturiol y mae'n eu defnyddio Yn Ionawr 2023, comisiynwyd 'ECA Business Energy' i gwblhau archwiliad o ddefnydd ynni a'r allyriadau carbon yr Urdd Yn sgil hyn mae'r Urdd wedi ymrwymo i fod yn Sero Net erbyn 2050 Yn 2024, paratowyd adroddiadau defnydd ynni manwl i leihau troed carbon gwersylloedd Llangrannog a Glan-llyn,

Mae'r Urdd yn cefnogi cymunedau, trwy gyflogaeth leol a'r gadwyn gyflenwi leol Mae'r Urdd yn cyfrannu'n arbennig at gydlyniant cymunedol drwy gyflwyno ystod o gyfleoedd i bobl ifanc a gwirfoddolwyr o'r cymunedau lleol ym mhiri ganolfannau cyflogaeth yr elusen ac o'u cwmpas

Cynnal Enw Da am Safonau Ymddygiad Busnes Uchel

Mae'r Bwrdd yn ymfalchio yn ei hanes hir o onestrwydd ac uniondeb yn ei drafodion busnes Mae'n cydnabod pwysigrwydd gweithredu fframwaith llywodraethu corfforaethol cadarn

Yr Angen i Weithredu'n Deg Rhwng Aelodau

Mae holl aelodau'r Bwrdd wedi cwblhau datganiad diddordeb ac archwiliad sgiliau Mae hyn yn sicrhau bod eu profiad a'u gwybodaeth sgiliau yn cyd-fynd ag amcanion yr elusen

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025**

CYFEIRNODAU A MANYLION GWEINYDDOL

Rhif Cofrestredig y Cwmni
00263310 (Cymru a Lloegr)

Rhif Cofrestredig yr Elusen
524481

Swyddfa gofrestrdedig
Adran Ariannol
Gwersyll Yr Urdd Glan-Llyn
Llanuwchllyn
Y Bala
Gwynedd LL23 7ST

Trustees

N Bennett, Cadeirydd
M Emlyn, Is-Gadeirydd
I A Walters, Is-Gadeirydd
G E Cutter
D Davies (ymddiswyddodd 1^{af} Rhagfyr 2025)
E C Davies (ymddiswyddodd 2^{il} Rhagfyr 2024)
G Davies (ymddiswyddodd 2^{il} Rhagfyr 2024)
D Evans
A Griffiths (apwyntiwyd 2^{il} Rhagfyr 2024)
T Ll ap E ap Gwilym (apwyntiwyd 2^{il} Rhagfyr 2024)
N Haf (ymddiswyddodd 1^{af} Rhagfyr 2025)
T D Jones (ymddiswyddodd 2^{il} Rhagfyr 2024)
N E Morgan (apwyntiwyd 2^{il} Rhagfyr 2024)
G S Oakes (apwyntiwyd 1^{af} Rhagfyr 2025)
D S Ll Owen
M Parry (ymddiswyddodd 2^{il} Rhagfyr 2024)
E L S Pemberton
R J O'Rourke
A S Williams (ymddiswyddodd 1^{af} Rhagfyr 2025)

Archwilwyr

Ashmole & Co
Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig
3 Stryd Y Farchnad
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin SA19 6AH

Bancwyr

HSBC plc
19 Y Stryd Fawr
Aberystwyth
Ceredigion SY23 1DE

Rheolwyr Buddsoddiadau

Sarasin & Partners LLP
Juxon House
100 St Paul's Churchyard
LLundain EC4M 8BU

CCLA Fund Managers Limited
One Angel Lane
Llundain EC4R 3AB

Prif Gyngorwyr Cyfreithiol

Hugh James
2 Sgwâr Canolog
Caerdydd CF10 1FS

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Yr Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr o Gwmni Urdd Gobaith Cymru at ddiben cyfraith cwmnïau) sydd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r cyfrifon ariannol yn unol â deddfwriaeth cymwys a Safonau Cyfrifyddol y Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddol Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig)

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol ac o'r adnoddau derbynir a'u defnyddiwyd, gan gynnwys incwm a gwariant, gan y cwmni elusennol ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr

- dewis polisiau cyfrifo addas ac yna eu cymhwyso'n gyson,
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn yr adroddiad 'Datganiadau o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau' (SORP),
- llunio barnau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus,
- datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys wedi eu dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac eglurir yn y datganiadau ariannol,
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol ('going concern') oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes


Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol addas sy'n datgelu sefyllfa ariannol y Cwmni'n gymharol gywir ar unrhyw adeg a hefyd yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau cyllidol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb i warchod asedion y Cwmni ac yna i gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll neu afreoleidd-dra arall.

Cyn belled a bo'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohoni, ac
- mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi'u cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal a sicrhau cywirdeb y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a gynhwysir ar wefan y Cwmni Elusennol

Cymeradwywyd adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn ogystal â'r adroddiad strategaeth gan yr Ymddiriedolwyr, fel cyfarwyddwyr y cwmni, ar 18 Rhagfyr 2025 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan



Nia Bennett – Cadeirydd, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

**Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau
Cwmni Urdd Gobaith Cymru**

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cwmni Urdd Gobaith Cymru (y 'cwmni elusennol') am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025, sy'n cynnwys Datganiad o Weithgareddau Ariannol, Mantolen, Datganiad Llif Arian yn ogystal â nodiadau priodol, a chrynodeb o'r polisiâu cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â fframwaith cyfraith berthnasol ynghyd a Safonau Cyfrifyddol y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol

- yn rhoi darlun cywir a theg o faterion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2025 ac o'r adnoddau a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw,
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, ac
- wedi eu paratoi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006

Sail ar gyfer barn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (SRA (DU)) a chyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau ni yn unol â'r safonau hynny wedi eu disgrifio ymhellach yn ein hadroddiad ni, yn adran cyfrifoldebau'r Archwilwyr ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol i'r cwmni elusennol yn unol â gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rydym o'r farn bod y dystiolaeth archwilio rydym wedi ei chasglu yn ddigonol ac yn briodol i roi sail ar gyfer ein barn.

Casgliadau ynghylch busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi ynghylch y materion isod y mae'r SRA (DU) yn mynnu ein bod yn adrodd arnynt

- pan nad yw defnydd yr Ymddiriedolwyr o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol, neu
- pan nad yw'r Ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd sylweddol a allai fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r cwmni elusennol i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifo busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf, ar ôl y dyddiad y cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo i'w cyhoeddi

Gwybodaeth bellach

Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ar wahân i'r datganiadau ariannol ac Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol ar y datganiadau hynny.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno.

Yng nghyswllt ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall a, thrwy hynny, ystyried a oes anghysondeb sylweddol rhwng y wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth rydym ni wedi ei chasglu yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos bod y wybodaeth wedi ei chamddatgan yn sylweddol. Os ydym ni, ar sail y gwaith rydym wedi ei wneud, yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth bellach hon wedi ei chamddatgan yn sylweddol, mae'n rhaid i ni adrodd am hynny. Does gennym ni ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion arall a bennir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad

- mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr, ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac
- mae Adroddiad yr Ymddiriedolwyr gan gynnwys yr Adroddiad Strategol wedi ei baratoi yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol

Materion yr ydym yn adrodd arnynt fel eithriad

Yn sgîl y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r cwmni elusennol a'i sefyllfa a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi dod ar draws unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ynghylch y materion isod, y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn mynnu ein bod ni'n adrodd arnynt i chi os byddwn ni o'r farn

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu na chafwyd ffurflenni priodol ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau na ymwelwyd â hwy, neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r ffurflenni na'r cofnodion cyfrifyddu, neu
- nad yw rhai o daliadau cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr, a nodir gan y gyfraith, wedi cael eu datgan, neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth neu esboniadau angenrheidiol ar gyfer ein harchwiliad

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr

Fel yr esbonwyd yn fanylach yn Natgarniad Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, yr Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau) sy'n gyfrifol am baratoir'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon bod y datganiadau yn rhoi darlun cywir a theg Yr Ymddiriedolwyr sydd hefyd yn gyfrifol am reolaeth fewnol o'r fath y mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried sydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi heb unrhyw gamddatganiadau sylweddol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad

Wrth baratoir'r datganiadau ariannol, yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol a datgelu, lle bo'n briodol, faterion ynghylch y busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifo busnes cyfredol oni bod yr Ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu ddirwyn y gweithrediadau i ben, neu pan mai dyna yw'r unig opsiwn realistig

Ein cyfrifoldebau ar gyfer archwiliad y datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiadau materol a peidio, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac i gyflwyno Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad wedi ei gynnal yn unol â SRA (DU) yn darganfod camddatganiadau materol bob tro lle bo camddatganiadau materol yn bodoli Gall gamddatganiadau godi drwy dwyll neu wall, ac fe'u hystyrir yn faterol os, yn unigol neu fel cyfanswm, y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol yma

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra Amcanion ein harchwiliad yw cael digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfyniadau a symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol, cyflawni gweithdrefnau archwilio er mwyn helpu nodi achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau eraill a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol, ac i ymateb yn briodol i ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad

O ran twyll, amcanion ein harchwiliad yw nodi ac asesu'r risg o gamddatganiad sylweddol o'r datganiadau ariannol oherwydd twyll, casglu digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch y risgiau aseswyd o gamddatganiad sylweddol trwy dwyll gan ddylunio a gweithredu ymatebion priodol ac ymateb yn briodol i dwyll neu dwyll tybiedig a nodwyd yn ystod yr archwiliad

Fodd bynnag, prif gyfrifoldeb y rheolwyr, gyda goruchwyliaeth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yw sicrhau bod gweithrediadau'i endid yn cael eu cynnal yn unol â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau ac ar gyfer atal a chanfod twyll

Wrthi asesu a nodi'r risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, fe wnaethi y llinn archwilio

- 1 gael dealltwriaeth o natur y diwydiant a'i sector, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'i elusen yn gweithredu ynddo a sut mae'n cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol,
- 2 holi'r rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, am eu hasesiad a chydabyddiaeth eu hunain o beryglon afreoleidd-dra, gan gynnwys unrhyw achosion gwirioneddol, tybiedig neu honedig o dwyll,
- 3 drafod materion ynghylch peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a sut y gallai twyll ddigwydd gan gynnwys asesu sut a ble y gallai'r datganiadau ariannol fod yn agored i dwyll

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, rydym yn ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw SoRP Elusennau, FRS 102, Deddf Cwmnïau 2006 a Deddf Elusennau 2011 Gwnaethom gynnal gweithdrefnau archwilio i ganfod diffyg cydymffurfio a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol a oedd yn cynnwys adolygu'r datgeliadau yn y cyfrifon


Nododd y tim archwilio mai'r risg mwyaf i gamddatganiad sylweddol trwy dwyll fyddai o ganlyniad i'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau mewnol Roedd y gweithdrefnau archwilio a berfformwyd yn cynnwys ond nid oeddent wedi'u cyfyngu i brofi cyfnodolion ac addasiadau eraill a gwerthuso'r rhesymeg fusnes mewn perthynas ag unrhyw drafodion sylweddol, anarferol a wnaed y tu allan i gwrs busnes arferol

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwiliad y datganiadau ariannol i'w gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol sef, www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities Mae'r disgrifiad yn ffurfio rhan o'n Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol

**Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau
Cwmni Urdd Gobaith Cymru**

Defnydd o'n hadroddiad

Gwnaed yr adroddiad yma i aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Ran 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Gwneir ein gwaith archwilio er mwyn i ni adrodd i aelodau'r cwmni elusennol ar y materion hynny mae'n ofynnol i ni yn adrodd arnynt yn adroddiad yr archwilwyr ac nid at bwrpas arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn neu yn cymryd cyfrifoldeb am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad yma, nac am ein barn a ffurfiwyd, i unrhyw un heblaw'r Cwmni Elusennol ac aelodau'r Cwmni Elusennol fel corff.



C H Llwyd FCA FCCA (Senior Statutory Auditor)
Dros ac ar ran Ashmole & Co
Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig
3 Stryd Y Farchnad
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6AH

Dyddiad 19 Rhagfyr 2025

Nodir

Cyfrifoldeb yr Ymddiriedolwyr yw cywirdeb a chynnal a chadw gwefan Cwmni Urdd Gobaith Cymru, nid yw'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau anannol fel y'u cyflwynwyd ar y wefan.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Datganiad o Weithgareddau Ariannol
(Gan gynnwys Cyfrif Incwm a Gwariant)
am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Gwaddol £	2025 Cyfanswm Cronfeydd £	2024 Cyfanswm Cronfeydd £
INCWM AC GWADDOLION DRWY						
Rhoddion a chymynroddion	2	144,148	-	-	144,148	943,718
Gweithgareddau elusennol	3	12,063,791	5,751,116	-	17,814,907	16,938,853
Incwm amrywiol	4	175,185	-	-	175,185	120,621
Incwm drwy fuddsoddiadau	5	<u>180,736</u>	<u>-</u>	<u>10,470</u>	<u>191,206</u>	<u>136,099</u>
CYFANSWM INCWM A GWADDOLION		<u>12,563,860</u>	<u>5,751,116</u>	<u>10,470</u>	<u>18,325,446</u>	<u>18,139,291</u>
GWARIANT AR						
Godi cyllid	6	(57,802)	-	(736)	(58,538)	(55,630)
Gweithgareddau elusennol	7	<u>(13,216,000)</u>	<u>(5,046,038)</u>	<u>-</u>	<u>(18,262,038)</u>	<u>(17,886,707)</u>
CYFANSWM GWARIANT		<u>(13,273,802)</u>	<u>(5,046,038)</u>	<u>(736)</u>	<u>(18,320,576)</u>	<u>(17,942,337)</u>
Enillion						
Enillion ar fuddsoddiadau		<u>53,446</u>	<u>-</u>	<u>3,096</u>	<u>56,542</u>	<u>174,833</u>
INCWM / (GWARIANT) NET		<u>(656,496)</u>	<u>705,078</u>	<u>12,830</u>	<u>61,412</u>	<u>371,787</u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Datganiad o Incwm Cynhwysfawr
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Gwaddol £	2025 Cyfanswm £	2024 Cyfanswm £
Incwm / (Gwariant) Net	(656,496)	705,078	12,830	61,412	371,787
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd 21	631,172	(621,492)	(9,680)	-	-
Symudiadau net mewn cronfeydd	(25,324)	83,586	3,150	61,412	371,787

CYSONI CRONFEYDD

Cronfeydd agoriadol	31,502,392	537,454	275,813	32,315,659	31,943,872
Symudiadau net mewn cronfeydd	(25,324)	83,586	3,150	61,412	371,787
CRONFEYDD AR 31 MAWRTH 2025	31,477,068	621,040	278,963	32,377,071	32,315,659


GWEITHGAREDDAU PARHAOL

Deilliai'r holl adnoddau a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd o weithgareddau parhaol

Mantol
ar 31 Mawrth 2025

	Nodyn	2025 £	2024 £
ASEDAU SEFYDLOG			
Asedau anniriaethol	13	148,724	212,245
Asedau diriaethol	14	26,308,029	25,469,087
Buddsoddiadau	15	<u>4,306,112</u>	<u>4,233,055</u>
		30,762,865	29,914,387
ASEDAU CYFREDOL			
Stoc	16	100,386	114,112
Dyledwyr	17	2,813,229	2,581,172
Arian mewn llaw ac yn banc		<u>1,935,055</u>	<u>2,492,083</u>
		4,848,670	5,187,367
CREDYDWYR			
Symiau i'w talu o fewn blwyddyn	18	(3,234,464)	(2,786,095)
ASEDAU CYFREDOL NET		<u>1,614,206</u>	<u>2,401,272</u>
ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL		<u>32,377,071</u>	<u>32,315,659</u>
ASEDAU NET		<u>32,377,071</u>	<u>32,315,659</u>
CRONFEYDD	21		
Cronfeydd anghyfyngedig		31,477,068	31,502,392
Cronfeydd cyfyngedig		621,040	537,454
Cronfeydd gwaddol		<u>278,963</u>	<u>275,813</u>
CRONFEYDD		<u>32,377,071</u>	<u>32,315,659</u>

Cymeradwywyd gan fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 18 Rhagfyr 2025 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan



Nia Bennett - Cadeirydd

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Datganiad Llif Arian
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

	Nodyn	2025 £	2024 £
Llif arian o weithgareddau gweithredu			
Arian gynhyrchwyd drwy weithrediadau	1	740,676	(18,342)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Pryniant asedau anniriaethol		(21,480)	(145,156)
Pryniant asedau sefydlog		(1,318,879)	(2,298,762)
Pryniant o fuddsoddiadau sy'n ased sefydlog		(2,448,203)	(1,842,640)
Gwerthiant asedau sefydlog		-	52,500
Gwerthiant fuddsoddiadau sy'n ased sefydlog		2,431,688	1,819,229
Symudiad net arian parod o fewn buddsoddiad		-	45,389
Llog dderbyniwyd		49,436	83,299
Enillion ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi		(1,307,438)	(2,286,141)
Llif arian o weithgareddau cyllido			
Incwm cysylltiedig â gwaddolion		10,470	10,995
Gwariant cysylltiedig â gwaddolion		(736)	-
Enillion ddarparwyd mewn gweithgareddau cyllido		9,734	10,995
Lleihad mewn arian yn y flwyddyn		(557,028)	(2,293,488)
Cronfeydd ariannol net ar 1 Ebrill 2024	2	2,492,083	4,785,571
Cronfeydd ariannol net ar 31 Mawrth 2025	2	1,935,055	2,492,083

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r datganiad Llif Arian
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

1 CYMHWYSIAD O'R INCWM NET I'R LLIF ARIAN NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU

	2025	2024
	£	£
Incwm net am y cyfnod adrodd (o'r datganiad o weithgareddau gweithredu)	61,412	371,787
Addasiadau		
Amorteiddiad	85,001	62,752
Dibrisiant	479,681	389,110
Cynnydd mewn buddsoddiadau hir dymor	(56,542)	(201,923)
Colled ar werthiant asedau sefydlog	256	488
Llog dderbyniwyd	(49,436)	(83,299)
Incwm cysylltiedig â gwaddolion	(10,470)	(10,995)
Gwariant cysylltiedig â gwaddolion	736	-
Lleihad /(cynnydd) mewn stoc	13,726	(51,182)
Cynnydd mewn dyledwyr	(232,057)	(524,047)
Cynnydd mewn credydwyr	<u>448,369</u>	<u>28,967</u>
Mewnlif o arian net o weithgareddau gweithredu	<u>740,676</u>	<u>(18,342)</u>

2 DADANSODDIAD O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD ARIANNOL

	2025	2024
	£	£
Arian mewn llaw ac yn y banc	<u>1,935,055</u>	<u>2,492,083</u>
Cyfanswm arian	<u>1,935,055</u>	<u>2,492,083</u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

1. POLISIÂU CYFRIFO

Sail gyfrifo

Mae'r adroddiadau ariannol y cwmni elusenol, wedi cael eu paratoi yn dilyn canllawiau Charities SORP (FRS 102) 'Accounting and Reporting by Charities Statement of Recommended Practice applicable to charities preparing their accounts in accordance with the Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland (FRS 102) (effective 1 January 2015)', 'Financial Reporting Standard 102' y Deyrnas Unedig ac Iwerddon a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r adroddiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar sail y confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio buddsoddiadau sydd wedi'u cynnwys ar werth y farchnad, fel y'u haddaswyd drwy ailbriso asedau penodol.

Busnes Gweithredol

Nodir gweithgareddau a chynlluniau'r Urdd ar gyfer y dyfodol yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol gan ystyried effeithiau ariannol Covid-19. Yn eu hasesiad o briodoldeb y sail busnes gweithredol, mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys cronfeydd arian parod wrth gefn, hylifedd a'r galw a ragwelir.

Mae gan y sefydliad adnoddau ariannol sylweddol ynghyd â rhywfaint o gyllid grant y cytunwyd arno. O ganlyniad, mae'r Ymddiriedolwyr yn credu bod y sefydliad mewn sefyllfa dda i reoli ei risgiau busnes yn llwyddiannus.

Mae gan yr Ymddiriedolwyr ddisgwyliad rhesymol bod gan yr Urdd adnoddau digonol i barhau i weithredu'n llwyddiannus hyd y gellir rhagweld. Am y rhesymau hyn maent yn parhau i fabwysiadu sail barhaus paratoi cyfrifon.

Incwm

Derbyniwyd incwm gwirfoddol mewn ffurf rhoddion, cymynroddion ac anrhegion, fe'u cynhwysir yn llawn yn y datganiadau ariannol pan dderbyniwyd. Cydnabuwyd incwm o fuddsoddiadau pan yn ddyledus. Mae incwm gohiriedig yn cynrychioli incwm a dderbynnir sy'n berthnasol i gyfnodau yn y dyfodol ac felly yn cael ei ryddhau i incwm yn y cyfnod perthnasol.

Ar gyfer cymynroddion, cymerir yr hawl derbyn ar y cynharaf o'r dyddiad y mae'r elusen naill ai yn ymwybodol bod profiant wedi'i roi, bod yr ystâd wedi'i chwblhau a bod yr ysgutor wedi hysbysu y bydd dosbarthiad yn cael ei wneud, neu pan dderbynnir dosbarthiad o'r ystâd. Ystyrir bod derbyn cymynrodd, yn gyfan neu'n rhannol, yn debygol dim ond pan bod modd mesur y swm yn ddibynadwy a bod yr elusen wedi'i hysbysu o fwriad yr ysgutor i wneud dosbarthiad. Lle mae cymynroddion wedi'u hysbysu i'r elusen, neu os yw'r elusen yn ymwybodol bod profiant wedi ei roi, ac nad yw'r meinï prawf ar gyfer cydnabod incwm wedi'u bodloni, yna caiff y gymynrodd ei thrin fel ased amodol a'i datgelu os yw'n berthnasol.

Cyfrifir am roddion pan gânt eu derbyn gan yr elusen. Cyfrifir am dreth i'w adennill drwy Rodd Cymorth ar sail gronol. Cynhwysir rhoddion asedau diriaethol yn y cyfrifon ar eu gwerth ar y farchnad. Mae'r elusen hefyd yn derbyn budd gwaith gwirfoddolwyr, na ellir meintoli ei werth ac felly ni ellir ei gydnabod yn ariannol yn y cyfrifon.

Cydnabyddir incwm grantiau a chytundebau lefel gwasanaeth yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol dim ond pan fydd y meinï prawf cydnabod incwm cyffredinol wedi eu cyflawni. Yn achos grantiau sy'n gysylltiedig â pherfformiad, cydnabyddir yr incwm i'r graddau y bydd yr elusen wedi darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau penodedig. Cofnodir grantiau cyfalaf yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y flwyddyn y'u derbynnir.

Mae tanysgrifiadau aelodaeth yn cael eu trin fel incwm ar gyfer darparu gweithgareddau Elusenol.

Cydnabyddir incwm o fuddsoddiadau ar yr adeg y mae'r incwm buddsoddi yn dderbyniadwy. Ni ddangosir adenillon buddsoddi o Gronfeydd Croniadau Bondiau Buddsoddi Asedau Sefydlog fel incwm buddsoddi ond fe'i hadlewyrchir ym mhreis pob uned, ac felly fe'i hadlewyrchir yng ngwerth marchnad yr unedau ar ddiwedd y flwyddyn.

Cofnodir trosiant yn net o unrhyw TAW berthnasol.

Costau

Cydnabuwyd rhwymedigaethau pan fydd dyletswydd gyfreithiol neu adeiladol i'r elusen, yn ogystal â throsglwyddiad economaidd. Cydnabuwyd costau a threuliau yn y cyfnod pan yn ddyledus. Mae costau yn cynnwys TAW lle nad yw'n bosib i'w hawlio yn ôl.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

1 POLISIAU CYFRIFO – parhad

Dyranriad a dosbarthu costau

Dosbarthwyd costau i gronfeydd ar sail costau uniongyrchol. Lle nad yw'n bosib i'w dosbarthu ar y sail yma, sef costau canolog y mudiad, dosrannwyd y costau ar draws gweithgareddau elusennol *pro-rata* ar sail yr incwm a dderbyniwyd gan bob canolfan gost. Teimlir bod y polisi yma yn rhoi adlewyrchiad teg o'r amser a dreuliodd yn ganolog. Mae costau trefn llywodraethu yn cynrychioli'r gost o weinyddu'r elusen a chwedd â gofynion cyfansoddiadol a statudol. Mae'r gost o godi arian yn cynrychioli'r gost o redeg yr adran nawdd a chostau nwyddau penodol sydd wedi eu prynu er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen. Cydnabuwyd costau pryddlesau gweithredol yn flynyddol mewn rhandaliadau cyfartal blynyddol dros oes y les.

Asedau anniriaethol

Cynhwysir asedau anniriaethol ar eu cost, net o amorteiddiad ag unrhyw darpariaeth ar gyfer amhariadau.

Amorteiddir yr asedau yma er mwyn lleihau cost yr ased, llai gwerth gweddilliol, drwy rhandaliadau cyfartal blynyddol dros oes economaidd defnyddiol disgwylidig yr ased fel a ganlyn:

Meddalwedd	4 mlynedd
------------	-----------

Asedau sefydlog diriaethol

Mae asedau sefydlog diriaethol yn cael eu nodi ar gost neu werth, wedi tynnu dibrisiant a phob darpariaeth ar gyfer diraddiad. Mae cost yn cynnwys holl wariant sy'n uniongyrchol briodol i ddod a'r ased mewn i gyflwr gweithio ar gyfer ei ddefnydd arfaethedig.

Mae eiddo rhydd-ddaliad yn cael eu mesur ar werth wedi'u hailbriso yn seiliedig ar brisiadau proffesiynol, yn unol â SORP Elusennau (FRS 102). Mae gwersylloedd yn cael eu mesur ar sail gwerth mewn defnydd, gan adlewyrchu eu potensial gwasanaeth parhaus, tra bod eiddo eraill yn cael eu mesur ar werth teg. Mae ailbriso yn cael ei wneud o leiaf bob pum mlynedd er mwyn sicrhau nad yw'r gwerth yn wahanol yn sylweddol i'r gwerth teg ar y dyddiad adrodd.

Ar bob dyddiad adrodd, mae'r Ymddiriedolwyr yn asesu a oes unrhyw arwydd bod eiddo wedi diraddio. Mae dangosyddion yn cynnwys gostyngiad sylweddol yn y gwerth marchnadol, difrod corfforol, darfodedigaeth, neu newidiadau andwyol yn y defnydd. Os oes arwyddion o'r fath, amcangyfrifir y swm adferadwy fel yr uchaf rhwng gwerth teg llai costau i'w werthu a gwerth mewn defnydd. Os yw'r swm adferadwy yn is, cydnabyddir colled diraddiad yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Dim ond os bydd newid yn yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i bennu'r swm adferadwy y caiff colledion diraddiad eu gwrthdroi.

Dibrisir yr asedau yma ar raddfeydd er mwyn lleihau cost yr ased, llai gwerth gweddilliol, dros oes defnyddiol ddisgwylidig yr ased fel a ganlyn:

Adeiladau hir-les	Llinell syth dros dymor y les
Offer a chyfarpar	4% - 25% ar gost ac 5% ar falans gostyngol
Moduron/Cerbydau	25% ar falans gostyngol
Adeiladau	Llinell syth dros 50 mlynedd ar y gwahaniaeth rhwng cost / prisiad a'r gwerth gwireddadwy disgwylidig ar ôl 50 mlynedd

Mae mwy o fanylion am y polisi o beidio â dibrisio adeiladau rhydd-ddaliadol yn nodyn 14. Nid yw tir yn destun dibrisiant.

Buddsoddiadau

Caiff buddsoddiadau eu mesur yn wreiddiol ar gost ac yn ddiweddarach ar werth teg ar bob dyddiad adrodd. Cydnabyddir newidiadau yn y gwerth teg yn yr incwm/(gwariant) net ar gyfer y flwyddyn.

Mae eiddo buddsoddi yn cael eu mesur yn wreiddiol ar gost ac yn ddiweddarach yn cael eu hailbriso ar werth teg ar bob dyddiad adrodd, gyda phob newid yn y gwerth teg yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

Arian yn y banc ac mewn llaw

Mae arian yn y banc ac arian mewn llaw yn cynnwys arian parod a buddsoddiadau byr rhybudd hylifol iawn gydag aeddfedrwydd byr o dri mis neu lai o'r dyddiad caffael neu agor y cyfrif cadw neu debyg.

Buddsoddiadau asedau cyfredol

Buddsoddiadau asedau cyfredol yw arian a fuddsoddir mewn buddsoddiad am gyfnod o lai na 12 mis tan aeddfedrwydd.

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025**

1 POLISIAU CYFRIFO – parhad

Stoc

Prisir stoc ar yr isafswm o gost neu'r hyn a geir o'u hailwerthu Cyfrifir cost ar sail gwerth pryniant Seilir gwerth masnachol ar amcan o bris gwerthu llai'r amcan o gost o'r gwaredu

Offerynnau Ariannol ('Financial Instruments')

Mae'r elusen wedi dewis gweithredu darpariaethau Adran 11 'Offer Ariannol Sylfaenol' ac Adran 12 'Materion Offer Ariannol Eraill' o FRS 102 i'w holl offer ariannol Cydnabyddir offer ariannol yn mantolen yr elusen pan fydd yr elusen yn dod yn barti i ddarpariaethau cytundebol yr offeryn Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol eu cydnabod, gyda'r symiau net yn cael eu cyflwyno yn y datganiadau ariannol, pan fo hawl orfodol yn gyfreithiol i wrthbwysu'r symiau a gydnabyddir ac y bwriedir setlo ar sail net neu wireddu'r ased a setlo'r rhwymedigaeth ar yr un pryd

Asedau ariannol sylfaenol

Mae asedau ariannol sylfaenol, sy'n cynnwys dyledwyr ag arian mewn llaw ac yn y banc, yn cael eu mesur yn wreiddiol ar bris y trafodyn gan gynnwys costau trafodyn ac yn cael eu cario wedyn ar gost wedi amorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, oni bai bod y trefniant yn cyfateb i drafodyn ariannu, lle caiff y trafodyn ei fesur ar werth presennol y derbyniadau yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog y farchnad Nid yw asedau ariannol a gydnabyddir fel derbyniad o fewn blwyddyn yn cael eu hamorteiddio

Diddymu Asedau Ariannol

Dim ond pan fydd hawliau cytundebol i lif arian parod o'r ased yn dod i ben neu'n cael eu setlo, neu pan fydd yr elusen yn trosglwyddo'r ased ariannol a bron pob risg a buddion perchnogaeth i sefydliad arall, neu os cedwir rhai risgiau a buddion perchnogaeth arwyddocaol ond bod rheolaeth dros yr ased wedi'i throsglwyddo i barti arall sydd â'r gallu i werthu'r ased yn ei gyfanrwydd i drydydd parti annibynnol, y caiff asedau ariannol eu diddymu

Rhwymedigaethau ariannol sylfaenol

Mae rhwymedigaethau ariannol sylfaenol, gan gynnwys credydwyr a benthyciadau banc, yn cael eu cydnabod yn wreiddiol ar bris y trafodyn oni bai bod y trefniant yn cyfateb i drafodyn ariannu, lle caiff yr offeryn dyled ei fesur ar werth presennol y taliadau yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog y farchnad Nid yw rhwymedigaethau ariannol a ddsberthir fel taliad o fewn blwyddyn yn cael eu hamorteiddio Mae credydwyr masnach yn rhwymedigaethau i dalu am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd yn ystod cwrs arferol gweithrediadau gan gyflenwyr Caiff symiau sy'n daladwy eu dosbarthu fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai Os nad felly, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol Caiff credydwyr masnach eu cydnabod yn wreiddiol ar bris y trafodyn ac yn cael eu mesur wedyn ar gost wedi amorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol

Diddymu rhwymedigaethau ariannol sylfaenol

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu diddymu pan ddaw rhwymedigaethau cytundebol yr elusen i ben neu pan gânt eu setlo neu eu dileu

Treth

Mae'r elusen yn rhydd o dalu treth gorfforaeth ar ei weithgareddau elusennol

Cyfrifo cronfeydd

Gall gronfeydd anghyfyngedig cael eu defnyddio yn ôl amcanion y corff elusennol a dymuniad yr Ymddiriedolwyr

Cronfeydd Cyffredinol

Mae cronfeydd cyffredinol yn cynnwys rhoddion ac incwm a dderbynnir neu a gynhyrchwyd am amcanion yr elusen heb bwrpas arbennig arall ac felly ar gael fel cronfa gyffredinol Ni osodir amodau allanol ar gronfeydd cyffredinol ac maent ar gael i'w gwario gan yr elusen yn ôl eu hamcanion/bwriadau neu i'w neilltuo tuag at bwrpasau priodol mewnol

Cronfeydd Dynodedig

Mae cronfeydd dynodedig yn gronfeydd cyffredinol a glustnodwyd gan yr Ymddiriedolwyr at bwrpasau arbennig

Cronfeydd Cyfyngedig

Mae cronfeydd cyfyngedig yn cynrychioli arian a dderbyniwyd tuag at bwrpasau arbennig lle ceir amodau ar eu gwario Mae cyfyngiadau yn digwydd ble mae'r rhoddwyr yn rhoi cyfyngiad neu ble codir at bwrpas penodol cyfyng Codwyd gwariant sy'n ymwneud â'r nod yma i'r gronfa, ynghyd a dyraniad teg o gostau gweinyddu a rheoli

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025**

1 POLISIAU CYFRIFO – parhad

Cronfeydd Gwaddol

Mae cronfeydd gwaddol yn cynrychioli cyfraniadau a chymynroddion lle mae'r cyfrannydd wedi nodi y dylid cadw'r arian fel cyfalaf Defnyddir yr incwm yn unol â thelerau'r gwaddolion a'u cynhwysir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol

Ymrwymadau prydlles

Mae taliadau prydlles weithredol yn cael eu cynnwys yn Natganiad Gweithgareddau Ariannol ar sail linol dros gyfnod y brydlles

Costau Pensiwn a Buddion arall ar ôl ymddeol

Mae'r Cwmni yn gweithredu tri chynllun pensiwn ar ran staff cymwys

1 Mae rhai o staff y mudiad yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n gynllun cenedlaethol, statudol cyfrannol, cynllun pensiwn lle mae'r budd wedi'i ddiffinio a heb ei gyllido Gweinyddwyd gan yr Asiantaeth Pensiwn Athrawon, asiantaeth weithredol Adran Addysg a Chyflogi Aseswyd costau pensiwn gan Actwari'r Llywodraeth Cyfrannodd yr Elusen 23.68% (2024 23.68%) o gyflogau pensynadwy i'r cynllun am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025, sef £15,920 (2024 £12,561) Cydnabuwyd y gost yn y datganiadau ariannol pan yn ddyledus Mae'r cynllun yma ar gau i aelodau newydd o staff ers 2000

2 I'r aelodau nad ydynt yn gymwys i ymuno'r a'r Cynllun Athrawon, mae'r Elusen wedi trefnu cynllun pensiwn gyda chyfraniadau wedi'u diffinio. Rheolwyd y cynllun yn annibynnol ac mae'r elusen yn cyfrannu 6% o gyflog pensynadwy

3 Mae cynllun ychwanegol sydd yn cydymffurfio â 'chofrestriad awtomatig' i aelodau sydd ddim yn cyfrannu i'r uchod

Delir asedau bob cynllun ar wahân i asedau'r elusen, ac fe gydnabuwyd y costau yn Natganiad Gweithgareddau Ariannol yn ystod y cyfnod pan maent yn ddyledus Y gost am y flwyddyn ar gyfer cynlluniau 2 a 3 oedd £381,942 (2024 £358,885)

2 CYFRANIADAU A CHYMYNRODDION

	2025	2024
	£	£
Cyfraniadau	92,177	97,241
Cymynroddion	<u>51,971</u>	<u>846,477</u>
	<u>144,148</u>	<u>943,718</u>

Cydnabyddir incwm gwirfoddol dderbyniwyd trwy gyfraniadau, cymynroddion a rhoddion yn gyflawn yn yr adroddiadau ariannol pan maent yn cael eu derbyn Ni chynhwysir gwerth y gwasanaeth a roddir gan wirfoddolwyr yn y cyfrifon Mae incwm cymynroddion yn ystod y cyfnod adrodd yn cynnwys £18,691 (2024 154,717), na dderbyniwyd cadarnhad o'r cyfanswm tan ar ôl 31 Mawrth 2025

3 INCWM O WEITHGAREDDAU ELUSENNOL

		2025	2024
	Gwerthgaredd	£	£
Grantiau	Grantiau – cefnogi gweithgareddau elusennol	5,751,116	6,085,206
Gweithgareddau elusennol	Gwersylloedd	7,808,165	6,633,144
Gweithgareddau elusennol	Adran Chwaraeon	766,244	702,075
Gweithgareddau elusennol	Adran Prentisiaethau	733,413	565,113
Gweithgareddau elusennol	Adran Eisteddfod a Chelfyddydau	1,662,636	1,865,868
Gweithgareddau elusennol	Cylchgronau	125	125
Gweithgareddau elusennol	Adran Ieuenctid a Chymuned	714,324	675,733
Gweithgareddau elusennol	Adran Rhyngwladol	520	23,500
Gweithgareddau elusennol	Aelodaeth a tanysgriafiadau	<u>378,364</u>	<u>388,089</u>
		<u>17,814,907</u>	<u>16,938,853</u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

3. **INCWM O WEITHGAREDDAU ELUSENNOL – parhad**

Mae'r uchod yn cynnwys grantiau dderbyniwyd, fel â ganlyn

	2025	2024
	£	£
Llywodraeth Cymru – Grantiau Eisteddfod	157,600	166,000
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Grantiau Eisteddfod	160,264	160,264
Llywodraeth Cymru – Grant Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg	2,200,382	2,375,884
Llywodraeth Cymru – Cynllun Grantiau Mudiadau Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol	136,694	133,602
Llywodraeth Cymru – Theatr Ieuenctid	200,000	200,000
Llywodraeth Cymru – Prosiectau Rhyngwladol	187,000	-
Llywodraeth Cymru – TAITH	96,439	108,895
WCVA – Grant Gwirfoddolwyr Cymru	10,997	-
Cyngor Llyfrau Cymru	30,000	31,190
Cyngorau lleol a chymunedau	528,065	594,477
Chwaraeon Cymru	390,085	650,000
Llywodraeth y DU – Cronfa Ffyniant	227,778	-
Hybu Cynllun Prentisiaeth	100,000	100,000
Cyngor Sir Gaerfyrddin – Grant Eisteddfod	-	80,000
Cyngor Powys – Grant Eisteddfod	185,750	-
Cyngor Celfyddydau – Grant Eisteddfod	158,719	47,250
Llywodraeth Cymru – Grantiau Cyfalaf	595,632	1,019,332
Loteri Genedlaethol – Grantiau Cyfalaf	-	300,000
Chwaraeon Cymru – Grant Cyfalaf	324,860	12,600
Grantiau eraill	60,851	105,712
	<u>5,751,116</u>	<u>6,085,206</u>

Cydnabuwyd grantiau, gan gynnwys grantiau i brynu asedau sefydlog, yn llawn yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan yn ddyledus

4. **GWEITHGAREDDAU MASNACHOL ARALL**

	2025	2024
	£	£
Incwm amrywiol	<u>175,185</u>	<u>120,621</u>

Mae'r incwm amrywiol yn cynnwys incwm amrywiol dderbyniwyd o weithgareddau'r elusen sydd ddim yn deillio yn uniongyrchol o brif benawdau gweithgareddau e e rhent, nawdd a gwerthiant stoc hyrwyddo

5. **INCWM O FUDDSODDIADAU**

	2025	2024
	£	£
Incwm portffolio buddsoddiadau	141,770	52,800
Llog i'w dderbyn	<u>49,436</u>	<u>83,299</u>
	<u>191,206</u>	<u>136,099</u>

Cydnabyddir incwm o fuddsoddiadau pan y dderbynnir

6. **CODI ARIAN**

Casglu cyfraniadau a chymynroddion

	2025	2024
	£	£
Costau staff	50,924	49,840
Costau eraill	<u>7,614</u>	<u>5,790</u>
	<u>58,538</u>	<u>55,630</u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

7. GWARIANT AR WEITHGAREDDAU ELUSENNOL

	Costau uniongyrchol	Costau cefnogi (Gweler nodyn 8)	Cyfanswm
	£	£	£
Y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2025			
Gwersylloedd	8,751,625	667,614	9,419,239
Gweithgareddau Adran Chwaraeon	2,033,054	134,445	2,167,499
Adran Prentisiaethau	986,589	92,563	1,079,152
Adran yr Eisteddfod a Chelfyddydau	2,946,887	195,470	3,142,357
Cylchgronau	59,795	4,071	63,866
Costau reuencid a chymuned	2,043,770	157,264	2,201,034
Adran Rhyngwladol	157,309	31,582	188,891
	<u>16,979,029</u>	<u>1,283,009</u>	<u>18,262,038</u>

Rhennir costau cefnogi canolog yr Urdd dros y gweithgareddau elusennol *pro rata* ar sail canran yr incwm a dderbyniwyd

	Costau uniongyrchol	Costau cefnogi	Cyfanswm
	£	£	£
Y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2024			
Gwersylloedd	8,122,573	642,403	8,764,976
Gweithgareddau Adran Chwaraeon	2,297,762	158,874	2,456,636
Adran Prentisiaethau	895,346	87,778	983,124
Adran yr Eisteddfod a Chelfyddydau	2,907,465	214,182	3,121,647
Cylchgronau	36,059	3,789	39,848
Costau reuencid a chymuned	2,050,559	176,150	2,226,709
Adran Rhyngwladol	269,244	24,523	293,767
	<u>16,579,008</u>	<u>1,307,699</u>	<u>17,886,707</u>

8. COSTAU CEFNOGI

	Rheolaeth	Cyllid	Trefn Llywodraethu	Cyfanswm
	£	£	£	£
Y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2025				
Cyflogau	819,487	-	84,925	904,412
Yswiriant gwladol cyflogwr	125,488	-	10,151	135,639
Pensiwn	49,549	-	5,089	54,638
Cynnal a chadw	7,444	-	-	7,444
Ffioedd proffesiynol	-	-	97,630	97,630
Ffi archwilwyr	-	-	12,000	12,000
Costau banc	-	71,246	-	71,246
	<u>1,001,968</u>	<u>71,246</u>	<u>209,795</u>	<u>1,283,009</u>

	Rheolaeth	Cyllid	Trefn Llywodraethu	Cyfanswm
	£	£	£	£
Y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2024				
Cyflogau	811,456	-	84,925	896,381
Yswiriant gwladol cyflogwr	119,718	-	10,151	129,869
Pensiwn	56,995	-	5,089	62,084
Cynnal a chadw	17,230	-	-	17,230
Ffioedd proffesiynol	-	-	124,443	124,443
Ffi archwilwyr	-	-	11,500	11,500
Costau banc	-	66,192	-	66,192
	<u>1,005,399</u>	<u>66,192</u>	<u>236,108</u>	<u>1,307,699</u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol – parhad
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

9 INCWM NET

Bydd incwm net yn cael ei ddatgan ar ôl y canlynol

	2025	2024
	£	£
Ffi archwilwyr	12,000	11,500
Ffi archwilwyr - gwasanaethau eraill	1,000	1,000
Amortyddiad	85,001	62,752
Dibrisiant	479,681	389,110
Rhent	144,239	99,657
Diffyg ar werthiant asedau sefydlog	<u>256</u>	<u>488</u>

10 TÂL A BUDDION YR YMDDIRIEDOLWYR

Ni dderbyniodd unrhyw Ymddiriedolwyr unrhyw gyflogau na budd-daliadau eraill yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025. Ni dderbyniodd unrhyw Ymddiriedolwyr unrhyw gyflogau na budd-daliadau eraill yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024.

Treuliau'r Ymddiriedolwyr

Digolledwyd amryw o Ymddiriedolwyr gan yr elusen am gostau cyffredinol (e.e. teithio i gyfarfodydd ayyb), cyfanswm o £100 (2024 - £dim)

11 COSTAU STAFF

	2025	2024
	£	£
Cyflog gros	8,146,699	7,907,140
Yswiriant gwladol cyflogwr	699,908	626,573
Cyfraniadau pensiwn cyflogwr	<u>397,862</u>	<u>371,446</u>
	<u>9,244,469</u>	<u>8,905,159</u>

Nifer y staff a gyflogwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn oedd

	2025	2024
Gweithgareddau elusennol	369	363
Cost o gynhyrchu cronfeydd ariannol	1	1
Gweinyddiaeth a rheoli	<u>8</u>	<u>8</u>
	<u>378</u>	<u>372</u>

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth tri aelod o staff ennill rhwng £60,000 a £70,000 (2024 - tri), dau aelod o staff ennill rhwng £70,000 and £80,000 (2024 - un), ag un aelod o staff ennill rhwng £110,000 and £120,000 (2024 - un). Mae'r ffigurau yma yn seiliedig ar gyflog gros.

Costau Staff Allweddol

Ynghyd a'r Prif Weithredwr mae gan Cwmni Urdd Gobaith Cymru a phenaethiaid adran sy'n ffurfio'r Uwch Dîm Rheoli sydd yn gyfrifol am reoli gweithgareddau'r Elusen o ddydd i ddydd. Isod mae cyfanswm y taliadau a wnaethpwyd i'r Uwch Dîm Rheoli.

	2025	2024
	£	£
Cyflog gros	566,387	558,519
Yswiriant gwladol cyflogwr	<u>67,871</u>	<u>66,785</u>
	<u>634,258</u>	<u>625,304</u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol – parhad
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

12 DATGANIADAU ARIANNOL Y FLWYDDYN FLAENOROL

		Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	Cyfanswm Cronfeydd
	Nodyn	£	£	£	£
INCWM AC GWADDOLION DRWY					
Rhoddion a chymynroddion	2	932,303	11,415	-	943,718
Gweithgareddau elusenol	3	10,853,647	6,085,206	-	16,938,853
Incwm amrywiol	4	120,621	-	-	120,621
Incwm drwy fuddsoddiadau	5	<u>125,104</u>	<u>-</u>	<u>10,995</u>	<u>136,099</u>
Cyfanswm		12,031,675	6,096,621	10,995	18,139,291
GWARIANT AR					
Godi cyllid	6	(55,630)	-	-	(55,630)
Gweithgareddau elusenol	7	<u>(13,031,923)</u>	<u>(4,854,784)</u>	<u>-</u>	<u>(17,886,707)</u>
Cyfanswm		(13,087,553)	(4,854,784)	-	(17,942,337)
Enillion / (colledion) ar fuddsoddiadau		<u>187,026</u>	<u>-</u>	<u>(12,193)</u>	<u>174,833</u>
INCWM NET		<u>(868,852)</u>	<u>1,241,837</u>	<u>(1,198)</u>	<u>371,787</u>

13 ASEDAU ANNIRIAETHOL

		Meddalwedd cyfrifiadurol £	Cyfanswm £
GWERTH			
Ar 1 Ebrill 2024		326,300	326,300
Ychwanegiadau		<u>21,480</u>	<u>21,480</u>
Ar 31 Mawrth 2025		<u>347,780</u>	<u>347,780</u>
AMORTEIDDIAD			
Ar 1 Ebrill 2024		114,055	114,055
Amorteiddiad am y flwyddyn		<u>85,001</u>	<u>85,001</u>
Ar 31 Mawrth 2025		<u>199,056</u>	<u>199,056</u>
GWERTH AR Y LLYFRAU			
Ar 31 Mawrth 2025		<u>148,724</u>	<u>148,724</u>
Ar 31 Mawrth 2024		<u>212,245</u>	<u>212,245</u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

14 **ASEDAU SEFYDLOG TIRIAETHOL**

	Tir ac adeiladau £	Adeiladau Hir- les £	Offer £	Cerbydau £	Cyfanswm £
GWERTH					
Ar 1 Ebrill 2024	23,281,998	300,000	3,133,745	185,802	26,901,545
Ychwanegiadau	428,297	-	851,632	38,950	1,318,879
Gwaredion	-	-	-	(11,700)	(11,700)
Ar 31 Mawrth 2025	<u>23,710,295</u>	<u>300,000</u>	<u>3,985,377</u>	<u>213,052</u>	<u>28,208,724</u>
DIBRSIANT					
Ar 1 Ebrill 2024	-	28,800	1,292,991	110,667	1,432,458
Dibrsiant am y flwyddyn	-	1,500	459,039	19,142	479,681
Dileu ar waredu	-	-	-	(11,444)	(11,444)
Ar 31 Mawrth 2025	-	<u>30,300</u>	<u>1,752,030</u>	<u>118,365</u>	<u>1,900,695</u>
GWERTH AR Y LLYFRAU					
Ar 31 Mawrth 2025	<u>23,710,295</u>	<u>269,700</u>	<u>2,233,347</u>	<u>94,687</u>	<u>26,308,029</u>
Ar 31 Mawrth 2024	<u>23,281,998</u>	<u>271,200</u>	<u>1,840,754</u>	<u>75,135</u>	<u>25,469,087</u>

Cost Tir ac Adeiladau

Cafwyd prisiad proffesiynol o eiddo rhydd-ddaliadol (tir ac adeiladau) yr Urdd gan Rhys Davies MRICS, FAAV, N Sch o R G Jones, Farmers Marts, Llys Meirion, Dolgellau yn Medi 2022 ar brisiad o £19,207,027

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ymrwymo i sicrhau bod ailbrisiad y tir ac adeiladau yn cael ei adolygu ar bob dyddiad adrodd

Os na fyddai'r asedau sefydlog wedi cael eu hail-brisio yn ystod y flwyddyn ariannol, y swm yn y Datganiadau Ariannol fyddai £23,896,133 (2024 £23,467,836) Ers y prisiad proffesiynol ddiwethaf mae yna datblygiadau sylweddol wedi bod ar thir ag adeiladau, yn benodol yng ngwersylloedd Llangrannog, Glan Llyn a Phentre Ifan

Dibrsiant

Mae adeiladau hir-les wedi'u cynnwys ar eu cost wreiddiol a'u dibrisio dros gyfnod y les

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad yw gwerth ailbrisiad yr eiddo tir ac adeiladau yn wahanol i'r 'gwerth drwy ddefnydd' ar gyfer y canolfannau preswyl a 'gwerth teg' ar gyfer yr asedau eraill ar ddyddiad y fantolen O ganlyniad mae dibrsiant am y flwyddyn ar eiddo a thir yn £dim, gan bod y gwerth ailbrisiad yr un swm a'r gwerth ar y llyfrau am yr asedau tir ac adeiladau

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ymrwymo i gynnal ailbrisiad gyda chysondeb digonol i sicrhau bod gwerth a ddangosir ar gyfer yr asedau sefydlog ddim yn anghytuno'n sylweddol o'r hyn y byddai'n dangos fel 'gwerth drwy ddefnydd' ar gyfer y canolfannau preswyl a 'gwerth teg' ar gyfer yr asedau eraill ar ddyddiad y fantolen

Yn ogystal, adolygir gwerth cario eiddo rhydd-ddaliadol ar ddyddiad pob cyfnod adrodd i benderfynu a oes unrhyw arwydd o nam Os oes arwydd o'r fath yn bodoli, amcangyfrifir swm adenilladwy'r ased Swm adenilladwy ased yw'r mwyaf o'i bris gwerthu net a'i werth yn cael ei ddefnyddio Ar 31 Mawrth 2025, mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad oes unrhyw arwydd o nam ag felly bod gwerth teg adeiladau rhydd-ddaliadol yw'r werth adroddir ar hyn o bryd

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

15 BUDDSODDIADAU SY'N ASEDAU SEFYDLOG

	Buddsoddiadau Sefydlog £	Eiddo Buddsoddi £	Cyfanswm £
GWERTH MASNACHOL			
Ar 1 Ebrill 2024	3,883,055	350,000	4,233,055
Ychwanegiadau	2,448,203	-	2,448,203
Gwarediadau	(2,431,688)	-	(2,431,688)
Ail-brisiad	<u>56,542</u>	<u>-</u>	<u>56,542</u>
Ar 31 Mawrth 2025	<u>3,956,112</u>	<u>350,000</u>	<u>4,306,112</u>
GWERTH AR Y LLYFRAU			
Ar 31 Mawrth 2025	<u>3,956,112</u>	<u>350,000</u>	<u>4,306,112</u>
Ar 31 Mawrth 2024	<u>3,883,055</u>	<u>350,000</u>	<u>4,233,055</u>

Mae mwyafrif o'r buddsoddiadau uchod wedi eu sefydlu yn y Deyrnas Unedig Mae unrhyw fuddsoddiadau tramor yn rhan o'r portffolios buddsoddi Sarasin a CCLA

Mae gan yr Elusen fuddsoddiadau yn *Sarasin* a *CCLA*, sy'n cynrychioli 61.38% (2024 0%) a 37.89% (2024 40.12%) yn ôl eu trefn o gyfanswm y portffolio buddsoddiadau

Gwerth masnachol y buddsoddiadau sydd yn gynwysedig ym mhortffolio Sarasin a *CCLA* ar ddiwedd y flwyddyn oedd £2,434,643 (2024 £dim) and £1,492,831 (2024 £1,557,079) yn ôl eu trefn

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd blaenorol roedd gan yr e Elusen fuddsoddiadau yn *M&G Charifund* a *Blackrock Charishare*, sy'n cynrychioli 51.72% a 7.43% yn ôl eu trefn o gyfanswm y portffolio buddsoddiadau Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu symud buddsoddiadau *M&G Charifund* a *Blackrock Charishare*, a trosgwyddwyd y buddsoddiadau yma yn ystod y flwyddyn ariannol

Cydnabyddir y buddsoddiadau sy'n asedau sefydlog ar eu gwerth masnachol ar ddyddiad y fantolen Mae'r buddsoddiadau wedi cael eu ail-brisio a chydabyddir unrhyw enillion neu golledion yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol

Dadansoddiad o fuddsoddiadau

	2025 £	2024 £
Arian parod neu gyfwerth	16,536	1,392
Buddsoddiadau rhestredig	<u>3,939,576</u>	<u>3,881,663</u>
	<u>3,956,112</u>	<u>3,883,055</u>

Gweler gost y buddsoddiadau isod

	2025 £	2024 £
Cost hanesyddol y buddsoddiadau ar 31 Mawrth	<u>4,029,512</u>	<u>2,052,691</u>

16 STOC

	2025 £	2024 £
Stoc	<u>100,386</u>	<u>114,112</u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

17 DYLEDWYR SYMIAU I'W DERBYN O FEWN BLWYDDYN

	2025	2024
	£	£
Dyledwyr masnach	1,613,498	1,196,905
Dyledwyr arall	341,872	107,178
Incwm cronedig	377,668	681,855
Blaendaliadau	480,191	595,234
	<u>2,813,229</u>	<u>2,581,172</u>

18 CREDYDWYR SYMIAU I'W TALU O FEWN BLWYDDYN

	2025	2024
	£	£
Benthyciadau arall (gweler nodyn 19)	28,708	28,495
Credydwyr masnach	874,790	705,182
Trethi arall ac yswiriant gwladol	241,598	244,152
Credydwyr arall	151,566	81,584
Incwm gohiriedig	1,432,320	986,998
Treuliau cronedig	137,529	177,355
Blaendaliadau	367,953	562,329
	<u>3,234,464</u>	<u>2,786,095</u>

INCWM GOHIRIEDIG

	2025	2024
	£	£
Ar ddechrau y cyfnod adrodd	986,998	908,217
Derbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd	6,196,438	6,163,987
Rhyddhawyd i incwm yn ystod y cyfnod adrodd	<u>(5,751,116)</u>	<u>(6,085,206)</u>
Ar ddiwedd y cyfnod adrodd	<u>1,432,320</u>	<u>986,998</u>

Mae incwm gohiriedig yn cynrychioli symiau a dderbyniwyd gan yr elusen cyn y cyfnod y maent yn ymwneud ag ef. Yn unol â pharagraff 5.59 o SORP Elusennau (FRS 102), ni chaiff incwm sy'n ddarostyngedig i amodau perfformiad penodol neu sy'n ymwneud â chyfnodau cyfrifyddu'r dyfodol ei gydnabod fel incwm nes bod yr amodau hynny wedi'u bodloni neu nes bod y gweithgaredd yn digwydd.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd yr elusen incwm mewn perthynas â

- Grantiau lle mae'r cyllid yn ymwneud â gweithgareddau i'w cyflawni mewn cyfnodau'r dyfodol,
- Gwersylloedd a Digwyddiadau (gan gynnwys gwyl yr Eisteddfod a gweithgareddau Ieuenctid a Chymuned) – ffioedd a dalwyd ymlaen llaw ar gyfer gwyliau a gweithgareddau sy'n digwydd ar ôl diwedd y flwyddyn,
- Incwm codi arian yr Eisteddfod lle mae'r codi arian yn ymwneud â gwyliau i'w sy'n digwydd mewn cyfnodau'r dyfodol.

Mae'r symiau hyn yn cael eu cynnwys fel incwm gohiriedig nes bod yr elusen wedi darparu'r gwasanaethau perthnasol neu wedi bodloni'r holl amodau sy'n gysylltiedig â'r cyllid. Unwaith y bydd y rhwymedigaethau perthnasol wedi'u cyflawni, rhyddheir yr incwm i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

19 BENTHYCIADAU

Dangosir dadansoddiad o'r benthyciadau isod

	2025	2024
	£	£
Symiau i'w talu o fewn blwyddyn neu ar orchymyn		
Benthyciadau arall	<u>28,708</u>	<u>28,495</u>
	<u>28,708</u>	<u>28,495</u>

Mae benthyciadau arall yn ymwneud a benthyciadau i'r Elusen gan y grwpiau rhanbarthol gyda llog yn daladwy ar gyfradd o 0.5% uwchben y gyfradd gwlad.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

20 CYTUNDEBAU LES

Isafswm taliadau les mewn prydlesau ni ellir eu diddymu, fel â ganlyn

	2025	2024
	£	£
O fewn blwyddyn	7,326	7,398
Rhwng 1 a 5 mlynedd	<u>2,967</u>	<u>6,560</u>
	<u>10,293</u>	<u>13,958</u>

Ni chynhwysir ymrwymadau prydles gweithredol i'r dyfodol yn y datganiadau ariannol

21 SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD

	Ar 1/4/24	Incwm Net	Trosglwyddiadau u rhwng cronfeydd	Ar 31/3/25
	£	£	£	£
Cronfeydd anghyfyngedig				
Cronfa gyffredinol	31,502,392	(656,496)	631,172	31,477,068
Cronfeydd cyfyngedig				
Cronfa John a Rhys James	16,800	-	-	16,800
Tlws John a Ceridwen	5,240	-	-	5,240
Prosiectau Chwaraeon	215,414	(215,414)	-	-
Cronfa Cyfalaf	<u>300,000</u>	<u>920,492</u>	<u>(621,492)</u>	<u>599,000</u>
	537,454	705,078	(621,492)	621,040
Cronfeydd gwaddol				
Cronfa Cwpan Sir	144,097	15,511	(5,528)	154,080
Cronfa Aelwyd Corwen	4,426	448	(169)	4,705
Cronfa celf a chrefft	2,956	298	(113)	3,141
Cronfa Glesni Evans	3,378	(99)	(131)	3,148
Cronfa Olwen Griffiths	15,184	(214)	(430)	14,540
Cronfa Ethleen Thomas	1,935	(27)	(55)	1,853
Cronfa Olwen Phillips / Pam Weaver	5,503	(77)	(157)	5,269
Cronfa Sim Davies	18,775	(265)	(532)	17,978
Cronfa Rhian Criddle	2,873	55	-	2,928
Cronfa Sharon Bonds	979	(13)	(28)	938
Cronfa Pendyrus	12,387	1,148	(472)	13,063
Cronfa Dr D Davies	<u>63,320</u>	<u>(3,935)</u>	<u>(2,065)</u>	<u>57,320</u>
	275,813	12,830	(9,680)	278,963
CYFANSWM CRONFEYDD	<u>32,315,659</u>	<u>61,412</u>	<u>-</u>	<u>32,377,071</u>

Mae trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn yn adlewyrchu ail-ddyraniad adnoddau i sicrhau bod cronfeydd yn cael eu defnyddio yn unol â chyfyngiadau rhoddwyr a nodau'r elusen

- **Cronfa Cyfalaf (Trosglwyddwyd £621,492 i gronfeydd anghyfyngedig)** Mae hyn yn cynrychioli rhyddhau cyfyngiadau ar grantiau cyfalaf unwaith y prynwyd yr asedau perthnasol a'u rhoi ar waith O dan SORP, pan fydd pwrpas grant cyfalaf cyfyngedig wedi'i gyflawni, caiff y balans ei drosglwyddo i gronfeydd anghyfyngedig i gyd-fynd â'r tâl dibrisiant
- **Cronfeydd gwaddol (Trosglwyddwyd £9,680 i gronfeydd anghyfyngedig)**. Mae trosglwyddiadau bach o gronfeydd gwaddol yn cynrychioli defnyddio incwm buddsoddi ar gyfer dibenion penodol y cronfeydd hynny, yn unol ag amodau'r rhoddwyr

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

21 SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD – parhad

Symudiadau net mewn cronfeydd, yn gynwysedig yn y ffigyrau uchod mae'r canlynol

	Adnoddau a dderbyniwyd £	Adnoddau a ddefnyddiwyd £	Enillion/ (Colledion) £	Incwm Net £
Cronfeydd anghyfyngedig				
Cronfa gyffredinol	12,563,860	(13,273,802)	53,446	(656,496)
Cronfeydd cyfyngedig				
Cronfa John a Rhys James	-	-	-	-
Prosiectau Chwaraeon	401,082	(616,496)	-	(215,414)
Grantiau Llywodraeth Cymru	3,138,378	(3,138,378)	-	-
Grantiau y Cyngor Llyfrau	30,000	(30,000)	-	-
Grantiau Cyngorau/ Sefydliadau lleol	713,815	(713,815)	-	-
Cronfeydd Ffyniant Gyffredin y DU	227,778	(227,778)	-	-
Grantiau y Cyngor Celfyddydau	158,719	(158,719)	-	-
Grantiau Eraill	160,852	(160,852)	-	-
Cronfa Cyfalaf	<u>920,492</u>	<u>-</u>	<u>-</u>	<u>920,492</u>
	5,751,116	(5,046,038)	-	705,078
Cronfeydd gwaddol				
Cronfa Cwpan Sir	6,010	(481)	9,982	15,511
Cronfa Aelwyd Corwen	184	(15)	279	448
Cronfa celf a chrefft	123	(10)	185	298
Cronfa Glesni Evans	140	(10)	(229)	(99)
Cronfa Olwen Griffiths	430	-	(644)	(214)
Cronfa Ethleen Thomas	55	-	(82)	(27)
Cronfa Olwen Phillips / Pam Weaver	156	-	(233)	(77)
Cronfa Sîm Davies	532	-	(797)	(265)
Cronfa Rhian Criddle	55	-	-	55
Cronfa Sharon Bonds	28	-	(41)	(13)
Cronfa Pendyrus	513	(41)	676	1,148
Cronfa Dr D Davies	<u>2,244</u>	<u>(179)</u>	<u>(6,000)</u>	<u>(3,935)</u>
	10,470	(736)	3,096	12,830
CYFANSWM CRONFEYDD	<u><u>18,325,446</u></u>	<u><u>(18,320,576)</u></u>	<u><u>56,542</u></u>	<u><u>61,412</u></u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

21 SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD – parhad

Ffigyrau symudiadau mewn cronfeydd ar gyfer y flwyddyn gymharol (h y y flwyddyn yn darford 31 Mawrth 2024)

	Ar 1/4/23	Incwm Net	Trosglwyddiada	Ar 31/3/24
	£	£	£	£
Cronfeydd anghyfyngedig				
Cronfa gyffredinol	31,339,312	(868,852)	1,031,932	31,502,392
Cronfeydd cyfyngedig				
Cronfa John a Rhys James	16,800	-	-	16,800
Tlws John a Ceridwen	5,240	-	-	5,240
Prosiectau Chwaraeon	305,509	(90,095)	-	215,414
Cronfa Cyfalaf	-	1,331,932	(1,031,932)	300,000
	327,549	1,241,837	(1,031,932)	537,454
Cronfeydd gwaddol				
Cronfa Cwpan Sir	149,298	(5,201)	-	144,097
Cronfa Aelwyd Corwen	4,779	(353)	-	4,426
Cronfa celf a chrefft	3,191	(235)	-	2,956
Cronfa Glesni Evans	3,347	31	-	3,378
Cronfa Olwen Griffiths	14,569	615	-	15,184
Cronfa Ethleen Thomas	1,876	59	-	1,935
Cronfa Olwen Philips / Pam Weaver	3,980	1,523	-	5,503
Cronfa Sim Davies	16,710	2,065	-	18,775
Cronfa Rhian Criddle	2,151	722	-	2,873
Cronfa Sharon Bonds	779	200	-	979
Cronfa Pendyrus	16,839	(4,452)	-	12,387
Cronfa Dr D Davies	59,492	3,828	-	63,320
	277,011	(1,198)	-	275,813
CYFANSWM CRONFEYDD	31,943,872	371,787	-	32,315,659

Mae trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn yn adlewyrchu ail-ddyraniad adnoddau i sicrhau bod cronfeydd yn cael eu defnyddio yn unol â chyfyngiadau rhoddwyr a nodau'r elusen

- Cronfa Cyfalaf (Trosglwyddwyd £1,031,932 i gronfeydd anghyfyngedig) Mae hyn yn cynrychioli rhyddhau cyfyngiadau ar grantiau cyfalaf unwaith y prynwyd yr asedau perthnasol a'u rhoi ar waith O dan SORP, pan fydd pwrpas grant cyfalaf cyfyngedig wedi'i gyflawni, caiff y balans ei drosglwyddo i gronfeydd anghyfyngedig i gyd-fynd â'r tâl dibrisiant

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

21 SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD – parhad

Ffigyrau y flwyddyn gymharol (h y y flwyddyn yn darfod 31 Mawrth 2024 ar gyfer symudiadau net mewn cronfeydd, yn gynnwysedig yn y ffigyrau uchod mae'r canlynol

	Adnoddau a dderbyniwyd £	Adnoddau a ddefnyddiwyd £	Enillion/ (Colledion) £	Incwm Net £
Cronfeydd anghyfyngedig				
Cronfa gyffredinol	12,031,675	(13,087,553)	187,026	(868,852)
Cronfeydd cyfyngedig				
Cronfa John a Rhys James	-	-	-	-
Prosiectau Chwaraeon	650,000	(740,095)	-	(90,095)
Grantiau Cyngorau/ Sefydliadau Lleol	594,477	(594,477)	-	-
Grantiau Llywodraeth Cymru	3,244,645	(3,244,645)	-	-
Grantiau y Cyngor Llyfrau	31,190	(31,190)	-	-
Grantiau Eraill	244,377	(244,377)	-	-
Cronfa Cyfalaf	<u>1,331,932</u>	<u>-</u>	<u>-</u>	<u>1,331,932</u>
	6,096,621	(4,854,784)	-	1,241,837
Cronfeydd gwaddol				
Cronfa Cwpan Sir	6,308	-	(11,509)	(5,201)
Cronfa Aelwyd Corwen	202	-	(555)	(353)
Cronfa celf a chrefft	135	-	(370)	(235)
Cronfa Glesni Evans	141	-	(110)	31
Cronfa Olwen Griffiths	343	-	272	615
Cronfa Ethleen Thomas	44	-	15	59
Cronfa Olwen Phillips / Pam Weaver	94	-	1,429	1,523
Cronfa Sim Davies	394	-	1,671	2,065
Cronfa Rhian Criddle	91	-	631	722
Cronfa Sharon Bonds	18	-	182	200
Cronfa Pendyrus	711	-	(5,163)	(4,452)
Cronfa Dr D Davies	<u>2,514</u>	<u>-</u>	<u>1,314</u>	<u>3,828</u>
	10,995	-	(12,193)	(1,198)
CYFANSWM CRONFEYDD	<u>18,139,291</u>	<u>(17,942,337)</u>	<u>174,833</u>	<u>371,787</u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

21 SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD – parhad

Pwrpas cronfeydd cyfyng

Mae'r cronfeydd gwaddol uchod yn cynrychioli cyfraniadau a chymynroddion lle mae'r cyfrannwr wedi nodi y dylid cadw'r arian fel cyfalaf. Defnyddiwyd yr incwm yn unol a thelerau'r gwaddolion a'u cynnwys yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol

Tlws John & Ceridwen Hughes	Derbynnir rhodd i'w ddefnyddio i greu a chyflwyno gwobr arbennig yn flynyddol i rai sy'n rhagori ym myd gwaith ieuenctid
Prosiectau Chwaraeon	Cyllidir y prosiectau yma gan Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru Defnyddir yr arian i brynu offer, i benodi swyddogion chwaraeon a chynnal Gemau Cymru yn flynyddol
Cronfa John & Rhys James	Yn flynyddol derbyniwyd rhodd gan Ymddiriedolaeth Pantyfedwen a'i ddsbarthwyd i'r pwyllgorau Sir ac i'r Cylchoedd i hyrwyddo Eisteddfodau'r Urdd lleol
Prosiect Cymraeg Pob Dydd	Prosiect sy'n ymestyn defnydd o'r Gymraeg fel ail iaith y tu allan i'r ystafell ddsbarth mewn ysgolion cyfrwng Saesneg
Swyddogion ieuenctid	Prosiectau amrywiol yn canolbwyntio ar addysg anffurfiol/diddordebau allgyrsiol tu allan i oriau ysgol gan sicrhau defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg
Theatr ieuenctid	Mae'r Elusen yn cynnig cyfleoedd i ieuenctid Cymru, rhwng 14-20 oed, berfformio mewn drama gerdd, arennir yn gan Llywodraeth Cymru
Grantiau Cyngorau Lleol/Sefydliadau Llywodraeth Cymru	Cymorth i gyllido gwaith craidd rhanbarthol a phrosiectau ar y cyd â sefydliadau eraill Prif grant sy'n cefnogi gwaith craidd yr Elusen, er mwyn ei alluogi i gyflawni targedau meysydd strategol yn hyrwyddo'r Gymraeg i blant a phobl ifanc
Cyngor Llyfrau Cymru Hybu Cynllun Prentisiaeth	Cymorth i gyllido cylchgronau yr Urdd Cymorth i ariannu costau darpariaeth hyfforddiant i brentisiaid drwy gyfrwng y Gymraeg yn y meysydd chwaraeon, awyr agored a gofal plant
Cronfa Ffyniant Gyffredinol	Cymorth i gyflogi swyddogion gweithgareddau newydd yn Sir Benfro, yn ogystal a chymorth am ymchwil a mentrau i wella effeithlonrwydd ynni yng ngwersyll Llangrannog
Cronfa Cyfalaf	Mae hyn yn cynrychioli arian grant ar gyfer prosiectau cyfalaf sy'n parhau i fod o dan gyfyngiadau ar ddyddiad y fantolen

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

22 DADANSODDIAD ASEFAU A RHWYMEDIGAETHAU RHWNG CRONFEYDD

Ar 31 Mawrth 2025

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Gwaddol £	Cyfanswm £
Asedau anniriaethol	148,724	-	-	148,724
Asedau diriaethol	25,709,029	599,000	-	26,308,029
Buddsoddiadau	4,027,149	-	278,963	4,306,112
Asedau cyfredol	<u>1,592,166</u>	<u>22,040</u>	<u>-</u>	<u>1,614,206</u>
CYFANSWM CRONFEYDD	<u>31,477,068</u>	<u>621,040</u>	<u>278,963</u>	<u>32,377,071</u>

Ar 31 Mawrth 2024

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Gwaddol £	Cyfanswm £
Asedau anniriaethol	212,245	-	-	212,245
Asedau diriaethol	25,169,087	300,000	-	25,469,087
Buddsoddiadau	3,957,242	-	275,813	4,233,055
Asedau cyfredol	<u>2,163,818</u>	<u>237,454</u>	<u>-</u>	<u>2,401,272</u>
CYFANSWM CRONFEYDD	<u>31,502,392</u>	<u>537,454</u>	<u>275,813</u>	<u>32,315,659</u>

23. YMRWYMIADAU CYFALAF

	2025 £	2024 £
Wedi ei gytuno, ond ddim yn y datganiadau ariannol	<u>-</u>	<u>-</u>

Ar ddiwedd y flwyddyn, nid oedd unrhyw wariant ar waith cyfalaf a thrwsio wedi ei ymrwymo (2024 Edim)

24 OFFERYNNAU ARIANNOL (*Financial Instruments*)

Mae gwerth ariannol yr asedau a'r rhwymedigaethau yn cynnwys

	2025 £	2024 £
Asedau ariannol sydd yn gytundebau dyled wedi eu mesur ar gost ar ôl eu hamorteiddio		
Buddsoddiadau sefydlog	4,306,112	4,233,055
Dyledwyr masnachol	1,613,498	1,196,905
Dyledwyr eraill	341,872	107,178
Arian mewn llaw ac yn y banc	1,935,055	2,492,083
Rhwymedigaethau ariannol sydd yn gytundebau dyled wedi eu mesur ar gost ar ôl eu hamorteiddio		
Benthyciadau eraill	(28,708)	(28,495)
Credydwy'r masnachol	(874,790)	(705,182)
Credydwy'r eraill	(151,566)	(81,584)
Incwm gohiriedig	(1,432,320)	(986,998)
Croniadau	(137,529)	(177,355)
Taliadau a dderbyniwyd o flaen llaw	(367,953)	(562,329)

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025

25 DATGANIADAU PARTÏON PERTHYNOL

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd yr Elusen incwm am hawlfraint, nawdd a llogi cyfleusterau oddi wrth S4C, cwmni y mae Mr D Davies, ymddiriedolwr, hefyd yn gyfarwyddwr ynddo. Derbynwyd yr incwm werth y farchnad ac ar delerau masnachol arferol. Ni chymerodd Mr D Davies ran yn cymeradwyo'r trafodion, ac ni dderbyniodd unrhyw ymddiriedolwr unrhyw fudd personol. Cyfanswm yr incwm a dderbynwyd oedd £348,315, gyda £dim yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn.

Nid oedd unrhyw drafodion arall gydag unrhyw barti perthynol yn y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2025, na'r flwyddyn blaenorol.

26 DIGWYDDIAD AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Ar 1 Tachwedd 2025, derbyniodd yr elusen gadarnhad o rhodd drwy Llythyr Gweinyddiaeth gyda Cwyllys mewn perthynas ag ystâd person a fu farw ar 6 Ionawr 2023, wedi ei gartrefu yn Lloegr a Chymru. Mae'r cais yn nodi bod gwerth gros yr ystâd yn £3,210,273 a'r gwerth net yn £3,201,235. Mae'r elusen, Urdd Gobaith Cymru, wedi'i phenodi'n weinyddwr ac yn fuddiolwr o dan yr ewyllys.

Ni ellir mesur effaith ariannol y digwyddiad hwn yn ddibynadwy ar ddyddiad adrodd, felly, ni wnaed unrhyw addasiad i'r datganiadau ariannol. Rhoddir datgeliad ei mwy'n llysbysu defnyddwyr y cyfrifon am y digwyddiad arwyddocaol hon a ddigwyddodd ar ôl dyddiad y fantolen.

Accounts



Urdd

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a
Datganiadau Ariannol Archwiliedig
am y flwyddyn yn diweddu
31 Mawrth 2024**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru
(Cyfyngedig drwy warrant heb gyfranddaliadau)**

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Cynnwys y Datganiadau Ariannol
am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024

	<u>Tudalen</u>
Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	3 – 13
Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	14 – 16
Datganiad o Weithgareddau Ariannol	17
Datganiad o Incwm Cynhwysfawr	18
Mantolen	19
Datganiad llif arian	20
Nodiadau i'r datganiad llif arian	21
Nodiadau i'r datganiadau ariannol	22 - 39

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2024

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr o'r elusen at ddiben Deddf Cwmnïau 2006, yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol â'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2024. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu'r darpariaethau yn y 'Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau' wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (effeithiol 1 Ionawr 2015).

Mae Cwmni Urdd Gobaith Cymru yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Agorwyd cangen gyntaf y mudiad yn 1922 ac yna ymgorfforwyd yr Urdd ar 8 Mawrth 1932 a chofrestrodd fel elusen ar yr un dyddiad. Sefydlwyd o dan Femorandwm sy'n datgan amcanion a phwerau'r Cwmni a reolwyd gan Erthyglau Cymdeithasiad. Os fyddai'r cwmni yn digwydd dirwyn i ben yn y dyfodol, ni fydd rhwymedigaeth yn fwy nag £0.25 yn daladwy gan yr Ymddiriedolwyr.

AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Nod ac Amcanion

Prif amcanion yr elusen yw sicrhau bod holl ieuencid Cymru yn cael y cyfle, trwy gyfrwng y Gymraeg, i ddatblygu'n unigolion cyflawn, a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, drwy feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.

Mae'r elusen yn cyflawni ei hamcanion mewn pump prif ffordd, sef: 1) drwy gynnig profiadau canolfannau preswyl, 2) drwy gynnal eisteddfodau lleol a chenedlaethol i hyrwyddo'r celfyddydau, 3) drwy gynnig gwasanaeth darpariaeth chwaraeon, 4) drwy gynnig rhwydwaith o weithgareddau cenedlaethol a rhyngwladol i'r ieuencid, a 5) darparu hyfforddiant yn y gweithle a phrentisiaethau. Ceir adolygiad manwl o gampau a pherfformiadau mewn adroddiad blynyddol ar wahân i'w gyflwyno yn y Cyfarfod Blynyddol (gweler www.urdd.cymru).

Mae'r elusen yn ddiolchgar am ymdrechion ei gwirfoddolwyr sy'n helpu i ddarparu'r gwasanaeth a chodi arian drwy roi eu hamser i gynorthwyo gyda gweithgareddau'r elusen. Ar y cyfan mae'r cyfraniadau hyn yn cynnwys gwirfoddoli ar gyfer yr Eisteddfodau niferus sy'n digwydd ar lefel leol a rhanbarthol cyn cymhwyso ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol; cynorthwyo gyda nifer o glybiau chwaraeon a chymdeithasol sy'n gweithredu drwy gydol y flwyddyn; helpu gyda threfnu a stiwardio cystadlaethau rhanbarthol a cenedlaethol yn ogystal â'n Hymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr eraill sy'n eistedd ar ac yn mynychu ein byrddau a'n paneli. Er bod rhanbarthau a chylchoedd lleol yn cynnal gweithgareddau, caiff y rhain eu rhedeg yn annibynnol ar Gwmni Urdd Gobaith Cymru ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfrifon hyn.

Cyflawniadau a Pherfformiad:

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth yr Urdd gyflawni y canlynol:

- Rhaglen fuddsoddi gwerth £9.3 miliwn yng nghanolfannau'r Urdd yn Llangrannog a Glan-llyn, gyda'r datblygiad ar Ganolfan Ddŵr newydd Glan Llyn ac adnewyddu Pentre Ifan, wedi cwblhau yn y flwyddyn ariannol 2023/24.
- Daeth dros 103,000 o wersyllwyr a thros 850 o ysgolion Cymru i ymweld a gwersylloedd yr Urdd.
- Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Gaerfyrddin a gyda cymorth ariannol Llywodraeth Cymru croesawyd 9,300 o unigolion o deuluoedd incwm is a'r maes yn Llanymddyfri yn ddi-dal.
- Cynhaliwyd gynhyrchiad cyntaf Cwmni Theatr Ieuencid yr Urdd ers ei ailsefydlu ym Medi 2023 drwy cymorth ariannol Llywodraeth Cymru. Perfformiodd y cast o 25 o bobol ifanc cynhyrchiad newydd o Deffro'r Gwanwyn.
- Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru, cynhaliodd yr Adran Chwaraeon Gemau Stryd yr Urdd am yr eildro ym Mae Caerdydd dros yr haf, cyn trefnu ail gynhadledd genedlaethol #FelMerch yn yr hydref.
- Hyfforddwyd dros 200 o brentisiaid o dan gynllun Prentisiaethiaid yr Urdd yn 2023/24. Mae'r Urdd yn cynnig prentisiaethau yn y sectorau chwaraeon, chwaraeon mewn addysg, awyr agored, gofal plant, a gwaith ieuencid.
- Ym mis Ebrill 2023 dadorchuddiwyd murlun enfawr i gefnogi Neges Heddwch gwrth hiliaeth yr Urdd, y murlun dwyieithog cyntaf yng Nghaerdydd. Mae'r murlun wedi cael ei ysbrydoli gan eiriau Neges Heddwch 2023 a grëwyd gan fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd, sy'n datgan yn glir nad oes lle i hiliaeth yn y byd.
- Fel rhan o ymgyrch Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd yn Ffrainc, perfformiodd Côr yr Urdd mewn cyfres o ddigwyddiadau yn Lyon, a cynigiwyd ein sesiynau 'Chwarae yn Gymraeg' i 800 o blant a phobl ifanc Llydaw.
- Penodwyd dau Brentis Amrywiaeth a Chynhwysiant Chwaraeon i gefnogi gwaith ein Swyddog Chwaraeon Cymunedau Amrywiol, er mwyn cysylltu ac ymestyn gweithgareddau'r mudiad yn ardaloedd tangynrychioliedig Caerdydd. A diolch i bartneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, mae'r ddau yn cael gwersi Cymraeg dwys yn wythnosol.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2024

ADRODDIAD STRATEGAETH

Adolygiad ariannol

Sefyllfa ariannol

Adroddir ar ganlyniadau'r Elusen yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar dudalen 17.

Mae incwm net o bob cronfa yn dangos gweddill o £371,787 (2023: £4,480,789) gyda'r Elusen yn ffodus o fod wedi elwa o'r canlynol:

- Grantiau cyfalaf oddi wrth Llywodraeth Cymru, y Loteri Cenedlaethol a Chwaraeon Cymru o £1,331,932 (2023: £875,994). Defnyddiwyd y grantiau yma i ariannu'r gwariant cyfalaf yng ngwersylloedd Glan Llyn, Llangrannog and Phentre Ifan. Tra bod y grantiau a dderbyniwyd o fewn incwm, mae'r gwariant yma wedi'i gyfalafu a felly nid yw wedi adrodd yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.
- Rhoddion a chymynroddion £943,718 (2023: £356,612).

Yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol derbyniodd gwerysll Llangrannog incwm am ddarparu 100% o'i gapasiti gwelyau ar sail unigryw i rhoi lloches i deuluoedd o Wcrain am gyfnod o 5 mis. Ail-fuddsoddiwyd rhan o'r incwm yma i wella cyfleusterau yn y gwerysll er budd aelodau yr Urdd, gyda'r gweddill wedi ei ddefnyddio ar gyfer gwella cyfleusterau yn y cyfnod adrodd presennol a blaenorol.

Er yr oedd gan y gwerysll gapasiti i dderbyn ymwelwyr ar yr un lefelau a chyn pandemig COVID 19, gyda'r gweithlu wedi ail-adeiladu, nid oedd yr ymwelwyr dros nos ar yr un lefelau ag yr oeddent cyn y pandemig, yn benodol ar gyfer y penwythnosau oherwydd newid tuaddiadau ysgolion. Bydd y gwerysll yn parhau i esblygu eu darpariaeth er mwyn ymateb i newid yn arferion eu cwsmeriaid er mwyn cynyddu lefelau ymwelwyr.

Yn flynyddol, mae cyfrifon rheoli mewnol yr Urdd yn dangos fod Gwersylloedd Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd, yn ogystal â'r Adran Gylchgronau ac Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau, yn cyfrannu gwarged tuag at weithgareddau datblygu a rhanbarthol. Yn unol â pholisïau cyfrifeddol yn y cyfrifon statudol dosrannir costau cefnogi'r gweithgareddau elusennol ar sail canran yr incwm a dderbynnir gan bob adran. Yn ogystal nodir incwm grantiau ar wahân yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

Asedau Sefydlog Tiriaethol

Dangosir newidiadau asedau sefydlog diriaethol yn nodiadau yr adroddiad ariannol. Yn ystod y flwyddyn gwariwyd £2,298,762 (2023: £3,489,023), ar amryw o asedau sefydlog, yn fwyaf nodedig parhau gyda datblygiadau yn y gwerysll, gan gynnwys Canolfan ddŵr Newydd yn Nglan Llyn, ail-adeiladu Pentre Ifan, a datblygiadau pellach yn Llangrannog a Chaerdydd. Ym mis Cymru 2019 sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyfrannu tuag at raglen prosiectau cyfalaf y Mudiad rhwng 2019 a 2023 a defnyddiwyd hyn i helpu ariannu prosiectau y Ganolfan Hyfforddi Gweithgareddau Dŵr a Phentre Ifan yn ystod y cyfnod adrodd.

Polisi ac amcanion buddsoddi

Rheolir pwerau buddsoddi'r Ymddiriedolwyr gan y Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu ar bolisi o fuddsoddi arian mewn cyfuniad o stoc y Llywodraeth, cyfranddaliadau rhestredig ac unedau buddsoddi arbenigol i elusennau, er mwyn cwrrd â'u gofynion i gynhyrchu incwm a thfyant cyfalaf yn ogystal â buddsoddi'n foesebol. Yn ystod y cyfnod adrodd gyda mewnbwn gan arbenigwr yn y sector, mae'r ymddiriedolwyr wedi adolygu y dull o fuddsoddi ac wedi adnewyddu polisi buddsoddi'r elusen. O ganlyniad i'r adolygiad, apwyntiwyd CCLA Investment Management Limited a Sarasin & Partners LLP fel rheolwyr buddsoddiadau yr Elusen. Dechreuwyd y broses o drosglwyddo y buddsoddiadau o'r rheolwyr presennol yn ystod y cyfnod adrodd.

Polisi cronfeydd

Fel sydd yn ofynnol gan Comisiwn yr Elusennau, mae'r angen i'r elusen gael polisi cronfeydd er mwyn diogelu y mudiad rhag yr annisgwyl. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi sefydlu polisi lle dylai cronfeydd cyffredinol fod gwerth oddeutu 6 mis o wariant cyffredinol (tua £7.0 miliwn). Ar y lefel hwn, teimlai'r Ymddiriedolwyr gall yr elusen barhau i weithredu mewn achos o ddiffyg incwm sylweddol. Byddai'n rhaid ystyried sut i newid y gweithgareddau neu gynyddu'r incwm mewn achos o'r fath.

Ar ddiwedd 31 Mawrth 2024 roedd cronfeydd rhydd o £5,471,060 (2023: £7,597,048). Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o gymynroddion a fydd yn cael eu dosbarthu i'r elusen ar setliad ystadau gwahanol unigolion, a ddylai ddod â'r cronfeydd cyffredinol yn ôl i fod yn unol â tharged yr Ymddiriedolwyr.

Y strategaeth hir-dymor yw parhau i gynyddu y cronfeydd rhydd yn y dyfodol trwy greu gweddill blynyddol ar weithgareddau.

Roedd yna £537,454 (2023: £327,549) mewn cronfeydd cyfyngedig. Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys cyfraniadau a grantiau o £237,454 (2003: £327,549) a £300,000 (2023: £dim) mewn cronfeydd cyfalaf. Roedd yna £275,813 (2023: £277,011) mewn Cronfeydd Gwaddol.

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr
am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024**

Adolygiad – ariannol – parhad

Polisiâu ac amcanion rheolaeth risg a rheolaeth ariannol

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi adolygu'r risgiau sylweddol hynny lle mae'r elusen yn agored iddynt, a sefydlu systemau i leddfu'r risgiau hynny. Paratowyd adroddiadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau'r risgiau. Lleihawyd risgiau mewnol drwy weithredu trefniadau awdurdodi trafodaeth ariannol a phrosiectau, ac er mwyn sicrhau ansawdd cyson am holl weithgareddau'r elusen. Adolygwyd y trefniadau yma yn gyfnodol i sicrhau eu bod yn dal i gwrdd â gofynion yr elusen.

Busnes Gweithredol

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi asesu priodoldeb y sail busnes gweithredol ('going concern') drwy fodelu cyllideb a rhagolygon ariannol ar gyfer y cyfnod hyd at fis Mawrth 2025 ac maent yn fodlon eu bod yn parhau i fod yn briodol i ddefnyddio'r sail busnes gweithredol o barato'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024. Gweler Polisiâu Cyfrifo, Nodyn 1 i'r Datganiadau Ariannol.

Datblygiadau'r dyfodol

Mae gan yr Urdd Gynllun Corfforaethol presennol yn ei le am y cyfnod 2023-2028, a'r prif flaenoriaethau a nodir yn y cynllun yw:

- CEFNOGI ein haelodau, defnyddio'r Gymraeg, lles plant a phobl ifanc, ein gwirfoddolwyr, ein staff.
- PARCHU yr iaith, pob amrywiaeth a gallu, ein gilydd, ein diwylliant a diwylliannau eraill, ein gwahaniaethau.
- YMBWERU dros Gymru a'n pobl, i wneud gwahaniaeth, bod yn ddyngarol wrth eraill.

Prif nodau corfforaethol 2023-28:

- Sicrhau cynnydd yn y niferoedd o blant a phobl ifanc ag anableddau, o'r gymuned LHDTC+, o gefndiroedd diwylliannol amrywiol, ardaloedd difreintiedig a'r siaradwyr Cymraeg newydd sy'n ymwneud gyda'r Urdd.
- Sefydlu Gwasanaeth Ieuentid Cenedlaethol, i bobl ifanc dderbyn gwaith ieuentid yn y Gymraeg sydd yn gyson ac o ansawdd ymhob rhan o Gymru.
- Sefydlu Gwasanaeth Celfyddydol Cymunedol Cenedlaethol lle mae cynnig celfyddydol yn gyson ar draws Cymru.
- Ymestyn y dewis o lwybrau hyfforddi newydd yr Adran Prentisiaethau gan ychwanegu maes celfyddydau a gwaith ieuentid.
- Ehangu cyfnodau a chynnig gweryllloedd haf yr Urdd.
- Cynnal rhaglen buddsoddiad cyfalaf i sicrhau bod ein heiddo yn parhau i fod yn addas ar gyfer anghenion plant a phobl ifanc heddiw.
- Ymestyn ein partneriaethau a'n cynnig rhyngwladol i bobl ifanc, ar draws holl wasanaethau'r Urdd.
- Creu strategaeth gyfathrebu 5 mlynedd gyda phwyslais ar farchnata digidol er mwyn ymestyn ein cyrhaeddiad i'n haelodau a'n rhanddeiliaid.
- Parhau i gynnal a diogelu cefnogaeth i ymestyn darpariaeth chwaraeon cwbl gynhwysol yn y Gymraeg ar draws cymunedau ac ysgolion Cymru.
- Cryfhau ein strwythurau er mwyn denu a chefnogi gwirfoddolwyr ifanc o bob cymuned.
- Creu system gadarn i feincnodi a mesur cynnydd prif ddangosyddion llwyddiant.
- Llionio a gweithredu cynllun ymchwil a mewnwelediad i werthuso ein gwasanaethau a datblygiad dinasyddiaeth ymysg pobl ifanc.
- Creu strategaeth datblygu'r gweithlu er mwyn denu, cefnogi a datblygu'r gweithlu.
- Gweithredu a pharhau i ddatblygu systemau TG sy'n sicrhau profiad hawdd a gwybodus i'n haelodau a'n partneriaid i ymwneud gyda'r Urdd.
- Ehangu apêl yr Eisteddfod er mwyn sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn manteisio ar gyfleoedd i ymwneud a'r celfyddydau yng Nghymru.
- Cynnal asesiad amgylcheddol blynyddol i fonitro'r cynnydd tuag at darged Sero Net.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion strategol, bydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr, staff a Byrddau Strategol yn adolygu blaenoriaethau a nodau'r Elusen yn rheolaidd.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2024

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLAETH

Trefn Lywodraethol

Rheolir yr elusen gan ei dogfen llywodraethu, y Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu, ac fe'i hystyrir yn Gwmni cyfyngedig, wedi ei gyfyngu trwy warrant, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cwmnïau 2006.


Cyfansoddiad yr Elusen

Mae Cwmni Urdd Gobaith Cymru yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig drwy warrant. Ymgorfforwyd yr Urdd ar 8 Mawrth 1932. Sefydlwyd o dan Femorandwm sy'n datgan amcanion a phwerau'r Cwmni a reolwyd gan Erthyglau Cymdeithasol.

Cred yr Ymddiriedolwyr yw bod yr elusen yn Endid Budd Cyhoeddus a'i fod yn cwrdd â'r anghenion a osodwyd yn adran 4 o'r Ddeddf Elusennau 2011.


Strwythur Sefydliadol

Yn ystod y cyfnod adrodd, rheolwyd yr Urdd o ddydd i ddydd gan Brif Weithredwr gyda chefnogaeth un ar ddeg pennaeth adrannol, gyda 8 ohonynt yn rhan o'r Uwch Dim Rheoli. Dangosir y strwythur adrannol isod:



Strwythur - parhad

Mae strwythur llywodraethu yr elusen yn cynnwys chwech Bwrdd Strategol i adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar faterion arbenigol yn ymwneud ag Adnoddau Dynol, Busnes, Prentisiaethau a Chwaraeon, Eisteddfod a'r Celfyddydau, Gwersylloedd, Rhyngwladol. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn chwarterol yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r Urdd fel mudiad yn hynod ddiolchgar i'r lluo o unigolion sydd yn gwirfoddoli i gefnogi'r holl rwydwaith yma.



Nodir aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at ddiben deddfwriaeth cwmniâu) a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ac ar ddyddiad yr adroddiad yma ar dudalen 12.

Yn ystod y cyfnod adrodd, bu'r canlynol yn Llywyddion Anrhydeddus yr elusen:

- Mr W Melville Jones
- Mr S ab Edwards
- Ms R Lewis

Dirprwyo

Mae'r Ymddiriedolwyr yn dirprwyo rheolaeth dydd i ddydd yr elusen i'r Prif Weithredwr, a'r Uwch Dîm Rheoli, a oedd yn cynnwys yn ystod y cyfnod adrodd:

- | | |
|---------------------|--|
| • Sian Lewis | Prif Weithredwr |
| • Gwenno Williams | Cyfarwyddwr Cyllid |
| • Lowri Jones | Cyfarwyddwr Gwersyll Llangrannog |
| • Huw Antur | Cyfarwyddwr Gwersyll Glan-Ilyn (hyd Mehefin 2023) |
| • Mair Edwards | Cyfarwyddwr Gwersyll Glan-Ilyn (o Awst 2023) |
| • Ceren Roberts | Cyfarwyddwr Gwersyll Caerdydd |
| • Gary Lewis | Cyfarwyddwr Chwaraeon a Phrentisiaethau |
| • Sian Eirian | Cyfarwyddwr Eisteddfod a'r Celfyddydau (hyd Gorffennaf 2023) |
| • Llio Maddocks | Cyfarwyddwr Eisteddfod a'r Celfyddydau (o Awst 2023) |
| • Mali Thomas | Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Datblygu |
| • Sian Morris Jones | Cyfarwyddwr Ieuencid a Chymuned |

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2024

Recriwtio a Phenodi Ymddiriedolwyr Newydd

Mae'r Ymddiriedolwyr yn derbyn cyngor gan Gyngorwyr Cyfreithiol ac Archwilwyr yr elusen yn ôl yr angen, yn ogystal â'r Bwrdd Adnoddau Dynol sy'n cynnwys arbenigwyr ac ymarferwyr o'r diwydiant.

Mae Urdd Gobaith Cymru yn recriwtio ac yn penodi Ymddiriedolwyr newydd yn unol â'i Erthyglau Cymdeithasu, sy'n nodi y bydd yr Elusen, drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol, yn:

- Penodi person sydd wedi cytuno i gael ei enwebu'n Ymddiriedolwr
- Ail-benodi Ymddiriedolwr presennol unwaith y bydd eu tymor tair blynedd wedi'i gwblhau

Penodir Ymddiriedolwyr newydd am gyfnod cychwynnol o 3 blynedd, gyda'r opsiwn o ymestyn eu tymor, ar ôl eu hail-ethol, am 3 blynedd arall.

Yn y broses hon mae'r Bwrdd yn cael cyngor gan amrywiaeth o rhanddeiliaid yr elusen, ac ar ôl hynny gofynnir i unigolion wneud cais am seddi gwag ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Yn ogystal, er mwyn sicrhau tryloywder, cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol, rhoddir rhybudd y gall aelodau enwebu unigolion i'w hystyried yn Ymddiriedolwyr. Os bydd mwy o ymgeiswyr nag sydd o seddi gwag ar y Bwrdd, cynhelir cyfweiliadau er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr fwyaf cymwys yn cael eu cyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol.

Hyfforddiant ac Anwytho Ymddiriedolwyr Newydd

Pan benodir Ymddiriedolwyr newydd, cynigir gwybodaeth iddynt am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau ac mae'r Urdd yn mabwysiadu ei weithdrefn anwytho arferol ar gyfer penodi aelodau newydd o staff. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant lle yn addas ar weithdrefnau a pholisïau'r Urdd. Gwneir asesiad o anghenion hyfforddi a cynigir hyfforddiant penodol i Ymddiriedolwyr newydd ar eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

Adroddiad ar Gyflogau a Thâl

Yn unol gyda'n hymrwymiad i sicrhau bod ein cyfraddau cyflog yn deg ac yn gystadleuol, cynhelir adolygiad cyflog a graddio llawn bob dwy blynedd, gyda'r adolygiad diweddaraf ar ddiwedd y cyfnod adrodd i sicrhau codiadau cyflog o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Bydd hyn yn galluogi'r cwmni i ddenu a chadw ymgeiswyr o'r safon angenrheidiol ar gyfer swyddi gwag, sydd yn hanfodol i'n llwyddiant

Fe adolygwyd, diweddarwyd, aseswyd a chynhaliwyd ymarfer meincnodi pob disgrifiad swydd ar draws y mudiad. Mae cydnabod y cyfrifoldebau a dyletswyddau o bob rôl yn golygu y gall pob cyflogai dderbyn cyflog teg ag addas. Yn yr un modd â chreu unrhyw rôl, cynhelir ymarfer meincnodi allanol hefyd i sicrhau asesiad teg a phriodol o gyflog ar gyfer y rôl.

Mae'r broses graddoli yn parhau i fod yn weithredol ac ar gael i staff, petai unrhyw newid sylweddol yn sgôp dyletswyddau a chyfrifoldebau swydd. Mi fydd disgrifiad swydd diwygiedig yn cael ein ystyried gan yr adran adnoddau dynol, a byddent yn cynnal 2 asesiad annibynnol o'r rôl gan ddefnyddio offeryn gwerthuso swyddi a ddewiswyd gan yr Urdd ('*HR Inform*').

Bob blwyddyn, mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn asesu'r cyflogau a delir i staff ac yn ystyried, ac ar ba lefel, y gellir defnyddio cynnydd mewn costau byw mewn cyflogau ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Gwneir hyn ochr yn ochr â rhagolygon o sefyllfa ariannol y sefydliad, cyllidebau arfaethedig ac mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd Adnoddau Dynol a'r Bwrdd Busnes.

Mae'r Urdd wedi ymrwmo i fod yn gyflogwr Cyflog Byw, gan sicrhau bod ei chyflogau cychwynnol yn unol â chyfradd gyflog argymhellir gan y Sefydliad Cyflog Byw ('*Living Wage Foundation*'), (nid yw hyn yn cynnwys prentisiaid ar hyn o bryd). Mae gan yr Urdd achrediad y Sefydliad Cyflog Byw, cydnabyddiaeth bod yr elusen yn bodloni meini prawf Cyflog Byw go iawn.

Amrywiaeth a Chynnwys Staff

Mae gan Urdd Gobaith Cymru ystod o bolisïau sy'n adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol ac sy'n anelu at sicrhau bod ei staff yn cael eu cadw a'u cymell. Caiff y polisïau hyn eu hadolygu'n rheolaidd a chânt eu gwirio ar gydraddoldeb cyn eu gweithredu. Mae'r elusen wedi ymrwmo i gyfle cyfartal yn ein harferion cyflogaeth. Yn benodol, nod yr Urdd yw sicrhau nad oes unrhyw gyflogai posibl neu wirioneddol yn cael triniaeth fwy neu lai ffafriol ar sail oedran, anabled, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, statws priodasol neu statws rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd, neu gyfeiriadedd rhywiol. Adlewyrchir hyn ym mholisi cydraddoldeb ac amrywiaeth y Mudiad, sydd yn amlinellu ymrwymiad yr Urdd i sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ei holl weithgareddau, ac i sicrhau bod pob cyflogai, ymgeisydd am swydd, aelod, gwirfoddolwr, pobol ifanc, ymwelydd a chontractwr yn cael eu trin yn deg. Mae'r ymrwymiad yma wedi ei selio ar gydgyssylltiad a chanfyddiad i oedran, anabled, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024

Amrywiaeth a Chynnwys Staff – parhad

Mae system Adnoddau Dynol yr elusen, *CIPHR*, yn lle diogel i staff rannu manylion personol mewn perthynas â data cyfle cyfartal. Nid y cwblhau'r data yma yn orfodol, fodd bynnag mae annog i wneud hynny yn sicrhau bod y cymorth gorau posibl yn cael ei darparu i bob cyflogai. Bydd y data hefyd yn galluogi'r Urdd i adrodd yn fwy cywir ar amrywiaeth staff. Mae'r Urdd wedi cofrestru i fod yn Gyflogwr Ymroddedig Hyderus o ran Anabledd, gyda'r dystysgrif lefel 1 wedi ei derbyn. Bydd yr achrediad yn cael ei ddefnyddio fel rhan o ymgyrchoedd recriwtio gyda'r nod o recriwtio a denu rhwydwaith mwy amrywiol o ymgeiswyr.

Mae cyfathrebu yn allweddol ym mhob un o weithgareddau yr elusen ac mae sicrhau bod staff yn cael eu diweddarau ac yn ymwybodol o ddatblygiadau ar draws y sefydliad yn hanfodol. Mae nifer o adnoddau yn cael ei defnyddio i sicrhau bod hyn yn effeithiol, er enghraifft diweddariadau rheolaidd drwy y rhwydwaith Timau a system Adnoddau Dynol yr elusen, lle gellir postio cyhoeddiadau a rhannu polisiau a dogfennau newydd. Mae hefyd yn hanfodol i staff dderbyn diweddariadau rheolaidd gan y Prif Weithredwr.

Mae'r gadwyn gyfathrebu o fewn yr Urdd yn galluogi i wybodaeth gael ei lledaenu i lawr o'r brig drwy gydol y strwythur staffio – o Gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, i'r Uwch Dîm Rheoli, i Reolwyr a Staff adrannol. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod unrhyw newidiadau, datblygiadau a materion a wynebier gan y sefydliad a rhoddir gwybod i'r staff am unrhyw ffactorau pwysig sy'n effeithio ar yr elusen gyfan a'u hadrannau a'u rolau hwythau yn benodol.

Cafodd Fforwm Staff, grwp cynrychiolaeth staff sydd yn cael ei dewis gan y gweithlu yn cael ei hail ddechrau yn 2023 gyda'r nod o ddatblygu a hybu ymgysylltiad staff.

Bwrdd Adnoddau Dynol

Ymhlith y byrddau strategol y mae'r Ymddiriedolwyr yn dirprwyo rhywfaint o gyfrifoldeb iddynt mae'r Bwrdd Adnoddau Dynol sy'n cynnwys arbenigwyr Adnoddau Dynol amrywiol, gan sicrhau bod cyngor yn cael ei ddarparu a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda budd eu profiad, eu cyfeiriad a'u harweiniad.

Yr Amgylchedd

Mae Cwmni Urdd Gobaith Cymru wedi ymrwymo i sicrhau gwelliannau parhaus i'w weithdrefnau a'i ddefnydd o adnoddau, er mwyn lleihau ei ôl troed carbon. Mae'r Urdd yn cydnabod yr Argyfwng Hinsawdd a'i nod yw gosod targed i fod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2050. Datblygu cynaliadwyedd yw hanfod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a nod yr Urdd yw gwella lles amgylcheddol Cymru drwy gymhwyso a gweithredu ei pholisi amgylcheddol.

Adroddiad Syml ar Ynni a Charbon (SECR)

Dan rheoliadau SECR mae'r Urdd yn sefydliad 'mawr heb ei ddyfynni' ac felly mae'n ofynnol i adrodd yn flynyddol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr yn deillio o Trydan, Nwy a Thrafnidiaeth Gwmpas 1 a 2.

Methodoleg

Y cyfnod adrodd yw'r flwyddyn ariannol ddiweddaraf 1 Ebrill 2023 hyd 31 Mawrth 2024. Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â 'Chanllawiau Adrodd Amgylcheddol: Cynnwys canllawiau symlach ar adrodd ar ynni a charbon' y BEIS Mawrth 2019, a methodoleg yr EMA ar gyfer Adrodd SECR. Mae'r holl allyriadau mesuredig o weithgareddau y mae gan y sefydliad reolaeth ariannol drostynt wedi'u cynnwys fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Cwmnïau (Adroddiad Cyfarwyddwyr) a Phartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Adroddiad Ynni a Charbon) 2018, oni nodir yn wahanol. Cyfrifwyd y ffigurau carbon gan ddefnyddio ffactorau trosi carbon BEIS 2020 ar gyfer pob tanwydd. Dewiswyd mesur dwysedd trosiant er mwyn cymharu allyriadau â thwf y cwmni ac er cysondeb â busnesau tebyg ac adolygiad o sefyllfa'r farchnad.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024

Data Ôl Troed Carbon

Cwmpas	Disgrifiad	2024	2023	2022	2021	2020
Cwmpas 1	Llosgi tanwydd ar safle a chludiant	505 tCO2e	498 tCO2e	427 tCO2e	332 tCO2e	587 tCO2e
Cwmpas 2	Ynni a brynwyd – ar sail lleoliad	195 tCO2e	171 tCO2e	132 tCO2e	103 tCO2e	207 tCO2e
	Ynni a brynwyd – ar sail marchnad	134 tCO2e	73 tCO2e	35 tCO2e	93 tCO2e	231 tCO2e
Cymhareb dwysedd	Ar sail lleoliad	45.8 tCO2e/£1m trosiant	38.2 tCO2e/£1m trosiant	53.9 tCO2e/£1m trosiant	45.9 tCO2e/£1m trosiant	66.5 tCO2e/£1m trosiant
	Ar sail marchnad	42.4 tCO2e/£1m trosiant	33.2 tCO2e/£1m trosiant	45.3 tCO2e/£1m trosiant	44.9 tCO2e/£1m trosiant	68.5 tCO2e/£1m trosiant

Mae allyriadau a defnydd ynni'r Urdd i gyd wedi cynyddu ers y cyfnod adrodd blaenorol, er yn is na'r cyfnod cyn pandemig COVID yn 2019/20. Mae'r cynnydd yma o ganlyniad i gynyddu capasiti y gwersylloedd ar gyfer cyrsiau preswyl a chynnydd pellach mewn digwyddiadau cymunedol yn ystod y flwyddyn ariannol.

Yn ystod y cyfnod, gweithredodd yr Urdd rai gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn dilyn yr argymhellion archwiliad ynni manwl gan ymgynghorwyr ynni allanol yn y ddwy ganolfan breswyl fwyaf, Llangrannog a Glan Llyn, gyda'r bwriad o ddatblygu strategaeth net a chyfluoedd arbed ynni ar gyfer cydymffurfiaeth ESOS.

ADRAN 172 - DATGANIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r Cyfarwyddwyr yn deall eu cyfrifoldebau i hyrwyddo llwyddiant y Cwmni ac maent yn ymwybodol o'u dyletswydd o dan a.172 o Ddeddf Cwmnïau 2006 i weithredu yn y ffordd y maent yn ystyried, yn ddiwyll, fyddai fwyaf tebygol o hyrwyddo llwyddiant y Cwmni er budd ei aelodau yn ei gyfarwydd ac, wrth wneud hynny, gan roi sylw i (ymhlith materion eraill):

- Ym Medi 2023, am y tro cyntaf cynhaliwyd pob cyfarfod Bwrdd Strategol ar y cyd yn Llangrannog.
- Ffurfiwyd y Bwrdd Strategol Ryngwladol a chynhaliwyd cyfarfodydd yn chwarterol.
- Yn dilyn diwedd cyfnod y cyn Gadeirydd, apwyntiwyd Cadeirydd a dau Is-Gadeirydd i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr.
- Cafodd y flwyddyn gyntaf o strategaeth Urdd i Bawb ei fonitro.

Canlyniadau Tebygol unrhyw Benderfyniadau yn y Tymor Hir

Mae'r Bwrdd yn parhau i gofio y gall ei benderfyniadau strategol fod â goblygiadau hirdymor i'r busnes a'i rhanddeiliaid, ac asesir y goblygiadau hyn yn ofalus.

Yn ystod y flwyddyn, wrth gymeradwyo cyllideb yr Urdd fe roddodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sylw i'r canlynol:

- Ymgorffori y gyfundrefn Llywodraethant newydd y Byrddau Strategol y sefydlwyd yn y flwyddyn blaenorol. Fe wnaeth pob Bwrdd gwrdd yn chwarterol
- Sicrhau llais Pobl ifanc o fewn y llywodraethant, a chynnwys seddi i bobl ifanc ar bob un o'r Byrddau Strategol
- Parhau i ail adeiladu'r gweithgareddau yn dilyn effaith COVID ar y gweithlu

Buddiannau Gweithwyr y Cwmni

Mae gwella ymgysylltiad gweithwyr yn rhan annatod o ddiwylliant yr Urdd. Mae uwch reolwyr yn cymryd rhan weithredol mewn ymgysylltu â staff drwy gyfathrebiadau wyneb yn wyneb ac electronig wythnosol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am ddatblygiadau busnes ac yn rhoi cyfle i godi cwestiynau ac ateb cwestiynau'n uniongyrchol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar faterion gweithwyr gan y Prif Weithredwr, sy'n mynychu cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Mae rôl y Bwrdd Adnoddau Dynol, sydd yn cwrdd yn chwarterol, yn cynnwys:

- Cefnogi'r Prif Weithredwr a Pennaeth yr adran Adnoddau Dynol i lunio cynllun strategol i ddatblygu'r gweithlu gan gymeradwyo'r fersiwn terfynol
- Cefnogi denu, cadw a datblygu gweithlu cynhwysol
- Rhannu arweiniad a chefnogaeth mewn meysydd cyflogaeth penodol
- Cyflwyno argymhellion i Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Urdd ar faterion Adnoddau Dynol.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2024

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod cefnogaeth a chyfraniad nifer o rhanddeiliaid mewnol allweddol yr Elusen (aelodau a gwirfoddolwyr yr Urdd) a rhanddeiliaid allanol (y cyhoedd, partneriaid cyflenwi, cyllidwyr, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, cyflenwyr, cwsmeriaid a noddwyr).

Mae'r Ymddiriedolwyr yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymgysylltu'n effeithiol â'r holl rhanddeiliaid ac maent yn ymwybodol bod llwyddiant yr Urdd yn dibynnu ar ei allu i ymgysylltu'n effeithiol, cydweithio'n adeiladol ac ystyried barn rhanddeiliaid. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried ac yn trafod gwybodaeth o bob rhan o'r sefydliad er mwyn deall effaith gweithrediadau'r Urdd a diddordebau a barn ein rhanddeiliaid allweddol. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn adolygu perfformiad ariannol a gweithredol, yn ogystal â gwybodaeth sy'n cwmpasu meysydd fel risgiau allweddol, cydymffurfiaeth gyfreithiol a rheoleiddiol.

Darperir y wybodaeth hon i'r Ymddiriedolwyr drwy adroddiadau rheolaidd a ddosbarthwyd cyn pob cyfarfod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a thrwy gyflwyniadau wyneb yn wyneb gan uwch reolwyr a staff eraill pan fo'n briodol.

Mae strwythur Llywodraethu'r Urdd yn allweddol i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae Pwyllgorau a Byrddau Rhanbarth yn eistedd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys gwirfoddolwyr, aelodau a rhanddeiliaid a phartneriaid eraill yn ogystal â dirprwyiaeth o Ymddiriedolwyr a staff ac maent yn rhoi barn, adborth ac arweiniad i'r Ymddiriedolwyr gan roi cyfleoedd i Ymddiriedolwyr ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau a gwirfoddolwyr. Er mwyn sicrhau ymgysylltiad effeithiol drwy fyrdau, pwyllgorau ac is-bwyllgorau, gweithredwyd y strwythur llywodraethu presennol yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd gan is-grŵp o Ymddiriedolwyr.

Yn unol â'r strwythur llywodraethant, mae'r byrddau strategol canlynol yn gweithredu:

- Adnoddau Dynol
- Busnes
- Chwaraeon a Phrentisiaethau
- Eisteddfod a'r Celfyddydau
- Rhyngwladol
- Gwersylloedd

Mae rhanddeiliaid yn derbyn diweddariad drwy gylchlythyr rheolaidd gan y Prif Weithredwr.

Hyrwyddir y Cwmni i'r holl rhanddeiliaid drwy'r cyfryngau ac ymrwymiadau cyhoeddus gan Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr, Llywydd yr Urdd a'r Prif Weithredwr.

Effaith Gweithrediadau'r Cwmni ar y Gymuned a'r Amgylchedd

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ymrwmo i gefnogi cymunedau ledled Cymru ond maent yn rhoi ystyriaeth arbennig i'r rhanbarthau hynny lle mae prif ganolfannau preswyl yr Urdd wedi'u lleoli, a chyfrifoldeb yr elusen fel cyflogwr lleol, cwsmer i fusnesau lleol yn ogystal â'i heffaith amgylcheddol yn yr ardaloedd hynny.

Mae'r Urdd wedi ymrwmo drwy ei pholisi amgylcheddol i leihau ei heffaith amgylcheddol drwy leihau ôl troed carbon ei weithgareddau a'r adnoddau naturiol y mae'n eu defnyddio. Yn Ionawr 2023, comisiynwyd 'ECA Business Energy' i gwblhau archwiliad o ddefnydd ynni a'r allyriadau carbon yr Urdd. Yn sgil hyn mae'r Urdd wedi ymrwmo i fod yn Sero Net erbyn 2050.

Mae'r Urdd yn cefnogi cymunedau, trwy gyflogaeth leol a'r gadwyn gyflenwi leol. Mae'r Urdd yn cyfrannu'n arbennig at gydlyniant cymunedol drwy gyflwyno ystod o gyfleoedd i bobl ifanc a gwirfoddolwyr o'r cymunedau lleol ym mhrif ganolfannau cyflogaeth yr elusen ac o'u cwmpas.

Cynnal Enw Da am Safonau Ymddygiad Busnes Uchel

Mae'r Bwrdd yn ymfalchïo yn ei hanes hir o onestrwydd ac uniondeb yn ei drafodion busnes. Mae'n cydnabod pwysigrwydd gweithredu fframwaith llywodraethu corfforaethol cadarn.

Yr Angen i Weithredu'n Deg Rhwng Aelodau

Mae holl aelodau'r Bwrdd wedi cwblhau datganiad diddordeb ac archwiliad sgiliau. Mae hyn yn sicrhau bod eu profiad a'u gwybodaeth sgiliau yn cyd-fynd ag amcanion yr elusen.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2024**

CYFEIRNODAU A MANYLION GWEINYDDOL

Rhif Cofrestredig y Cwmni
00263310 (Cymru a Lloegr)

Rhif Cofrestredig yr Elusen
524481

Swyddfa gofrestrdedig

Adran Ariannol
Gwersyll Yr Urdd Glan-Llyn
Llanuwchllyn
Y Bala
Gwynedd LL23 7ST

Ymddiriedolwyr

N Bennett, Cadeirydd
M Emlyn, Is-Gadeirydd
I A Walters, Is-Gadeirydd
G E Cutter (apwyntiwyd 3rd Rhagfyr 2023)
S Ff Dafydd (ymddiswyddodd 1^{af} Mehefin 2023)
D Davies
E C Davies (ymddiswyddodd 2^{il} Rhagfyr 2024)
G Davies (ymddiswyddodd 2^{il} Rhagfyr 2024)
D Evans (apwyntiwyd 3^{ydd} Rhagfyr 2023)
N Haf
T D Jones (ymddiswyddodd 2^{il} Rhagfyr 2024)
G Morris (ymddiswyddodd 18^{fed} Rhagfyr 2023)
D S Ll Owen (apwyntiwyd 3rd Rhagfyr 2023)
G S Parry (ymddiswyddodd 19^{fed} Ebrill 2023)
M Parry (ymddiswyddodd 2^{il} Rhagfyr 2024)
E L S Pemberton (apwyntiwyd 3rd Rhagfyr 2023)
D Price (ymddiswyddodd 18^{fed} Hydref 2023)
R J O'Rourke
A S Williams
A Gruffydd (apwyntiwyd 2^{il} Rhagfyr 2024)
N E Morgan (apwyntiwyd 2^{il} Rhagfyr 2024)
T Ll ab E ap Gwilym (apwyntiwyd 2^{il} Rhagfyr 2024)

Archwilwyr

Ashmole & Co.
Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig
3 Stryd Y Farchnad
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin SA19 6AH

Bancwyr

HSBC plc
19 Y Stryd Fawr
Aberystwyth
Ceredigion SY23 1DE

Rheolwyr Buddsoddiadau

Canaccord Genuity Wealth Management
Anson House
1 Cae'r Llynen
Llandudno Junction
Conwy LL31 9LS

CCLA Fund Managers Limited
1 Angel Lane
Llundain EC4R 3AB

Prif Gynghorwyr Cyfreithiol

Hugh James
2 Sgwâr Canolog
Caerdydd CF10 1FS

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2024

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Yr Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr o Gwmni Urdd Gobaith Cymru at ddiben cyfraith cwmnïau) sydd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r cyfrifon ariannol yn unol â deddfwriaeth cymwys a Safonau Cyfrifyddol y Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddol Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol ac o'r adnoddau derbynir ac y'u defnyddiwyd, gan gynnwys incwm a gwariant, gan y cwmni elusennol ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr:

- dewis polisiau cyfrifo addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn yr adroddiad 'Datganiadau o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau' (SORP);
- llunio barnau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarvoudus;
- datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys wedi eu dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac eglurir yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol ('going concern') oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.


Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol addas sy'n datgelu sefyllfa ariannol y Cwmni'n gymharol gywir ar unrhyw adeg a hefyd yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau cyllidol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb i warchod asedion y Cwmni ac yna i gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll neu afreoleidd-dra arall.

Cyn belled a bo'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohoni; ac
- mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi'u cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal a sicrhau cywirdeb y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a gynhwysir ar wefan y Cwmni Elusennol.

Cymeradwywyd adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn ogystal â'r adroddiad strategaeth gan yr Ymddiriedolwyr, fel cyfarwyddwyr y cwmni, ar 20 Rhagfyr 2024 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:



Nia Bennett – Cadeirydd, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cwmni Urdd Gobaith Cymru (y 'cwmni elusennol') am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024, sy'n cynnwys Datganiad o Weithgareddau Ariannol, Mantolen, Datganiad Llif Arian yn ogystal â nodiadau priodol, a chrynodeb o'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â fframwaith cyfraith berthnasol ynghyd a Safonau Cyfrifyddol y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o faterion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2024 ac o'r adnoddau a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

Sail ar gyfer barn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (SRA (DU)) a chyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau ni yn unol â'r safonau hynny wedi eu disgrifio ymhellach yn ein hadroddiad ni, yn adran cyfrifoldebau'r Archwilwyr ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol i'r cwmni elusennol yn unol â gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rydym o'r farn bod y dystiolaeth archwilio rydym wedi ei chasglu yn ddigonol ac yn briodol i roi sail ar gyfer ein barn.

Casgliadau ynghylch busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi ynghylch y materion isod y mae'r SRA (DU) yn mynnu ein bod yn adrodd arnynt:

- pan nad yw defnydd yr Ymddiriedolwyr o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- pan nad yw'r Ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd sylweddol a allai fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r cwmni elusennol i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifo busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf, ar ôl y dyddiad y cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo i'w cyhoeddi.

Gwybodaeth bellach

Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynnyddol, ar wahân i'r datganiadau ariannol ac Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol ar y datganiadau hynny.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno.

Yng nghyswllt ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall a, thrwy hynny, ystyried a oes anghysondeb sylweddol rhwng y wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth rydym ni wedi ei chasglu yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos bod y wybodaeth wedi ei chamddatgan yn sylweddol. Os ydym ni, ar sail y gwaith rydym wedi ei wneud, yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth bellach hon wedi ei chamddatgan yn sylweddol, mae'n rhaid i ni adrodd am hynny. Does gennym ni ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion arall a bennir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr, ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol; ac
- mae Adroddiad yr Ymddiriedolwyr gan gynnwys yr Adroddiad Strategol wedi ei baratoi yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion yr ydym yn adrodd arnynt fel eithriad

Yn sgil y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r cwmni elusennol a'i sefyllfa a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi dod ar draws unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ynghylch y materion isod, y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn mynnu ein bod ni'n adrodd arnynt i chi os byddwn ni o'r farn:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu na chafwyd ffurflenni priodol ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau na ymwelwyd â hwy; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r ffurflenni na'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nad yw rhai o daliadau cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr, a nodir gan y gyfraith, wedi cael eu datgan; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth neu esboniadau angenrheidiol ar gyfer ein harchwiliad.

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, yr Tmddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau) sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon bod y datganiadau yn rhoi darlun cywir a theg. Yr Ymddiriedolwyr sydd hefyd yn gyfrifol am reolaeth fewnol o'r fath y mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried sydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi heb unrhyw gamddatganiadau sylweddol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol a datgelu, lle bo'n briodol, faterion ynghylch y busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifo busnes cyfredol oni bod yr Ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu ddirwyn y gweithrediadau i ben, neu pan mai dyna yw'r unig opsiwn realistig.

Ein cyfrifoldebau ar gyfer archwiliad y datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiadau materol ai peidio, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac i gyflwyno Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad wedi ei gynnal yn unol â SRA (DU) yn darganfod camddatganiadau materol bob tro lle bo camddatganiadau materol yn bodoli. Gall gamddatganiadau godi drwy dwyll neu wall, ac fe'u hystyrir yn faterol os, yn unigol neu fel cyfanswm, y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol yma.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra. Amcanion ein harchwiliad yw cael digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfynu ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol, cyflawni gweithdrefnau archwilio er mwyn helpu nodi achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau eraill a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol, ac i ymateb yn briodol i ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

O ran twyll, amcanion ein harchwiliad yw nodi ac asesu'r risg o gamddatganiad sylweddol o'r datganiadau ariannol oherwydd twyll, casglu digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch y risgiau aseswyd o gamddatganiad sylweddol trwy dwyll gan ddylunio a gweithredu ymatebion priodol ac ymateb yn briodol i dwyll neu dwyll tybiedig a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

Fodd bynnag, prif gyfrifoldeb y rheolwyr, gyda goruchwyliaeth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yw sicrhau bod gweithrediadau'r endid yn cael eu cynnal yn unol â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau ac ar gyfer atal a chanfod twyll.

Wrth asesu a nodi'r risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, fe wnaeth y tîm archwilio:

- gael dealltwriaeth o natur y diwydiant a'r sector, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r elusen yn gweithredu ynddo a sut mae'n cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol;
- holi'r rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, am eu hasesiad a chydabyddiaeth eu hunain o beryglon afreoleidd-dra, gan gynnwys unrhyw achosion gwirioneddol, tybiedig neu honedig o dwyll;
- drafod materion ynghylch peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a sut y gallai twyll ddigwydd gan gynnwys asesu sut a ble y gallai'r datganiadau ariannol fod yn agored i dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, rydym yn ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw SoRP Elusennau, FRS 102, Deddf Cwmnïau 2006 a Deddf Elusennau 2011. Gwnaethom gynnal gweithdrefnau archwilio i ganfod diffyg cydymffurfio a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol a oedd yn cynnwys adolygu'r datgeliadau yn y cyfrifon.

Nododd y tîm archwilio mai'r risg mwyaf i gamddatganiad sylweddol trwy dwyll fyddai o ganlyniad i'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau mewnol. Roedd y gweithdrefnau archwilio a berfformiwyd yn cynnwys ond nid oeddent wedi'u cyfyngu i brofi cyfnodolion ac addasiadau eraill a gwerthuso'r rhesymeg fusnes mewn perthynas ag unrhyw drafodion sylweddol, anarferol a wnaed y tu allan i gwrs busnes arferol.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwiliad y datganiadau ariannol i'w gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol sef, www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad yn ffurfio rhan o'n Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol.

**Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau
Cwmni Urdd Gobaith Cymru**

Defnydd o'n hadroddiad

Gwnaed yr adroddiad yma i aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Ran 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Gwneir ein gwaith archwilio er mwyn i ni adrodd i aelodau'r cwmni elusennol ar y materion hynny mae'n ofynnol i ni yn adrodd arnynt yn adroddiad yr archwilwyr ac nid at bwrpas arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn neu yn cymryd cyfrifoldeb am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad yma, nac am ein barn a ffurfiwyd, i unrhyw un heblaw'r Cwmni Elusennol ac aelodau'r Cwmni Elusennol fel corff.



C H Llwyd FCA FCCA (Senior Statutory Auditor)
Dros ac ar ran Ashmole & Co
Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig
3 Stryd Y Farchnad
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6AH

Dyddiad: 23 Rhagfyr 2024

Nodir:

Cyfrifoldeb yr Ymddiriedolwyr yw cywirdeb a chynnal a chadw gwefan Cwmni Urdd Gobaith Cymru; nid yw'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol fel y'u cyflwynwyd ar y wefan.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Datganiad o Weithgareddau Ariannol
(Gan gynnwys Cyfrif Incwm a Gwariant)
am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Gwaddol £	2024 Cyfanswm Cronfeydd £	2023 Cyfanswm Cronfeydd £
INCWM AC GWADDOLION DRWY:						
Rhoddion a chymynroddion	2	932,303	11,415	-	943,718	356,612
Gweithgareddau elusennol	3	10,853,647	6,085,206	-	16,938,853	18,900,240
Incwm amrywiol	4	120,621	-	-	120,621	197,680
Incwm drwy fuddsoddiadau	5	<u>125,104</u>	<u>-</u>	<u>10,995</u>	<u>136,099</u>	<u>103,783</u>
CYFANSWM INCWM A GWADDOLION		<u>12,031,675</u>	<u>6,096,621</u>	<u>10,995</u>	<u>18,139,291</u>	<u>19,558,315</u>
GWARIANT AR						
Godi cyllid	6	(55,630)	-	-	(55,630)	(46,801)
Gweithgareddau elusennol	7	<u>(13,031,923)</u>	<u>(4,854,784)</u>	<u>-</u>	<u>(17,886,707)</u>	<u>(14,968,933)</u>
CYFANSWM GWARIANT		<u>(13,087,553)</u>	<u>(4,854,784)</u>	<u>-</u>	<u>(17,942,337)</u>	<u>(15,015,734)</u>
Enillion / (Colledion)						
Enillion / (colledion) ar fuddsoddiadau		<u>187,026</u>	<u>-</u>	<u>(12,193)</u>	<u>174,833</u>	<u>(61,792)</u>
(GWARIANT) / INCWM NET		<u>(868,852)</u>	<u>1,241,837</u>	<u>(1,198)</u>	<u>371,787</u>	<u>4,480,789</u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Datganiad o Incwm Cynhwysfawr
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2024

	Cronfeydd Anghyfngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Gwaddol £	Cyfanswm 2024 £	Cyfanswm 2023 £
Incwm / (Gwariant) Net	(868,852)	1,241,837	(1,198)	371,787	4,480,789
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd 21	1,031,932	(1,031,932)	-	-	-
Symudiadau net mewn cronfeydd	<u>163,080</u>	<u>209,905</u>	<u>(1,198)</u>	<u>371,787</u>	<u>4,480,789</u>
CYSONI CRONFEYDD					
Cronfeydd agoriadol	31,339,312	327,549	277,011	31,943,872	27,463,083
Symudiadau net mewn cronfeydd	163,080	209,905	(1,198)	371,787	4,480,789
CRONFEYDD AR 31 MAWRTH 2024	<u>31,502,392</u>	<u>237,454</u>	<u>275,813</u>	<u>32,315,659</u>	<u>31,943,872</u>

GWEITHGAREDDAU PARHAOL

Deillia'r holl adnoddau a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd o weithgareddau parhaol.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru (Rhif Cofrestredig: 00263310)

Mantolen
ar 31 Mawrth 2024

	Nodyn	2024 £	2023 £
ASEDAU SEFYDLOG			
Asedau anniriaethol	13	212,245	129,841
Asedau diriaethol	14	25,469,087	23,612,423
Buddsoddiadau	15	<u>4,233,055</u>	<u>4,053,110</u>
		29,914,387	27,795,374
ASEDAU CYFREDOL			
Stoc	16	114,112	62,930
Dyledwyr	17	2,581,172	2,057,125
Arian mewn llaw ac yn banc		<u>2,492,083</u>	<u>4,785,571</u>
		5,187,367	6,905,626
CREDYDWYR			
Symiau i'w talu o fewn blwyddyn	18	(2,786,095)	(2,757,128)
ASEDAU CYFREDOL NET		<u>2,401,272</u>	<u>4,148,498</u>
ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL		<u>32,315,659</u>	<u>31,943,872</u>
ASEDAU NET		<u>32,315,659</u>	<u>31,943,872</u>
CRONFEYDD			
Cronfeydd anghyfyngedig	21	31,502,392	31,339,312
Cronfeydd cyfyngedig		537,454	327,549
Cronfeydd gwaddol		<u>275,813</u>	<u>277,011</u>
CYFANSWM CRONFEYDD		<u>32,315,659</u>	<u>31,943,872</u>

Cymeradwywyd gan fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 20 Rhagfyr 2024 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:



Abigail Sara Williams - Trysorydd

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Datganiad Llif Arian
am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024

	Nodyn	2024 £	2023 £
Llif arian o weithgareddau gweithredu:			
Arian gynhyrchwyd drwy weithrediadau	1	(18,342)	4,111,214
Llif arian o weithgareddau buddsoddi:			
Pryniant asedau anniriaethol		(145,156)	(103,594)
Pryniant asedau sefydlog		(2,298,762)	(3,489,023)
Pryniant o fuddsoddiadau sy'n ased sefydlog		(1,842,640)	(173,669)
Gwerthiant asedau sefydlog		52,500	32,500
Gwerthiant fuddsoddiadau sy'n ased sefydlog		1,819,229	195,063
Symudiad net arian parod o fewn buddsoddiad		45,389	(18,136)
Llog dderbyniwyd		83,299	54,996
Enillion ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi		<u>(2,286,141)</u>	<u>(3,501,863)</u>
Llif arian o weithgareddau cyllido:			
Incwm cysylltiedig â gwaddolion		10,995	3,955
Gwariant cysylltiedig â gwaddolion		-	(9,890)
Enillion ddarparwyd mewn gweithgareddau cyllido		<u>10,995</u>	<u>(5,935)</u>
(Lleihad)/cynnydd mewn arian yn y flwyddyn		<u>(2,293,488)</u>	<u>603,416</u>
	2		
Cronfeydd ariannol net ar 1 Ebrill 2023		<u>4,785,571</u>	<u>4,182,155</u>
Cronfeydd ariannol net ar 31 Mawrth 2024	2	<u>2,492,083</u>	<u>4,785,571</u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r datganiad Llif Arian
am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024

1. CYMHWYSIAD O'R INCWM NET I'R LLIF ARIAN NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU

	2024	2023
	£	£
Incwm net am y cyfnod adrodd (o'r datganiad o weithgareddau gweithredu)	371,787	4,480,789
Addasiadau:		
Amorteiddiad	62,752	34,737
Dibrisiant	389,110	176,918
Lleihad /(cynnydd) mewn buddsoddiadau hir dymor	(201,923)	66,696
Colled ar werthiant asedau sefydlog	488	3,760
Llog dderbyniwyd	(83,299)	(54,996)
Incwm cysylltiedig â gwaddolion	(10,995)	(3,955)
Gwariant cysylltiedig â gwaddolion	-	9,890
Lleihad /(cynnydd) mewn stoc	(51,182)	687
Cynnydd mewn dyledwyr	(524,047)	(761,846)
Cynnydd mewn credydwyr	28,967	158,534
	<u>(18,342)</u>	<u>4,111,214</u>

2. DADANSODDIAD O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD ARIANNOL

	2024	2023
	£	£
Arian mewn llaw ac yn y banc	<u>2,492,083</u>	<u>4,785,571</u>
Cyfanswm arian	<u>2,492,083</u>	<u>4,785,571</u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2024

1. POLISI'AU CYFRIFO

Sail gyfrifo

Mae'r Bwrdd yn parhau i gofio y gall ei benderfyniadau strategol fod â goblygiadau hirdymor i'r busnes a'i rhanddeiliaid, ac asesir y goblygiadau hyn yn ofalus.

Yn ystod y flwyddyn, wrth gymeradwyo cyllideb yr Urdd fe roddodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sylw i'r canlynol:

- Ymgorffori y gyfundrefn Llywodraethant newydd y Byrddau Strategol y sefydlwyd yn y flwyddyn blaenorol. Fe wnaeth pob bwrdd gwrdd yn chwarterol yn ystod y flwyddyn
- Sicrhau llais Pobl ifanc o fewn y llywodraethant, a chynnwys seddi i bobl ifanc ar bob un o'r Byrddau Strategol
- Trefniadau dathliadau canmlwyddiant yr Urdd
- Parhau i ail adeiladu'r gweithlu yn dilyn effaith COVID ar y gweithlu

Buddiannau Gweithwyr y Cwmni

Mae gwella ymgysylltiad gweithwyr yn rhan annatod o ddiwylliant yr Urdd. Mae uwch reolwyr yn cymryd rhan weithredol mewn ymgysylltu â staff drwy gyfathrebiadau wyneb yn wyneb ac electronig wythnosol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am ddatblygiadau busnes ac yn rhoi cyfle i godi cwestiynau ac ateb cwestiynau'n uniongyrchol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar faterion gweithwyr gan y Prif Weithredwr, sy'n mynychu cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Mae rôl y Bwrdd Adnoddau Dynol, sydd yn cwrdd yn chwarterol, yn cynnwys:

- Cefnogi'r Prif Weithredwr a Pennaeth yr adran Adnoddau Dynol i lunio cynllun strategol i ddatblygu'r gweithlu gan gymeradwyo'r fersiwn terfynol
- Cefnogi denu, cadw a datblygu gweithlu cynhwysol
- Rhannu arweiniad a chefnogaeth mewn meysydd cyflogaeth penodol
- Cyflwyno argymhellion i Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Urdd ar faterion Adnoddau Dynol.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2023

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod cefnogaeth a chyfraniad nifer o rhanddeiliaid mewnol allweddol yr Elusen (aelodau a gwirfoddolwyr yr Urdd) a rhanddeiliaid allanol (y cyhoedd, partneriaid cyflenwi, cyllidwyr, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, cyflenwyr, cwsmeriaid a noddwyr).

Yn ystod y flwyddyn hon, ymestynnwyd cysylltiad yr Urdd gyda rhandaliad, wrth ddarparu lloches i ffoaduriaid Wcrain yng Ngwersyll Llangrannog. Roedd yr Urdd yn rhan o ymgyrch Llywodraeth Cymru i gefnogi dinasyddion Wcrain oedd yn ffoi ac yn ceisio lloches. Hwyluswyd hyn gan Llywodraeth Cymru, a'r awdurdodau lleol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymgysylltu'n effeithiol â'r holl rhanddeiliaid ac maent yn ymwybodol bod llwyddiant yr Urdd yn dibynnu ar ei allu i ymgysylltu'n effeithiol, cydweithio'n adeiladol ac ystyried barn rhanddeiliaid. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried ac yn trafod gwybodaeth o bob rhan o'r sefydliad er mwyn deall effaith gweithrediadau'r Urdd a diddordebau a barn ein rhanddeiliaid allweddol. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn adolygu perfformiad ariannol a gweithredol, yn ogystal â gwybodaeth sy'n cwmpasu meysydd fel risgiau allweddol, cydymffurfiaeth gyfreithiol a rheoleiddiol.

Darperir y wybodaeth hon i'r Ymddiriedolwyr drwy adroddiadau rheolaidd a ddosbarthwyd cyn pob cyfarfod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a thrwy gyflwyniadau wyneb yn wyneb gan uwch reolwyr a staff eraill pan fo'n briodol.

Mae strwythur Llywodraethu'r Urdd yn allweddol i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae Pwyllgorau a Byrddau Rhanbarth yn eistedd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys gwirfoddolwyr, aelodau a rhanddeiliaid a phartneriaid eraill yn ogystal â dirprwyaeth o Ymddiriedolwyr a staff ac maent yn rhoi barn, adborth ac arweiniad i'r Ymddiriedolwyr gan roi cyfleoedd i Ymddiriedolwyr ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau a gwirfoddolwyr.

Yn unol a'r strwythur llywodraethant, mae'r byrddau strategol canlynol yn gweithredu:

- Adnoddau Dynol
- Busnes
- Chwaraeon a Phrentisiaethau
- Eisteddfod a'r Celfyddydau
- Gwersylloedd

Mae rhanddeiliaid yn derbyn diweddariad drwy gylchlythyr rheolaidd gan y Prif Weithredwr.

Hyrwyddir y Cwmni i'r holl rhanddeiliaid drwy'r cyfryngau ac ymrwymadau cyhoeddus gan Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr, Llywydd yr Urdd a'r Prif Weithredwr.

Effaith Gweithrediadau'r Cwmni ar y Gymuned a'r Amgylchedd

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ymrwymo i gefnogi cymunedau ledled Cymru ond maent yn rhoi ystyriaeth arbennig i'r rhanbarthau hynny lle mae prif ganolfannau preswyl yr Urdd wedi'u lleoli, a chyfrifoldeb yr elusen fel cyflogwr lleol, cwsmer i fusnesau lleol yn ogystal â'i heffaith amgylcheddol yn yr ardaloedd hynny.

Mae'r Urdd wedi ymrwymo drwy ei pholisi amgylcheddol i leihau ei heffaith amgylcheddol drwy leihau ôl troed carbon ei weithgareddau a'r adnoddau naturiol y mae'n eu defnyddio. Yn Ionawr 2023, comisiynwyd 'ECA Business Energy' i gwblhau archwiliad o ddefnydd ynni a'r allyriadau carbon yr Urdd. Yn sgil hyn mae'r Urdd wedi ymrwymo i fod yn Sero Net erbyn 2050.

Mae'r Urdd yn cefnogi cymunedau, trwy gyflogaeth leol a'r gadwyn gyflenwi leol. Mae'r Urdd yn cyfrannu'n arbennig at gydlyniant cymunedol drwy gyflwyno ystod o gyfleoedd i bobl ifanc a gwirfoddolwyr o'r cymunedau lleol ym mhrif ganolfannau cyflogaeth yr elusen ac o'u cwmpas

Cynnal Enw Da am Safonau Ymddygiad Busnes Uchel

Mae'r Bwrdd yn ymfalchïo yn ei hanes hir o onestrwydd ac uniondeb yn ei drafodion busnes. Mae'n cydnabod pwysigrwydd gweithredu fframwaith llywodraethu corfforaethol cadarn.

Yr Angen i Weithredu'n Deg Rhwng Aelodau

Mae holl aelodau'r Bwrdd wedi cwblhau datganiad diddordeb ac archwiliad sgiliau. Mae hyn yn sicrhau bod eu profiad a'u gwybodaeth sgiliau yn cyd-fynd ag amcanion yr elusen.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr
am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023**

CYFEIRNODAU A MANYLION GWEINYDDOL

Rhif Cofrestredig y Cwmni

00263310 (Cymru a Lloegr)

Rhif Cofrestredig yr Elusen

524481

Swyddfa gofrestrdig

Adran Ariannol
Gwersyll Yr Urdd Glan-Llyn
Llanuwchllyn
Y Bala
Gwynedd LL23 7ST

Ymddiriedolwyr

Ms E C Davies
Mr D Davies
Mr T D Jones
Mr G Morris
Mrs M Parry
Ms A Parry (ymddiswyddodd 5ed Rhagfyr 2022)
Mr D Price (ymddiswyddodd 18^{eg} Hydref 2023)
Mr R Tomos, (ymddiswyddodd 12^{fed} Medi 2022)
Mr I A Walters, Is-Gadeirydd
Miss N Haf
Miss S Ff Dafydd (ymddiswyddodd 1^{af} Mehefin 2023)
Mr G S Parry (ymddiswyddodd 19^{eg} Ebrill 2023)
Mrs N Bennett, Cadeirydd
Ms G Davies
Mrs M Emlyn (apwyntiwyd 5ed Rhagfyr 2022), Is-Gadeirydd
Mr R J O'Rourke (apwyntiwyd 5ed Rhagfyr 2022)
Ms A S Williams (apwyntiwyd 5ed Rhagfyr 2022)

Archwilwyr

Ashmole & Co.
Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig
18 Stryd Fawr
Llanymddyfri
Sir Gaerfyrddin
SA20 0PU

Bancwyr

HSBC plc
19 Y Stryd Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1DE

Rheolwyr Buddsoddiadau

Canaccord Genuity Wealth Management
Anson House
1 Cae'r Llynen
Llandudno Junction
Conwy LL31 9LS

Prif Gyngorwyr Cyfreithiol

Hugh James
Two Central Square
Caerdydd
CF10 1FS

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Yr Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr o Gwmni Urdd Gobaith Cymru at ddiben cyfraith cwmnïau) sydd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r cyfrifon ariannol yn unol â deddfwriaeth cymwys a Safonau Cyfrifyddol y Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddol Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol ac o'r adnoddau derbynnir ac y'u defnyddiwyd, gan gynnwys incwm a gwariant, gan y cwmni elusennol ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr

- dewis polisiau cyfrifo addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn yr adroddiad 'Datganiadau o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau' (SORP);
- llunio barnau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys wedi eu dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac eglurir yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol ('going concern') oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol addas sy'n datgelu sefyllfa ariannol y Cwmni'n gymharol gywir ar unrhyw adeg a hefyd yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau cyllidol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb i warchod asedion y Cwmni ac yna i gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll neu afreoleidd-dra arall.

Cyn belled a bo'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohoni; ac
- mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi'u cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal a sicrhau cywirdeb y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a gynhwysir ar wefan y Cwmni Elusennol.

Cymeradwywyd adroddiad yr ymddiriedolwyr yn ogystal â'r adroddiad strategaeth gan yr Ymddiriedolwyr, fel cyfarwyddwyr y cwmni, ar 14 Rhagfyr 2023 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:



Nia Bennett – Cadeirydd, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cwmni Urdd Gobaith Cymru (y 'cwmni elusennol') am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023, sy'n cynnwys Datganiad o Weithgareddau Ariannol, Mantolen, Datganiad Llif Arian yn ogystal â nodiadau priodol, a chrynodeb o'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â fframwaith cyfraith berthnasol ynghyd a Safonau Cyfrifyddol y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o faterion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2023 ac o'r adnoddau a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

Sail ar gyfer barn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (SRA (DU)) a chyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau ni yn unol â'r safonau hynny wedi eu disgrifio ymhellach yn ein hadroddiad ni, yn adran cyfrifoldebau'r Archwilwyr ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol i'r cwmni elusennol yn unol â gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rydym o'r farn bod y dystiolaeth archwilio rydym wedi ei chasglu yn ddigonol ac yn briodol i roi sail ar gyfer ein barn.

Casgliadau ynghylch busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi ynghylch y materion isod y mae'r SRA (DU) yn mynnu ein bod yn adrodd arnynt:

- pan nad yw defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- pan nad yw'r ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd sylweddol a allai fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r cwmni elusennol i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifo busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf, ar ôl y dyddiad y cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo i'w cyhoeddi.

Gwybodaeth bellach

Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ar wahân i'r datganiadau ariannol ac Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol ar y datganiadau hynny.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno.

Yng nghyswllt ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall a, thrwy hynny, ystyried a oes anghysondeb sylweddol rhwng y wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth rydym ni wedi ei chasglu yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos bod y wybodaeth wedi ei chamddatgan yn sylweddol. Os ydym ni, ar sail y gwaith rydym wedi ei wneud, yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth bellach hon wedi ei chamddatgan yn sylweddol, mae'n rhaid i ni adrodd am hynny. Does gennym ni ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion arall a bennir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr, ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol; ac
- mae Adroddiad yr Ymddiriedolwyr gan gynnwys yr Adroddiad Strategol wedi ei baratoi yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion yr ydym yn adrodd arnynt fel eithriad

Yn sgil y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r cwmni elusennol a'i sefyllfa a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi dod ar draws unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ynghylch y materion isod, y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn mynnu ein bod ni'n adrodd arnynt i chi os byddwn ni o'r farn:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu na chafwyd ffurflenni priodol ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau na ymwelwyd â hwy; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r ffurflenni na'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nad yw rhai o daliadau cydnabyddiaeth yr ymddiriedolwyr, a nodir gan y gyfraith, wedi cael eu datgan; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth neu esboniadau angenrheidiol ar gyfer ein harchwiliad.

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, yr ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddiobenion cyfraith cwmnïau) sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon bod y datganiadau yn rhoi darlun cywir a theg. Yr ymddiriedolwyr sydd hefyd yn gyfrifol am reolaeth fewnol o'r fath y mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried sydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi heb unrhyw gamddatganiadau sylweddol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol a datgelu, lle bo'n briodol, faterion ynghylch y busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifo busnes cyfredol oni bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu ddirwyn y gweithrediadau i ben, neu pan mai dyna yw'r unig opsiwn realistig.

Ein cyfrifoldebau ar gyfer archwiliad y datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiadau materol ai peidio, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac i gyflwyno Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad wedi ei gynnal yn unol â SRA (DU) yn darganfod camddatganiadau materol bob tro lle bo camddatganiadau materol yn bodoli. Gall gamddatganiadau godi drwy dwyll neu wall, ac fe'u hystyrir yn faterol os, yn unigol neu fel cyfanswm, y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol yma.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra. Amcanion ein harchwiliad yw cael digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfynu ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol, cyflawni gweithdrefnau archwilio er mwyn helpu nodi achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau eraill a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol, ac i ymateb yn briodol i ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

O ran twyll, amcanion ein harchwiliad yw nodi ac asesu'r risg o gamddatganiad sylweddol o'r datganiadau ariannol oherwydd twyll, casglu digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch y risgiau aseswyd o gamddatganiad sylweddol trwy dwyll gan ddylunio a gweithredu ymatebion priodol ac ymateb yn briodol i dwyll neu dwyll tybiedig a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

Fodd bynnag, prif gyfrifoldeb y rheolwyr, gyda goruchwyliaeth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yw sicrhau bod gweithrediadau'r endid yn cael eu cynnal yn unol â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau ac ar gyfer atal a chanfod twyll.

Wrth asesu a nodi'r risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, fe wnaeth y tîm archwilio:

- gael dealltwriaeth o natur y diwydiant a'r sector, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r elusen yn gweithredu ynddo a sut mae'n cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol;
- holi'r rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, am eu hasesiad a chydabyddiaeth eu hunain o beryglon afreoleidd-dra, gan gynnwys unrhyw achosion gwirioneddol, tybiedig neu honedig o dwyll;
- drafod materion ynghylch peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a sut y gallai twyll ddigwydd gan gynnwys asesu sut a ble y gallai'r datganiadau ariannol fod yn agored i dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, rydym yn ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw SoRP Elusennau, FRS 102, Deddf Cwmnïau 2006 a Deddf Elusennau 2011. Gwnaethom gynnal gweithdrefnau archwilio i ganfod diffyg cydymffurfio a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol a oedd yn cynnwys adolygu'r datgeliadau yn y cyfrifon.

Nododd y tîm archwilio mai'r risg mwyaf i gamddatganiad sylweddol trwy dwyll fyddai o ganlyniad i'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau mewnol. Roedd y gweithdrefnau archwilio a berfformiwyd yn cynnwys ond nid oeddent wedi'u cyfyngu i brofi cyfnodolion ac addasiadau eraill a gwerthuso'r rhesymeg fusnes mewn perthynas ag unrhyw drafodion sylweddol, anarferol a wnaed y tu allan i gwrs busnes arferol.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwiliad y datganiadau ariannol i'w gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol sef, www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad yn ffurfio rhan o'n Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol.

**Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau
Cwmni Urdd Gobaith Cymru**

Defnydd o'n hadroddiad

Gwnaed yr adroddiad yma i aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Ran 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Gwneir ein gwaith archwilio er mwyn i ni adrodd i aelodau'r cwmni elusennol ar y materion hynny mae'n ofynnol i ni yn adrodd arnynt yn adroddiad yr archwilwyr ac nid at bwrpas arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn neu yn cymryd cyfrifoldeb am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad yma, nac am ein barn a ffurfiwyd, i unrhyw un heblaw'r Cwmni Elusennol ac aelodau'r Cwmni Elusennol fel corff.

Caiff yr adroddiad hwn ei wneud i aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Ran 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel y gallem ddatgan i aelodau'r cwmni elusennol y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi'i ffurfio.



C H Llwyd FCA FCCA (Senior Statutory Auditor)
Dros ac ar ran Ashmole & Co
Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig
18 Stryd Fawr
Llanymddyfri
Sir Gaerfyrddin
SA20 0PU

Dyddiad: 19 Rhagfyr 2023

Nodir:

Cyfrifoldeb yr Ymddiriedolwyr yw cywirdeb a chynnal a chadw gwefan Cwmni Urdd Gobaith Cymru; nid yw'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol fel y'u cyflwynwyd ar y wefan.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

**Datganiad o Weithgareddau Ariannol
(Gan gynnwys Cyfrif Incwm a Gwariant)
am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023**

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Gwaddol £	2023 Cyfanswm Cronfeydd £	2022 Cyfanswm Cronfeydd £
INCWM AC GWADDOLION DRWY:						
Rhoddion a chymynroddion	2	343,187	13,425	-	356,612	491,132
Gweithgareddau elusennol	5	12,008,506	6,891,734	-	18,900,240	10,722,130
Incwm amrywiol	3	197,680	-	-	197,680	88,973
Incwm drwy fuddsoddiadau	4	<u>99,828</u>	<u>-</u>	<u>3,955</u>	<u>103,783</u>	<u>45,270</u>
Cyfanswm Incwm a Gwaddolion		<u>12,649,201</u>	<u>6,905,159</u>	<u>3,955</u>	<u>19,558,315</u>	<u>11,347,505</u>
GWARIANT AR						
Godi cyllid	6	(46,470)	-	(331)	(46,801)	(40,613)
Gweithgareddau elusennol	7	<u>(9,149,718)</u>	<u>(5,809,656)</u>	<u>(9,559)</u>	<u>(14,968,933)</u>	<u>(8,608,220)</u>
Cyfanswm		<u>(9,196,188)</u>	<u>(5,809,656)</u>	<u>(9,890)</u>	<u>(15,015,734)</u>	<u>(8,648,833)</u>
Enillion / (Colledion)						
(Colledion) / enillion ar fuddsoddiadau		<u>(56,726)</u>	<u>-</u>	<u>(5,066)</u>	<u>(61,792)</u>	<u>263,768</u>
INCWM / (GWARIANT) NET		<u>3,396,287</u>	<u>1,095,503</u>	<u>(11,001)</u>	<u>4,480,789</u>	<u>2,962,440</u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Datganiad o Incwm Cynhwysfawr
am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Gwaddol £	Cyfanswm 2023 £	Cyfanswm 2022 £
Incwm Net	3,396,287	1,095,503	(11,001)	4,480,789	2,962,440
Ail-brisio eiddo rhydd	-	-	-	-	(59,205)
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd 21	6,257,968	(6,259,073)	1,105	-	-
	<u>9,654,255</u>	<u>(5,163,570)</u>	<u>(9,896)</u>	<u>4,480,789</u>	<u>2,903,235</u>
Symudiadau net mewn cronfeydd					
CYSONI CRONFEYDD					
Cronfeydd agoriadol	21,685,057	5,491,119	286,907	27,463,083	24,559,848
Symudiadau net mewn cronfeydd	9,654,255	(5,163,570)	(9,896)	4,480,789	2,903,235
	<u>31,339,312</u>	<u>327,549</u>	<u>277,011</u>	<u>31,943,872</u>	<u>27,463,083</u>
CRONFEYDD AR 31 Mawrth 2023					

GWEITHGAREDDAU PARHAOL

Deilliai'r holl adnoddau a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd o weithgareddau parhaol.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru (Registered number: 00263310)

Mantolien
ar 31 Mawrth 2023

	Nody	2023 £	2022 £
ASEDAU SEFYDLOG			
Asedau anniriaethol	13	129,841	60,984
Asedau diriaethol	14	23,612,423	20,336,578
Buddsoddiadau	15	<u>4,053,110</u>	<u>4,123,064</u>
		27,795,374	24,520,626
ASEDAU CYFREDOL			
Stoc	16	62,930	63,617
Dyledwyr	17	2,057,125	1,295,279
Arian mewn llaw ac yn banc		<u>4,785,571</u>	<u>4,182,155</u>
		6,905,626	5,541,051
CREDYDWYR			
Symiau i'w talu o fewn blwyddyn	18	(2,757,128)	(2,598,594)
		<u>4,148,498</u>	<u>2,942,457</u>
ASEDAU CYFREDOL NET			
		<u>31,943,872</u>	<u>27,463,083</u>
ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL			
		<u>31,943,872</u>	<u>27,463,083</u>
ASEDAU NET			
		<u>31,943,872</u>	<u>27,463,083</u>
CRONFEYDD			
	21		
Cronfeydd anghyfyngedig		31,339,312	21,685,057
Cronfeydd cyfyngedig		327,549	5,491,119
Cronfeydd gwaddol		<u>277,011</u>	<u>286,907</u>
CYFANSWM CRONFEYDD			
		<u>31,943,872</u>	<u>27,463,083</u>

Cymeradwywyd gan fwrdd yr ymddiriedolwyr ar 14 Rhagfyr 2023 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:



Abigail Sara Williams - Trysorydd

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Datganiad Llif Arian
am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023

	Nodyn	2023 £	2022 £
Llif arian o weithgareddau gweithredu:			
Arian gynhyrchwyd drwy weithrediadau	1	4,111,214	3,210,581
Llif arian o weithgareddau buddsoddi:			
Pryniant asedau anniriaethol		(103,594)	(45,337)
Pryniant asedau sefydlog		(3,489,023)	(3,033,871)
Pryniant o fuddsoddiadau sy'n ased sefydlog		(173,669)	(59,965)
Gwerthiant asedau sefydlog		32,500	-
Gwerthiant fuddsoddiadau sy'n ased sefydlog		195,063	64,494
Symudiad net arian parod o fewn buddsoddiad		(18,136)	-
Llog dderbyniwyd		<u>54,996</u>	<u>-</u>
Enillion ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi		<u>(3,501,863)</u>	<u>(3,074,679)</u>
Llif arian o weithgareddau cyllido:			
Incwm cysylltiedig â gwaddolion		3,955	9,756
Gwariant cysylltiedig â gwaddolion		<u>(9,890)</u>	<u>-</u>
Enillion ddarparwyd mewn gweithgareddau cyllido		<u>(5,935)</u>	<u>9,756</u>
Cynnydd/(Ileihad) mewn arian yn y flwyddyn		603,416	145,658
Cronfeydd ariannol net ar 1 Ebrill 2022	2	<u>4,182,155</u>	<u>4,036,497</u>
Cronfeydd ariannol net ar 31 Mawrth 2023	2	<u><u>4,785,571</u></u>	<u><u>4,182,155</u></u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r datganiad Llif Arian
am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023

1. CYMHWYSIAD O'R INCWM NET I'R LLIF ARIAN NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU

	2023	2022
	£	£
Incwm net am y cyfnod adrodd (o'r datganiad o weithgareddau gweithredu)	4,480,789	2,962,440
Addasiadau:		
Amorteiddiad	34,737	16,402
Dibrisiant	176,918	164,856
Lleihad /(cynnydd) mewn buddsoddiadau hir dymor	66,696	(263,768)
Colled ar werthiant asedau sefydlog	3,760	-
Llog dderbyniwyd	(54,996)	-
Incwm cysylltiedig â gwaddolion	(3,955)	(9,756)
Gwariant cysylltiedig â gwaddolion	9,890	-
Lleihad /(cynnydd) mewn stoc	687	(40,134)
Cynnydd mewn dyledwyr	(761,846)	(782,274)
Cynnydd mewn credydwyr	158,534	1,162,815
	<u>4,111,214</u>	<u>3,210,581</u>
Mewnllif o arian net o weithgareddau gweithredu	<u>4,111,214</u>	<u>3,210,581</u>

2. DADANSODDIAD O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD ARIANNOL

	2023	2022
	£	£
Arian mewn llaw ac yn y banc	<u>4,785,571</u>	<u>4,182,155</u>
Cyfanswm arian	<u>4,785,571</u>	<u>4,182,155</u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2023

1. POLISIÂU CYFRIFO

Sail gyfrifo

Mae'r adroddiadau ariannol y cwmni elusennol, wedi cael eu paratoi yn dilyn canllawiau Charities SORP (FRS 102) 'Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice applicable to charities preparing their accounts in accordance with the Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland (FRS 102) (effective 1 January 2015)', 'Financial Reporting Standard 102' y Deyrnas Unedig ac Iwerddon a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r adroddiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar sail y confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio buddsoddiadau sydd wedi'u cynnwys ar werth y farchnad, fel y'u haddaswyd drwy ailbrizio asedau penodol.

Busnes Gweithredol

Nodir gweithgareddau a chynlluniau'r Urdd ar gyfer y dyfodol yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol gan ystyried effeithiau ariannol Covid-19. Yn eu hasesiad o briodoldeb y sail busnes gweithredol, mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys cronfeydd arian parowrth gefn, hylifedd a'r galw a ragwelir.

Mae gan y sefydliad adnoddau ariannol sylweddol ynghyd â rhywfaint o gyllid grant y cytunwyd arno. O ganlyniad, mae'r Ymddiriedolwyr yn credu bod y sefydliad mewn sefyllfa dda i reoli ei risgiau busnes yn llwyddiannus.

Mae gan yr Ymddiriedolwyr ddisgwyliad rhesymol bod gan yr Urdd adnoddau digonol i barhau i weithredu'n llwyddiannus hyd y gellir rhagweld. Am y rhesymau hyn maent yn parhau i fabwysiadu sail barhaus paratoi cyfrifon.

Incwm

Derbyniwyd incwm gwirfoddol mewn ffurf rhoddion, cymynroddion ac anrhegion, fe'u cynhwysir yn llawn yn y datganiadau ariannol pan dderbyniwyd. Cydnabuwyd incwm o fuddsoddiad pan yn ddyledus. Mae incwm gohiriedig yn cynrychioli incwm a dderbynnir sy'n berthnasol i gyfnodau yn y dyfodol ac felly yn cael ei ryddhau i incwm yn y cyfnod perthnasol.

Ar gyfer cymynroddion, cymerir yr hawl derbyn ar y cynharaf o'r dyddiad y mae'r elusen naill ai yn ymwybodol bod profiant wedi'i roi, bod yr ystâd wedi'i chwblhau a bod yr ysgutor wedi hysbysu y bydd dosbarthiad yn cael ei wneud, neu pan dderbynnir dosbarthiad o'r ystâd. Ystyrir bod derbyn cymynrodd, yn gyfan neu'n rhannol, yn debygol dim ond pan bod modd mesur y swm yn ddibynadwy a bod yr elusen wedi'i hysbysu o fwriad yr ysgutor i wneud dosbarthiad. Lle mae cymynroddion wedi'u hysbysu i'r elusen, neu os yw'r elusen yn ymwybodol bod profiant wedi ei roi, ac nad yw'r meini prawf ar gyfer cydnabod incwm wedi'u bodloni, yna caiff y gymynrodd ei thrin fel ased amodol a'i datgelu os yw'n berthnasol.

Cyfrifir am roddion pan gânt eu derbyn gan yr elusen. Cyfrifir am dreth i'w adennill drwy Rodd Cymorth ar sail gronol. Cynhwysir rhoddion asedau diriaethol yn y cyfrifon ar eu gwerth ar y farchnad. Mae'r elusen hefyd yn derbyn budd gwaith gwirfoddolwyr, na ellir meintio ei werth ac felly ni ellir ei gydnabod yn ariannol yn y cyfrifon.

Cydnabyddir incwm grantiau a chytundebau lefel gwasanaeth yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol dim ond pan fydd y meini prawf cydnabod incwm cyffredinol wedi eu cyflawni. Yn achos grantiau sy'n gysylltiedig â pherfformiad, cydnabyddir yr incwm i'r graddau y bydd yr elusen wedi darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau penodedig. Cofnodir grantiau cyfalaf yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y flwyddyn y'u derbynnir.

Mae tanysgrifiadau aelodaeth yn cael eu trin fel incwm ar gyfer darparu gweithgareddau Elusennol.

Cydnabyddir incwm o fuddsoddiad ar yr adeg y mae'r incwm buddsoddi yn dderbyniadwy. Ni ddangosir adenillon buddsoddi o Gronfeydd Croniadau Bondiau Buddsoddi Asedau Sefydlog fel incwm buddsoddi ond fe'i hadlewyrchir ym mhreis pob uned, ac felly fe'i hadlewyrchir yng ngwerth marchnad yr unedau ar ddiwedd y flwyddyn

Cofnodir trosiant yn net o unrhyw TAW berthnasol.

Costau

Cydnabuwyd rhwymedigaethau pan fydd dyletswydd gyfreithiol neu adeiladol i'r elusen, yn ogystal â throsglwyddiad economaidd. Cydnabuwyd costau a threuliau yn y cyfnod pan yn ddyledus. Mae costau yn cynnwys TAW lle nad yw'n bosib i'w hawlio yn ôl

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2023

1. POLISI'AU CYFRIFO – parhad

Dyraniad a dosbarthu costau

Dosbarthwyd costau i gronfeydd ar sail costau uniongyrchol. Lle nad yw'n bosib i'w dosbarthu ar y sail yma, sef costau canolog y mudiad, dosrannwyd y costau ar draws gweithgareddau elusennol *pro-rata* ar sail yr incwm a dderbyniwyd gan bob canolfan gost. Teimlir bod y polisi yma yn rhoi adlewyrchiad teg o'r amser a dreuliwyd yn ganolog. Mae costau trefn llywodraethu yn cynrychioli'r gost o weinyddu'r elusen a chwrdd â gofynion cyfansoddiadol a statudol. Mae'r gost o godi arian yn cynrychioli'r gost o redeg yr adran nawdd a chostau nwyddau penodol sydd wedi eu prynu er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen. Cydnabuwyd costau prydlesau gweithredol yn flynyddol mewn rhandaliadau cyfartal blynyddol dros oes y les.

Asedau anniriaethol

Cynhwysir asedau anniriaethol ar eu cost, net o amorteiddiad ag unrhyw darpariaeth ar gyfer amhariadau.

Amorteiddir yr asedau yma er mwyn lleihau cost yr ased, llai gwerth gweddilliol, drwy randaliadau cyfartal blynyddol dros oes economaidd defnyddiol disgwylidig yr ased fel a ganlyn:

Meddalwedd	4 mlynedd
------------	-----------

Asedau sefydlog diriaethol

Dibrisir yr asedau yma ar raddfeydd er mwyn lleihau cost yr ased, llai gwerth gweddilliol, dros oes defnyddiol ddisgwylidig yr ased fel a ganlyn:

Adeiladau hir-les	Linell syth dros dymor y les
Offer a chyfarpar	4% - 25% ar gost ac 5% ar falans gostyngol
Moduron/Cerbydau	25% ar falans gostyngol
Adeiladau	Linell syth dros 50 mlynedd ar y gwahaniaeth rhwng cost / prisiad a'r gwerth gwiredadwy disgwylidig ar ôl 50 mlynedd

Mae mwy o fanylion am y polisi o beidio â dibrisio adeiladau rhydd-ddaliadol yn nodyn 14.

Nid yw tir yn destun dibrisiant.

Arian yn y banc ac mewn llaw

Mae arian yn y banc ac arian mewn llaw yn cynnwys arian parod a buddsoddiadau byr rhybudd hylifol iawn gydag aeddfedrwydd byr o dri mis neu lai o'r dyddiad caffael neu agor y cyfrif cadw neu debyg.

Buddsoddiadau asedau cyfredol

Buddsoddiadau asedau cyfredol yw arian a fuddsoddir mewn buddsoddiad am gyfnod o lai na 12 mis tan aeddfedrwydd.

Offerynnau ariannol

Dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol o fath sy'n gymwys fel offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Cydnabyddir offerynnau ariannol sylfaenol yn y lle cyntaf ar werth trafodion a'u mesur wedyn yn ôl eu gwerth anheddiad.

Stoc

Prisir stoc ar yr isafswm o gost neu'r hyn a geir o'u hailwerthu. Cyfrifir cost ar sail gwerth pryniant. Seilir gwerth masnachol ar amcan o bris gwerthu llai'r amcan o gost o'r gwaredu.

Treth

Mae'r elusen yn rhydd o dalu treth gorfforaeth ar ei weithgareddau elusennol.

Cyfrifo cronfeydd

Gall gronfeydd anghyfyngedig cael eu defnyddio yn ôl amcanion y corff elusennol a dymuniad yr ymddiriedolwyr.

Cronfeydd Cyffredinol

Mae cronfeydd cyffredinol yn cynnwys rhoddion ac incwm a dderbynnir neu a gynhyrchwyd am amcanion yr elusen heb bwrpas arbennig arall ac felly ar gael fel cronfa gyffredinol. Ni osodir amodau allanol ar gronfeydd cyffredinol ac maent ar gael i'w gwario gan yr elusen yn ôl eu hamcanion/bwriadau neu i'w neilltuo tuag at bwrpasau priodol mewnol.

Cronfeydd Dynodedig

Mae cronfeydd dynodedig yn gronfeydd cyffredinol a glustnodwyd gan yr ymddiriedolwyr at bwrpasau arbennig.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023

1. POLISI'AU CYFRIFO – parhad

Cronfeydd Cyfyngedig

Mae cronfeydd cyfyngedig yn cynrychioli arian a dderbyniwyd tuag at bwrpasau arbennig lle ceir amodau ar eu gwario. Mae cyfyngiadau yn digwydd ble mae'r rhoddwyr yn rhoi cyfyngiad neu ble codir at bwrpas penodol cyfyng. Codwyd gwariant sy'n ymwneud â'r nod yma i'r gronfa, ynghyd a dyraniad teg o gostau gweinyddu a rheoli.

Cronfeydd Gwaddol

Mae cronfeydd gwaddol yn cynrychioli cyfraniadau a chymynroddion lle mae'r cyfrannydd wedi nodi y dylid cadw'r arian fel cyfalaf. Defnyddir yr incwm yn unol â thelerau'r gwaddolion a'u cynhwysir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

Hur bwrcas ac ymrwmiadau prydles

Mae taliadau prydles weithredol yn cael eu cynnwys yn Natganiad Gweithgareddau Ariannol ar sail linol dros gyfnod y brydles.

Costau Pensiwn a Buddion arall ar ôl ymddeol

Mae'r Cwmni yn gweithredu tri chynllun pensiwn ar ran staff cymwys.

1. Mae rhai o staff y mudiad yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n gynllun cenedlaethol, statudol cyfrannol, cynllun pensiwn lle mae'r budd wedi'i ddiffinio a heb ei gyllido. Gweinyddwyd gan yr Asiantaeth Pensiwn Athrawon, asiantaeth weithredol Adran Addysg a Chyflogi. Aseswyd costau pensiwn gan Actwari'r Llywodraeth. Cyfrannodd yr Elusen 23.68% (2022: 23.68%) o gyflogau pensiynadwy i'r cynllun am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023, sef £19,539 (2022: £20,282). Cydnabuwyd y gost yn y datganiadau ariannol pan yn ddyledus. Mae'r cynllun yma ar gau i aelodau newydd o staff ers 2000.

2. I'r aelodau nad ydynt yn gymwys i ymuno'r a'r Cynllun Athrawon, mae'r Elusen wedi trefnu cynllun pensiwn gyda chyfraniadau wedi'u diffinio. Rheolwyd y cynllun yn annibynnol ac mae'r elusen yn cynrychioli 6% o gyflog pensiynadwy.

3. Mae cynllun ychwanegol sydd yn cydymffurfio â 'chofrestrriad awtomatig' i aelodau sydd ddim yn cyfrannu i'r uchod.

Delir asedau bob cynllun ar wahân i asedau'r elusen, ac fe gydnabuwyd y costau yn Natganiad Gweithgareddau Ariannol yn ystod y cyfnod pan maent yn ddyledus. Y gost am y flwyddyn ar gyfer cynlluniau 2 a 3 oedd £293,515 (2022: £221,141).

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023

2. CYFRANIADAU A CHYMYNRODDION

	2023	2022
	£	£
Grantiau Cyffredinol	-	248,319
Cyfraniadau	72,122	61,808
Cymynroddion	<u>284,490</u>	<u>181,005</u>
	<u>356,612</u>	<u>491,132</u>

Cydnabyddir incwm gwirfoddol dderbyniwyd trwy gyfraniadau, cymynroddion a rhoddion yn gyflawn yn yr adroddiadau ariannol pan maent yn cael eu derbyn. Ni chynhwysir gwerth y gwasanaeth a roddir gan wirfoddolwyr yn y cyfrifon.

Roedd Grantiau Cyffredinol yn y cyfnod adrodd blaenorol yn cynrychioli incwm Cynllun Cadw Swyddi y DU ar gyfer gweithwyr ar "furlough".

3. GWEITHGAREDDAU MASNACHOL ARALL

	2023	2022
	£	£
Incwm amrywiol	<u>197,680</u>	<u>88,973</u>
	<u>197,680</u>	<u>88,973</u>

Mae'r incwm amrywiol yn cynnwys incwm amrywiol dderbyniwyd o weithgareddau'r elusen sydd ddim yn deillio yn uniongyrchol o brif benawdau gweithgareddau e.e. rhent, nawdd a gwerthiant stoc hyrwyddo.

4. INCWM O FUDDSODDIADAU

	2023	2022
	£	£
Incwm portffolio buddsoddiadau	48,787	45,270
Llog i'w dderbyn	<u>54,996</u>	-
	<u>103,783</u>	<u>45,270</u>

Cydnabyddir incwm o fuddsoddiadau pan y dderbynnir.

5. INCWM O WEITHGAREDDAU ELUSENNOL

		2023	2022
	Gweithgaredd	£	£
Grantiau	Grantiau – cefnogi gweithgareddau elusennol	6,664,288	6,217,094
Gweithgareddau elusennol	Canolfannau preswyl	8,972,379	3,212,360
Gweithgareddau elusennol	Adran chwaraeon	717,261	309,476
Gweithgareddau elusennol	Adran prentisiaethau	464,957	430,045
Gweithgareddau elusennol	Adran Eisteddfod a Chelfyddydau	1,443,591	250,290
Gweithgareddau elusennol	Cylchgronau	150	78
Gweithgareddau elusennol	Adran Ieuentid a Chymuned	229,152	68,126
Gweithgareddau elusennol	Aelodaeth a tanysgrifiadau	<u>408,462</u>	<u>234,661</u>
		<u>18,900,240</u>	<u>10,722,130</u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2023**

5. INCWM O WEITHGAREDDAU ELUSENNOL – parhad

Mae'r uchod yn cynnwys grantiau dderbyniwyd, fel â ganlyn:

	2023	2022
	£	£
Llywodraeth Cymru – Grantiau Eisteddfod	819,000	150,000
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Grantiau Eisteddfod	154,100	142,200
Llywodraeth Cymru – Grant Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg	2,194,759	1,068,384
Llywodraeth Cymru – Cynllun Grantiau Mudiadau Ieuencid Gwirfoddol Cenedlaethol	123,534	135,764
Llywodraeth Cymru – Haf o Hwyl 2022	250,000	-
Llywodraeth Cymru – Theatr Ieuencid	200,000	-
Llywodraeth Cymru – TAITH	127,958	-
Llywodraeth Cymru – Prosiectau Eraill	111,900	193,940
Cyngor Llyfrau Cymru	34,000	34,000
Cynghorau lleol a chymunedau	582,146	705,130
Grantiau chwaraeon	666,288	799,280
Hybu Cynllun Prentisiaeth	100,000	100,000
Llywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol – Grantiau Cyfalaf	875,994	2,228,566
Cronfa Adfer Cymunedol y DU	351,620	150,753
Garfield Weston – Grant Cyfalaf	-	150,000
Prince's Trust – Grant Cyfalaf	-	250,000
Chwaraeon Cymru – Grant Cyfalaf	-	66,669
Grantiau eraill	<u>72,989</u>	<u>42,408</u>
	<u><u>6,664,288</u></u>	<u><u>6,217,094</u></u>

Cydnabuwyd grantiau, gan gynnwys grantiau i brynu asedau sefydlog, yn llawn yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan yn ddyledus.

6. CODI ARIAN

Casglu cyfraniadau a chymynroddion

	2023	2022
	£	£
Costau staff	42,722	36,084
Costau eraill	<u>4,079</u>	<u>4,529</u>
	<u><u>46,801</u></u>	<u><u>40,613</u></u>

7. DADANSODDIAD O GOSTAU GWEITHGAREDDAU MASNACHOL

	Costau uniongyrchol	Costau cefnogi (Gweler nodyn 8)	Cyfanswm
	£	£	£
Y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2023			
Canolfannau preswyl	7,363,602	579,942	7,943,544
Gweithgareddau Adran Chwaraeon	1,942,655	118,414	2,061,069
Adran Prentisiaethau	735,835	52,321	788,156
Adran yr Eisteddfod a Chelfyddydau	2,378,694	150,404	2,529,098
Cylchgronau	40,843	4,403	45,246
Costau rhanbarth ac elusennol	<u>1,502,586</u>	<u>99,234</u>	<u>1,601,820</u>
	<u><u>13,964,215</u></u>	<u><u>1,004,718</u></u>	<u><u>14,968,933</u></u>

Rhennir costau cefnogi canolog yr Urdd dros y gweithgareddau elusennol *pro rata* ar sail canran yr incwm a dderbyniwyd.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023**

7. DADANSODDIAD O GOSTAU GWEITHGAREDDAU MASNACHOL - parhad

	Costau uniongyrchol	Costau cefnogi (Gweler nodyn 8)	Cyfanswm
Y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2022			
	£	£	£
Canolfannau preswyl	4,052,155	377,942	4,430,097
Gweithgareddau Adran Chwaraeon	1,324,589	172,603	1,497,192
Adran Prentisiaethau	698,760	198,018	896,778
Adran yr Eisteddfod a Chelfyddydau	410,539	40,775	451,314
Cylchgronau	51,984	8,233	60,217
Costau rhanbarth ac elusenol	<u>1,093,906</u>	<u>178,716</u>	<u>1,272,622</u>
	<u><u>7,631,933</u></u>	<u><u>976,287</u></u>	<u><u>8,608,220</u></u>

8. COSTAU CEFNOGI

	Rheolaeth	Cyllid	Trefn Llywodraethu	Cyfanswm
Y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2023				
	£	£	£	£
Cyflogau	706,539	-	69,119	775,658
Yswiriant gwladol cyflogwr	93,366	-	8,377	101,743
Pensiwn	33,417	-	4,084	37,501
Cynnal a chadw	18,433	-	-	18,433
Ffioedd proffesiynol	-	-	23,091	23,091
Ffi archwilwyr	-	-	11,970	11,970
Costau banc	-	<u>36,322</u>	-	<u>36,322</u>
	<u><u>851,755</u></u>	<u><u>36,322</u></u>	<u><u>116,641</u></u>	<u><u>1,004,718</u></u>

	Rheolaeth	Cyllid	Trefn Llywodraethu	Cyfanswm
Y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2022				
	£	£	£	£
Cyflogau	686,347	-	61,164	747,511
Yswiriant gwladol cyflogwr	82,131	-	7,391	89,522
Pensiwn	40,037	-	3,670	43,707
Cynnal a chadw	14,413	-	-	14,413
Ffioedd proffesiynol	-	-	54,752	54,752
Ffi archwilwyr	-	-	8,000	8,000
Costau banc	-	<u>18,382</u>	-	<u>18,382</u>
	<u><u>822,928</u></u>	<u><u>18,382</u></u>	<u><u>134,977</u></u>	<u><u>976,287</u></u>

9. INCWM NET

Bydd incwm net yn cael ei ddatgan ar ôl y canlynol:

	2023 £	2022 £
Ffi archwilwyr	11,020	9,500
Ffi archwilwyr - gwasanaethau eraill	950	8,500
Amorteiddiad	34,737	16,405
Dibrisiant	176,918	164,856
Rhent	107,635	75,615
Diffyg ar werthiant asedau sefydlog	<u><u>3,760</u></u>	<u><u>-</u></u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023

10. TÂL A BUDDION YR YMDDIRIEDOLWYR

Ni dderbyniodd unrhyw ymddiriedolwyr unrhyw gyflogau na budd-daliadau eraill yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023 nac ychwaith yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022.

Treuliau'r ymddiriedolwyr

Digolledwyd amryw o ymddiriedolwyr gan yr elusen am gostau cyffredinol (e.e. teithio i gyfarfodydd ayyb), cyfanswm o £dim (2022: £dim) yn y flwyddyn.

11. COSTAU STAFF

	2023	2022
	£	£
Cyflog gros	6,231,293	4,455,653
Yswiriant gwladol cyflogwr	538,370	368,564
Cyfraniadau pensiwn cyflogwr	<u>293,515</u>	<u>221,141</u>
	<u>7,063,178</u>	<u>5,045,358</u>

Nifer y staff a gyflogwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn oedd:

	2023	2022
Gweithgareddau elusenol	296	206
Cost o gynhyrchu cronfeydd ariannol	1	1
Gweinyddiaeth a rheoli	<u>8</u>	<u>8</u>
	<u>305</u>	<u>215</u>

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth dau aelod o staff ennill rhwng £60,000 a £70,000 (2022: un), dim aelod o staff ennill rhwng £80,000 a £90,000 (2022: un) ac un aelod o staff ennill rhwng £90,000 a £100,000 (2022: dim). Mae'r ffigyrau yma yn seiliedig ar gyflog gros.

Costau Staff Allweddol

Ynghyd a'r Prif Weithredwr mae gan Cwmni Urdd Gobaith Cymru a phenaethiaid adran sy'n ffurfio'r Uwch Dîm Rheoli sydd yn gyfrifol am reoli gweithgareddau'r Elusen o ddydd i ddydd. Isod mae cyfanswm y taliadau a wnaethpwyd i'r Uwch Dîm Rheoli:

	2023	2022
	£	£
Cyflog gros	505,009	466,380
Yswiriant gwladol cyflogwr	<u>62,523</u>	<u>54,291</u>
	<u>567,532</u>	<u>520,671</u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023

12. DATGANIADAU ARIANNOL Y FLWYDDYN FLAENOROL

	Nodyn:	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Gwaddol £	2022 Cyfanswm Cronfeydd £
INCWM AC GWADDOLION					
DRWY:					
Rhoddion a chymynroddion		242,812	248,320	-	491,132
Gweithgareddau elusennol		4,495,036	6,227,094	-	10,722,130
Incwm amrywiol	3	88,973	-	-	88,973
Incwm drwy fuddsoddiadau	4	<u>35,514</u>	<u>-</u>	<u>9,756</u>	<u>45,270</u>
Cyfanswm		4,862,335	6,475,414	9,756	11,347,505
GWARIANT AR					
Godi cyllid		(40,613)	-	-	(40,613)
Gweithgareddau elusennol		<u>(4,914,041)</u>	<u>(3,694,179)</u>	<u>-</u>	<u>(8,608,220)</u>
Cyfanswm		(4,954,654)	(3,694,179)	-	(8,648,833)
Gweddill ar fuddsoddiadau		<u>244,388</u>	<u>-</u>	<u>19,380</u>	<u>263,768</u>
INCWM NET		<u>152,069</u>	<u>2,781,235</u>	<u>29,136</u>	<u>2,962,440</u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023

13. ASEDAU ANNIRIAETHOL

	Meddalwedd cyfrifiadurol	Cyfanswm
	£ £	£
GWERTH		
Ar 1 Ebrill 2022	77,550	77,550
Ychwanegiadau	<u>103,594</u>	<u>103,594</u>
Ar 31 Mawrth 2023	<u>181,144</u>	<u>181,144</u>
AMORTEIDDIAD		
Ar 1 Ebrill 2022	16,566	16,566
Amorteiddiad am y flwyddyn	<u>34,737</u>	<u>34,737</u>
Ar 31 Mawrth 2023	<u>51,303</u>	<u>51,303</u>
GWERTH AR Y LLYFRAU		
Ar 31 Mawrth 2023	<u>129,841</u>	<u>129,841</u>
Ar 31 March 2022	<u>60,984</u>	<u>60,984</u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2023

14. ASEDAU SEFYDLOG TIRIAETHOL

	Tir ac adeiladau £	Adeiladau Hir- les £	Offer £	Cerbydau £	Cyfanswm £
GWERTH					
Ar 1 Ebrill 2022	19,207,027	300,000	1,637,065	129,588	21,273,680
Ychwanegiadau	2,472,741	-	929,043	87,239	3,489,023
Gwaredion	(32,500)	-	(43,895)	-	(76,395)
Ar 31 Mawrth 2023	<u>21,647,268</u>	<u>300,000</u>	<u>2,522,213</u>	<u>216,827</u>	<u>24,686,308</u>
DIBRSIANT					
Ar 1 Ebrill 2022	-	25,800	806,408	104,894	937,102
Dibrsiant am y flwyddyn	-	1,500	164,182	11,236	176,918
Dileu ar waredu	-	-	(40,135)	-	(40,135)
Ar 31 Mawrth 2023	-	<u>27,300</u>	<u>930,455</u>	<u>116,130</u>	<u>1,073,885</u>
GWERTH AR Y LLYFRAU					
Ar 31 Mawrth 2023	<u>21,647,268</u>	<u>272,700</u>	<u>1,591,758</u>	<u>100,697</u>	<u>23,612,423</u>
Ar 31 Mawrth 2022	<u>19,207,027</u>	<u>274,200</u>	<u>830,657</u>	<u>24,694</u>	<u>20,336,578</u>

Cafwyd prisiad proffesiynol o eiddo rhydd-ddaliadol (tir ac adeiladau) yr Urdd gan Rhys Davies MRICS, FAAV, N.Sch o R G Jones, Farmers Marts, Llys Meirion, Dolgellau yn Medi 2023 ar brisiad o £19,207,027.

Os na fyddai'r asedau sefydlog wedi cael eu hail-brisio yn ystod y flwyddyn ariannol, y swm yn y Datganiadau Ariannol fyddai £19,392,865 (2022: £19,392,865).

Mae adeiladau hir-les wedi'u cynnwys ar eu cost wreiddiol a'u dibrisio dros gyfnod y les.

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn na fyddai dibrisio'r eiddo rhydd-ddaliadol (tir ac adeiladau) yn arwain at gynrychiolaeth gywir o'r eiddo gan ystyried y buddsoddiad parhaol tuag at gynnal a chadw. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod y polisi cyfrifo o beidio diibrisio adeiladau rhydd-ddaliad yn wyriad oddi wrth Ddeddf Cwmnïau 2006, ac felly wedi mabwysiadu'r ddarpariaeth o gyfrifo am yr eiddo ar sail ailbrisiad. O dan y ddarpariaeth yma mae'r Ymddiriedolwyr wedi ymrwmo i gynnal ailbrisiad gyda chysondeb digonol i sicrhau bod gwerth a ddangosir ar gyfer yr asedau sefydlog ddim yn anghytuno'n sylweddol o'r hyn y byddai'n 'gwerth drwy ddefnydd' ar gyfer y canolfannau preswyl a 'gwerth teg' ar gyfer yr asedau eraill ar ddyddiad y fantolen. Yn ogystal, adolygir gwerth cario eiddo rhydd-ddaliadol ar ddyddiad pob cyfnod adrodd i benderfynu a oes unrhyw arwydd o nam. Os oes arwydd o'r fath yn bodoli, amcangyfrifir swm adenilladwy'r ased. Swm adenilladwy ased yw'r mwyaf o'i bris gwerthu net a'i werth yn cael ei ddefnyddio. Ar 31 Mawrth 2023, mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad oes unrhyw arwydd o nam ag felly bod gwerth teg adeiladau rhydd-ddaliadol yw'r werth adroddir ar hyn o bryd.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2023

15. BUDDSODDIADAU SY'N ASED AU SEFYDLOG

	Buddsoddiadau Sefydlog		Eiddo Buddsoddi	Cyfanswm
	£	£	£	£
GWERTH MASNACHOL				
Ar 1 Ebrill 2022	3,773,064		350,000	4,123,064
Ychwanegiadau	173,669		-	173,669
Gwarediadau	(195,063)		-	(195,063)
Symudiad net arian parod o fewn buddsoddiad	18,136		-	18,136
Ail-brisiad	(66,696)		-	(66,696)
	<u>3,703,110</u>		<u>350,000</u>	<u>4,053,110</u>
GWERTH NET AR BAPUR				
Ar 31 Mawrth 2023	<u>3,703,110</u>		<u>350,000</u>	<u>4,053,110</u>
Ar 31 Mawrth 2022	<u>3,773,064</u>		<u>350,000</u>	<u>4,123,064</u>

Mae mwyafrif o'r buddsoddiadau uchod wedi eu sefydlu yn y Deyrnas Unedig. Mae unrhyw fuddsoddiadau tramor yn rhan o'r portffolio buddsoddi Canaccord Genuity.

Mae gan yr Elusen fuddsoddiadau yn *M&G Charifund* a *Blackrock Charishare*, sy'n cynrychioli 52.99% (2022: 52.52%) and 7.66% (2022: 7.57%) yn ôl eu trefn o gyfanswm y portffolio buddsoddiadau.

Gwerth masnachol y buddsoddiadau sydd yn gynnwysedig ym mhorthffolio *Canaccord Genuity* ar ddiwedd y flwyddyn oedd £1,373,205 (2022: £1,423,754).

Cydnabyddir y buddsoddiadau sy'n asedau sefydlog ar eu gwerth masnachol ar ddyddiad y fantolen. Mae'r buddsoddiadau wedi cael eu ail-brisio a chydabyddir unrhyw enillion neu golledion yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

Dadansoddiad o fuddsoddiadau:

	2023	2022
	£	£
Arian parod neu gyfwerth	46,781	28,645
Buddsoddiadau rhestredig	<u>3,656,329</u>	<u>3,744,419</u>
	<u>3,703,110</u>	<u>3,773,064</u>

Gweler gost y buddsoddiadau isod:

	2023	2022
	£	£
Cost hanesyddol y buddsoddiadau ar 31 Mawrth	<u>1,552,180</u>	<u>1,326,799</u>

16. STOC

	2023	2022
	£	£
Stoc	<u>62,930</u>	<u>63,617</u>

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023

17. DYLEDWYR: SYMIAU I'W DERBYN O FEWN BLWYDDYN

	2023	2022
	£	£
Dyledwyr masnach	1,053,899	778,824
Dyledwyr arall	89,865	36,953
Incwm cronedig	405,428	128,000
Blaendaliadau	500,746	351,502
TAW	7,187	-
	<u>2,057,125</u>	<u>1,295,279</u>

18. CREDYDWYR: SYMIAU I'W TALU O FEWN BLWYDDYN

	2023	2022
	£	£
Benthyciadau arall (gweler nodyn 19)	28,282	28,255
Credydwyr masnach	1,030,020	670,583
Trethi arall ac yswiriant gwladol	128,606	214,367
Credydwyr arall	50,319	66,873
Incwm gohiriedig	908,217	1,220,878
Treuliau cronedig	211,417	164,171
Blaendaliadau	400,267	233,467
	<u>2,757,128</u>	<u>2,598,594</u>

19. BENTHYCIADAU

Dangosir dadansoddiad o'r benthyciadau isod:

	2023	2022
	£	£
Symiau i'w talu o fewn blwyddyn neu ar orchymyn:		
Benthyciadau arall	<u>28,282</u>	<u>28,255</u>
	<u>28,282</u>	<u>28,255</u>

Mae benthyciadau arall yn ymwneud a benthyciadau i'r Elusen gan y grwpiau rhanbarthol gyda llog yn daladwy ar gyfradd o 0.5% uwchben y gyfradd gwlad.

Cwmni Urdd Gobaith Cymru

